Ministry of Defence

# CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012



# CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 2 o Ddeddf Lluoedd Arfog 2011

## Contents

RHAGAIR 1

CRYNODEB GWEITHREDOL 3

CYFLWYNIAD 6

ARSYLWADAU GAN AELODAU ALLANOL O GRŴP CYFEIRIO'R CYFAMOD 9

1 PERSONÉL Y LLUOEDD ARFOG 15

2 Y LLUOEDD WRTH GEFN 24

3 PERSONÉL CLWYFEDIG, ANAFEDIG, A SÂL 28

4 TEULUOEDD 33

5 Y PROFEDIGAETHUS 43

6 Y RHEINI SY'N GADAEL Y LLUOEDD 48

7 CYN-AELODAU O'R LLUOEDD ARFOG 53

TABL O YMRWYMIADAU PRESENNOL 57



# RHAGAIR

**Y Gwir Anrhydeddus Philip Hammond AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn**

Hwn yw'r Adroddiad Blynyddol ffurfiol cyntaf ers i Fil y Lluoedd Arfog gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2011. Mae'n gam pwysig yn y broses o atgyweirio a chryfhau Cyfamod y Lluoedd Arfog – sef ymrwymiad y rhoesom ffurf ddeddfwriaethol iddo ac y bwriadwn sicrhau y bydd yn parhau.

O ymgyrchoedd yn Affganistan i sicrhau diogelwch diffwdan yng Ngemau Olympaidd Llundain yn ystod yr haf, mae dynion a menywod ein Lluoedd Arfog gan gynnwys y Lluoedd Wrth Gefn yn parhau i ddangos eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad i ddiogelu pobl y wlad hon. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rwyf wedi ystyried eu rhwymedigaethau unigryw a'r aberthau a wnânt; yr egwyddor ei bod yn ddymunol gwaredu anfanteision sy'n ffrwyth aelodaeth, neu gynaelodaeth, o'r Lluoedd Arfog; a'r egwyddor y gallai darpariaeth arbennig i filwyr fod yn briodol mewn rhai achosion.


Yn yr adroddiad hwn, nodir yn glir lle ystyrir bod personél y Lluoedd Arfog dan anfantais a nodir lle ystyrir bod darpariaeth arbennig yn gyfiawn. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae'r adroddiad yn ymdrin ag effeithiau ymaelodi â'r Lluoedd Arfog mewn pedwar maes - sef addysg, gofal iechyd, tai a chynnal cwestau - yn ei benodau. Mae hefyd yn nodi'r ymrwymiadau newydd a wnaethom yn y flwyddyn ddiwethaf ynghyd ag adroddiad cynnydd ar gyfer pob un o'r ymrwymiadau blaenorol, er mwyn dal y Llywodraeth yn atebol dros amser.

Gwnaethom gynnydd sylweddol yn barod. Drwy gorffori egwyddorion y Cyfamod mewn cyfraith a sefydlu Pwyllgor lefel Cabinet i oruchwylio'r cynnydd, mae'r Cyfamod yn cael ei wreiddio am byth ar draws Whitehall. Rydym eisoes wedi cyflwyno newidiadau polisi sylweddol, fel dyblu'r lwfans ymgyrchol, cynyddu bedair gwaith y gostyngiad yn y dreth gyngor i luoedd ar ymgyrchoedd a sefydlu'r Cyfamod Cymunedol. Fis diwethaf, cyhoeddom gynlluniau i fynd ymhellach, gan gynyddu ac estyn cwmpas Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog, lansio Gwasanaeth Disgownt Amddiffyn newydd a darparu £35 miliwn ychwanegol i'w wario drwy elusennau'r lluoedd arfog ar fynd i'r afael â rhai o'r blaenoriaethau a nodir yn yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud o hyd ac un o'r meysydd lle byddwn yn gobeithio gwneud cynnydd cynnar yn y dyfodol yw perchentyaeth. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau perchentyaeth ymhlith aelodau cyfredol a blaenorol o'r Lluoedd Arfog yn gymharol isel, gan adlewyrchu elfen o anfantais systemig. Rwy'n benderfynol o fynd i'r afael â'r anfantais honno drwy sicrhau bod perchentyaeth o fewn cyrraedd mwy o bobl y Lluoedd Arfog, gan wella safon llety'r Lluoedd Arfog hefyd.

Cyfrifoldeb traws-lywodraethol yw cyflenwi'r Cyfamod – ond mae hefyd yn ehangach na hynny: mae'r Cyfamod yn bodoli rhwng y Llywodraeth, y Genedl a Chymuned y Lluoedd Arfog, ac mae gennym oll ddyletswydd i chwarae ein rhan. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu i roi'r Cyfamod ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a llawer ohonynt wedi cyfrannu hefyd at adroddiad eleni. Rwy'n ymwybodol o'r cymorth sylweddol a gawsom gan y Gweinyddiaethau Datganoledig, Ffederasiynau'r Teuluoedd, elusennau'r Lluoedd Arfog ac awdurdodau lleol – yn enwedig y rheini sydd wedi llofnodi Cyfamodau Cymunedol. Yn olaf, hoffwn ddiolch i fusnesau ac, yn arbennig, i'r rheini sy'n cyfranogi yn y Cynllun Disgownt Amddiffyn.

Yn unol â’r ymrwymiad a roddwyd pan ystyriodd y Senedd Fil y Lluoedd Arfog, mae’r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys y sylwadau a gawsom gan aelodau allweddol Grŵp Cyfeirio’r Cyfamod. Rwy’n ddiolchgar iawn am bopeth a wnaethant, ac am bopeth y maent yn dal i’w wneud, i gefnogi’r gwaith pwysig hwn.



# CRYNODEB GWEITHREDOL



© Copyright PA Photos Ltd

Prime Minister David Cameron meets Bomber Command Veteran pilot Leslie Valentine and presents a Defence medal for services in the Second World War

Hwn yw'r adroddiad statudol cyntaf am Gyfamod y Lluoedd Arfog ers inni gorffori egwyddorion y Cyfamod mewn cyfraith. Dyma ddechrau'r broses i ailadeiladu Cyfamod y Lluoedd Arfog ac rydym wedi nodi'r maes gweithredu cyfredol, yn agweddau da a drwg, gan gynnwys sylwadau heb eu golygu gan aelodau annibynnol o Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod.

Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Lluoedd Arfog 2011, mae'r adroddiad hwn yn ystyried dwy egwyddor allweddol y Cyfamod. Nodwyd yr egwyddorion hyn am y tro cyntaf yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011, a nododd:

*"Ni ddylai'r rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed y Lluoedd Rheolaidd neu'r Lluoedd Wrth Gefn, y rheini a wasanaethodd yn y gorffennol, na'u teuluoedd, wynebu unrhyw anfantais o'u cymharu â dinasyddion eraill o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a masnachol. Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rheini sydd wedi rhoi'r mwyaf fel yr anafedig a'r profedigaethus".*

Yn yr adroddiad, nodir yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud, yr hyn a wnaethom hyd yma a'r hyn sy'n dod nesaf. Mae'r adroddiad yn tynnu llun cymharol obeithiol o'r cyflawniadau ledled y DU gan gynnwys gan y Gweinyddiaethau yng Nghymru a'r Alban, yn ogystal â thros 200 o Awdurdodau Lleol sydd wedi llofnodi 'Cyfamodau Cymunedol' i leihau anfantais ac, mewn rhai achosion, cynnig darpariaeth arbennig. Fodd bynnag, yn bwysig, mae'r adroddiad hefyd yn nodi lle mae rhagor i'w wneud. Mae hyn yn cynnwys gwaith mewn meysydd fel tai, cyflogaeth i wŷr a gwragedd ac iechyd meddwl aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn.

I dynnu sylw i'r gwahanol anghenion yng nghymuned y Lluoedd Arfog, rydym wedi dewis cyflwyno'r adroddiad yn ôl grwpiau: Personél Gwasanaeth, y Lluoedd Wrth Gefn, yr anafedig, teuluoedd, y profedigaethus, y rhai sy'n gadael y Lluoedd a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Mae tuag un o bob deg o'r boblogaeth oedolion yn y DU yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog. Ar gyfer pob

grŵp, mae'r adroddiad yn nodi'r hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud i leihau anfantais a rhoi triniaeth arbennig lle bo'n briodol, yr hyn a wnaethom hyd yma a'r hyn sy'n dod nesaf; mae hyn yn cynnwys y nod ychwanegol o wneud yr adroddiad yn fwy hygyrch i'r grwpiau hyn.

Yn ôl Deddf Lluoedd Arfog 2011, rhaid i'r adroddiad edrych ar y pedair thema allweddol, sef gofal iechyd, addysg, tai a chynnal cwestau. Serch hynny, yn enwedig a ninnau ar ddechrau'r broses hon, credwn ei bod yn bwysig dadansoddi'r hyn a wnaethpwyd a'r hyn sy'n dod nesaf ar gyfer y pymtheg thema[1] i gyd sy'n rhan o gwmpas llawn Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r pymtheg thema hyn yn cael sylw drwy'r holl benodau fel sy'n briodol, ond er mwyn rhoi rhyw bwyslais ar y pedair thema allweddol a restrir yn y ddeddfwriaeth, y rhain yw ffocws y crynodeb hwn.

# Gofal iechyd

Yn yr adroddiad, mae amrywiaeth o fentrau i gefnogi anghenion iechyd Cymuned y Lluoedd Arfog. Ymhlith y rhain mae integreiddio asesiadau iechyd meddwl yn archwiliadau meddygol arferol y Gwasanaeth, triniaeth IVF i'r rheini sy'n dioddef anffrwythlondeb o ganlyniad i anafiadau ar wasanaeth, a darparu aelodau prosthetig gan y GIG o'r un safon uchel â'r rheini a ddarperir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Rydym wedi parhau i ddatblygu'r Fenter Amddiffyn i Alluogi Gwellhad a chydnabu'r Comisiwn Ansawdd Gofal ansawdd uchel y gwasanaeth a ddarperir gan Wasanaethau Meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn ar y cyfan. Mae'r Is-bwyllgor Cabinet ar Gyfamod y Lluoedd Arfog hefyd wedi ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth y bydd cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n cael gwasanaethau'r GIG yn Lloegr yn cael triniaeth â blaenoriaeth am gyflyrau cysylltiedig â gwasanaeth y Lluoedd, gyda threfniadau tebyg yng Nghymru ac yn yr Alban. Yn ôl yr adroddiad, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i weithredu argymhellion o adolygiad y Comisiwn Ansawdd Gofal ac i sefydlu Gwasanaeth Gofal Iechyd Sylfaenol unedig i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Ymrwymwn hefyd i ystyried beth yn rhagor y gellir ei wneud er iechyd meddwl aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn.

# Addysg

Gwnaethpwyd cynnydd da ym maes addysg. Rydym wedi gwella'r cyfleoedd hyfforddiant ac addysg a roir i bersonél y Lluoedd Arfog ac i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog. Er enghraifft, caiff y rhai sy'n gadael y Lluoedd eu hesgusodi bellach rhag talu treth wrth ddefnyddio Credydau Dysgu Estynedig a enillwyd yn ystod eu gwasanaeth, er mwyn iddynt ddal i astudio ar ôl iddynt adael. Rydym hefyd wedi lleihau'r anfantais a wynebir gan blant aelodau o'r Lluoedd Arfog drwy newid y Cod Derbyn i Ysgolion. Erbyn hyn, caniateir i bob ysgol yn Lloegr ddyrannu lle cyn bod un o deuluoedd y Lluoedd Arfog yn cyrraedd yr ardal a chaniateir i ysgolion babanod yn Lloegr dderbyn plant aelodau o'r Lluoedd Arfog hyd yn oed os yw hyn yn cynyddu maint y dosbarth i fwy na 30. Croesawyd yn fawr y £6M a ddarparwyd i ysgolion i'w helpu i liniaru effeithiau symudedd ac ymfyddino sylweddol; croesawyd hefyd Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog, sy'n cael ei gynyddu o ran gwerth a'i ehangu o ran cwmpas. Hefyd, mae Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog yn darparu ysgoloriaethau prifysgol ac addysg bellach i blant personél y Lluoedd a laddwyd ar ddyletswydd. Mae angen inni barhau i fonitro'r cronfeydd hyn i sicrhau eu bod yn rhoi'r budd mwyaf posibl yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod hefyd fod angen adolygu effaith y newidiadau a wnaethpwyd yn y Cod Derbyn i Ysgolion ar ôl iddynt gael amser i ymsefydlu.

1. Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011, yn diffinio pymtheg thema yng nghwmpas y Cyfamod: Telerau ac Amodau Gwasanaeth, Gofal Iechyd, Addysg, Tai, Budd-daliadau a Threth, Cyfrifoldeb Gofal, Ymfyddino, Bywyd Teuluol, Cynhyrchion a Gwasanaethau Masnachol, Pontio, Cymorth ar ôl Gwasanaeth, Cydnabyddiaeth, Cyfranogiad fel Dinasyddion, Newidiadau mewn Amddiffyn ac Atebolrwydd.

# Tai

Mae tai'n fater allweddol o hyd i Gymuned y Lluoedd Arfog. Yn yr adroddiad, amlinellir bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran gwella safon y llety a ddarperir i bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, ond cydnabyddir bod llawer yn rhagor i'w wneud. Ym Mhennod 1, amlinellir y ffordd y bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn rhan o'r Model Cyflogaeth Newydd (sydd hefyd yn mynd i'r afael â thelerau ac amodau gwasanaeth), gan gynnwys ystyried rhywbeth yn lle'r Benthyciad Gwasanaeth Hir, sy'n helpu personél y Lluoedd i brynu eu heiddo eu hunain. Mewn cam pwysig i'r rheini y mae gofyn tai arnynt heblaw llety'r Lluoedd, mae gofyn bellach i Awdurdodau Lleol yn Lloegr fframio eu cynlluniau dyrannu tai i roi blaenoriaeth ychwanegol i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog y mae angen tai ar frys arnynt. Fodd bynnag, mae rhagor i'w wneud i annog cyn-aelodau anabl o'r Lluoedd i ymgeisio am y Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi'i neilltuo ac i ystyried a oes angen darparu llety 'hanner ffordd' i Gyn-aelodau sy'n cael amseroedd caled. Rydym hefyd yn cydnabod effaith y tair blynedd o saib cyllid ar y rhaglen moderneiddio Llety Byw Sengl ac ar Lety Teulu'r Lluoedd, ac rydym yn dal i chwilio am gyllid ychwanegol a gwneud gwelliannau pan fydd yn fforddiadwy. Croesawyd cyhoeddiad y Canghellor o £100M ychwanegol ar gyfer llety'r Lluoedd i fynd i'r afael â rhywfaint o'r diffyg hwn.

# Cwestau

Ym mis Medi 2012, penodwyd Prif Grwner cyntaf Cymru a Lloegr i fonitro ymchwiliadau i farwolaethau yn y Lluoedd ac i sicrhau bod crwneriaid yn cael eu hyfforddi'n addas i ymchwilio i farwolaethau felly. Hefyd, gall ymchwiliadau i farwolaeth ymgyrchol aelod o'r Lluoedd a laddwyd dramor gael eu cynnal bellach yn yr Alban i leihau'r straen ychwanegol ar deuluoedd mewn profedigaeth sy'n byw yn yr Alban. Mae'r amser cyfartalog i gynnal cwest i farwolaeth ymgyrchol lle nad oes unrhyw Ymchwiliad Llu wedi gostwng yn raddol ers 2003. Yn bwysig, o'r flwyddyn nesaf, bydd gofyn i grwneriaid roi gwybod i'r Prif Grwner am unrhyw ymchwiliadau sy'n para mwy na 12 mis, a'r rhesymau dros oedi. Byddwn yn dal i wneud y cyfan y gallwn i gefnogi'r rheini mewn profedigaeth ac yn gweithio gyda hwy i nodi beth yn rhagor y gellir ei wneud i ddarparu mathau newydd neu well o gymorth.

# Materion Eraill y Cyfamod

Ni ddiystyrwyd themâu eraill y Cyfamod, a restrwyd yn y troednodyn cynharach. Mae'r adroddiad yn nodi cyflawniadau pellach yn y meysydd hyn. Ymhlith y rhain mae'r esgusodi rhag gwneud yr asesiad am Gredyd Cynhwysol taliadau a wneir dan Gynllun Digolledu'r Lluoedd Arfog a'r Cynllun Pensiynau Rhyfel, a newidiadau yn y Lwfans Ceisio Gwaith i wŷr a gwragedd sy'n dychwelyd o benodiadau tramor gyda'u partner sydd yn y Lluoedd. Rydym wedi cyflwyno codau post ar gyfer cyfeiriadau Swyddfa Bost Lluoedd Prydain, er mwyn cael yn haws at wasanaethau a chynhyrchion masnachol. Nodir hefyd yn yr adroddiad lle mae angen inni wneud rhagor. Mae hyn yn cynnwys nodi lle gallwn wneud rhagor i gefnogi cyfleoedd cyflogaeth i ŵyr a gwragedd personél y Lluoedd.

# CYFLWYNIAD

Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf i'w lunio ar ôl i Ddeddf Lluoedd Arfog 2011 gael Cydsyniad Brenhinol a'i rhoi mewn grym, gan osod dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i lunio adroddiad bob blwyddyn i'r Senedd. I baratoi ar gyfer hyn, cyhoeddwyd adroddiad interim am Gyfamod y Lluoedd Arfog ar 20 Rhagfyr 2011. Mae'r adroddiad statudol cyntaf hwn yn ymdrin â'r cyfnod ers hynny, ac mae pob pennod hefyd yn cynnwys adran sy'n edrych i'r dyfodol o ran yr hyn sydd angen ei wneud i gynnal egwyddorion y Cyfamod.

Hefyd yn 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth fod Is-bwyllgor Cabinet newydd yn cael ei sefydlu ar Gyfamod y Lluoedd Arfog. Diben y Pwyllgor newydd hwn – sy'n cael ei gadeirio gan Oliver Letwin, y Gweinidog dros Bolisi Llywodraeth yn Swyddfa'r Cabinet – yw cadw'r momentwm i fynd a goruchwylio gwaith sy'n berthnasol i'r Cyfamod. Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod nifer o weithiau ac wedi trafod amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'r Cyfamod. Mae'r Prif Weinidog wedi bod i ddau o'r cyfarfodydd hyn, gan gynnwys un a gynhaliwyd ar y cyd â Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod i ystyried cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn.

Mae llawer o'r rhannau o'r Cyfamod yn syrthio ar y Gweinyddiaethau Datganoledig i'w cyflawni yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n cysylltiadau â'r Gweinyddiaethau hynny wedi datblygu wrth inni geisio sicrhau darpariaeth gyson i Gymuned y Lluoedd Arfog. O ganlyniad, rydym wedi magu perthynas dda â swyddogion yng Nghymru a'r Alban. Mae'r Llywodraethau Datganoledig yng Nghymru a'r Alban wedi cyhoeddi eu dogfennau eu hunain yn pwysleisio eu cefnogaeth i Gyfamod y Lluoedd Arfog ac yn gwneud eu hymrwymiadau eu hunain i bersonél y Lluoedd Arfog ac aelodau o Gymuned y Lluoedd. Rydym hefyd wedi gofyn eu barn wrth lunio'r adroddiad hwn, a chynnwys eu cyfraniadau lle'u darparwyd.

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei hadroddiad am Gyfamod y Lluoedd Arfog "Scottish Government support for the Armed Forces Community in Scotland" ar 5 Medi 2012. Mae'r adroddiad hwn yn nodi llawer o'r gwaith a wnaethpwyd i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yn yr Alban ac ynddo gwneir ymrwymiadau i'r dyfodol.

Lansiwyd Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ym mis Tachwedd 2011. Nodwyd yn hwn ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ar faterion datganoledig, gan gynnwys gwaith sy'n parhau yn ogystal ag ymrwymiadau newydd a chan amrywio ar draws gofal iechyd, tai ac addysg.

Mewn cyferbyniad â Chymru a'r Alban, ni fu'n bosibl gwneud yr un cynnydd yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon o ran magu cefnogaeth i Gyfamod y Lluoedd Arfog a'i gyflawni. Gellid ystyried bod yr awgrym y gallai'r Cyfamod roi blaenoriaeth i aelodau cyfredol a blaenorol o'r Lluoedd Arfog gael at wasanaethau traws-lywodraethol fod yn groes i'w deddfwriaeth gaeth ar gydraddoldeb. Parhawn i wneud yr achos i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fabwysiadu egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog lle bo'n bosibl gwneud hynny. Ar gyfer adroddiad blynyddol eleni, ceisiwyd cael barn Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ond ni lwyddwyd. Lle darperir gwasanaethau gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, darperir y rhain yn gyson ledled y DU.

Llywodraeth Leol sy'n darparu un rhan o bump o'r holl wasanaethau cyhoeddus ac, i raddau helaeth, mae yn y rheng flaen o ran bodloni anghenion personél y Lluoedd Arfog a'u dibynyddion. Mae tai, gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus, hamdden, ysgolion, cludiant a datblygu economaidd yn faterion allweddol i Gymuned y Lluoedd Arfog. Fel ar 14 Tachwedd 2012, mae

180 o awdurdodau lleol yn Lloegr wedi cytuno i'r Cyfamod Cymunedol, a 27 yn yr Alban a 6 yng Nghymru. Ni ddylid ystyried nad yw'r Cyfamod yn briodol ond mewn ardaloedd lle mae canolfannau sylweddol gan y Lluoedd. Mae aelodau o'r Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a chyn-aelodau ymhlith etholwyr pob cyngor yn y wlad ac mae gan bob cyngor ei ran i'w chwarae i gefnogi egwyddorion y Cyfamod. Fodd bynnag, y cam cyntaf yn unig yw llofnodi Cyfamod Cymunedol; y gwaith gwirioneddol i ddemocratiaeth leol yw sicrhau bod yr egwyddorion hynny'n cael eu corffori yn eu sefydliadau a'u cynrychioli mewn polisïau ar gyfer darparu pob un o'u gwasanaethau.

Cynhelir Cyfamodau Cymunedol gan Gynllun Grant y Cyfamod Cymunedol, sy'n rhoi cymorth ariannol i brosiectau a gynlluniwyd i gryfhau'r cysylltiadau neu'r gyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog a'r cymunedau lle maent yn byw. Ers rhoi'r Cynllun Grant ar waith yn 2011, dyrannwyd tua £5M i gefnogi mentrau lleol. Mae enghreifftiau o waith da Cyfamodau Cymunedol yn cael eu cynnwys drwy'r adroddiad cyfan hwn.

Un o'r ffactorau allweddol wrth baratoi'r adroddiad blynyddol hwn yw darparu tystiolaeth i ddangos lle mae personél y Lluoedd Arfog, cyn-aelodau'r Lluoedd a'u teuluoedd dan anfantais, lle gallent fod yn haeddu ystyriaeth arbennig neu lle mae newid wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Ar ddechrau'r flwyddyn, aethom ati i archwilio pa wybodaeth a oedd ar gael yn sail i'r adroddiad blynyddol a phenderfynwyd nad oedd data caled sy'n nodi anfanteision penodol ar gael mewn llawer o ardaloedd. Mae'r adroddiad eleni'n dibynnu'n hytrach ar ddwy ffynhonnell o dystiolaeth sefydledig: Arolwg Agwedd Parhaus y Lluoedd Arfog ac Arolwg Agwedd Parhaus Teuluoedd y Lluoedd Arfog. Ar gyfer y dyfodol, rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i archwilio a allai arolwg aelwydydd gynnwys dynodydd Cymuned y Lluoedd Arfog ac rydym yn addasu arolygon eraill i gael mwy o dystiolaeth o'r mannau lle mae anfantais.

Prif fwriad yr adroddiad hwn yw llywio dadl. Ei brif ddiben yw rhoi gwybod i Aelodau'r ddau Dŷ Seneddol am y cynnydd diweddaraf sy'n cael ei wneud i ddileu'r anfanteision sy'n wynebu aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog a rhoi gwybod iddynt lle mae gwaith pellach yn ofynnol. Gobeithiwn y bydd llawer o rai eraill hefyd â diddordeb mewn darllen yr adroddiad hwn, nid lleiaf aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog eu hunain.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen inni wella ymwybyddiaeth am nodau'r Cyfamod a'r cyswllt rhwng y Cyfamod a'r gwelliannau a wneir yn y dyfodol, ac nid yw'n ddigon dibynnu ar gyhoeddi'r adroddiad hwn. Rydym wedi cymryd camau felly yn ystod y flwyddyn i gyfathrebu'n well ag aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog. Yn rhan o hyn, gwnaethpwyd gwelliannau sylweddol yn y rhan berthnasol o wefan y Weinyddiaeth Amddiffyn (www.mod.uk/covenant <http://www.mod.uk/covenant>); cynhyrchwyd cyfres o erthyglau i gylchgronau a chyfnodolion; cyflwynwyd cylchlythyr rheolaidd; hybwyd ein proffil ar-lein gan ddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol rhanddeiliaid; a chynhaliwyd cynhadledd ar Gyfamod Cymuned y Lluoedd Arfog. Yn yr un modd, mae Llywodraeth yr Alban wedi chwarae rhan lawn yn Firm Base Forum, sy'n archwilio'r ffordd y mae polisïau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Llywodraeth yr Alban yn effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog; yn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar les Cymuned y Lluoedd Arfog; ac yn mynd i'r afael â'r anawsterau sy'n wynebu Cymuned y Lluoedd Arfog wrth gael at wasanaethau cyhoeddus a chymorth yn lleol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Gynhadledd Lluoedd Arfog ym mis Chwefror 2012, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,. Ar ôl y gynhadledd, ysgrifennodd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Lywodraeth Leol a Chymunedau at yr awdurdodau lleol yn ailadrodd ei ymrwymiad i gyflwyno Cyfamodau Cymunedol y Lluoedd Arfog ledled Cymru ac yn atgoffa'r awdurdodau lleol i ystyried anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yn rhan o'u gwaith. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Arbenigol y Lluoedd Arfog, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, i nodi anghenion

gwasanaeth cyhoeddus personél y Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a chyn-aelodau'r Lluoedd yng Nghymru ac i weld a ydy'r gwasanaethau presennol a ddarperir yn bodloni'r anghenion hynny.

Gobeithiwn y bydd strwythur yr adroddiad blynyddol hwn, sy'n seiliedig ar y grwpiau y bwriedir iddynt elwa ar waith y Cyfamod, a'r cyhoeddusrwydd cysylltiedig hefyd yn helpu i hybu ymwybyddiaeth ymhlith Cymuned y Lluoedd Arfog.

# ARSYLWADAU GAN AELODAU ALLANOL O GRŴP CYFEIRIO'R CYFAMOD

**Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges, Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin a Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu**

Mae tri Ffederasiwn Teuluoedd y Lluoedd wedi bod yn rhan weithgar o lunio'r Adroddiad Blynyddol hwn. Ymgynghorwyd â ni'n helaeth am y cynnwys ac rydym yn ddiolchgar o'r cyfle i gyfrannu at yr elfennau hynny o'r Adroddiad sy'n berthnasol i aelodau'r teuluoedd milwrol a gynrychiolwn.

Wrth sôn am yr adroddiad blynyddol cyntaf hwn, hoffem gydnabod bod mwyafrif helaeth y teuluoedd milwrol yn wydn dros ben a'u bod yn deall yn well na neb fod swydd eu priod neu bartner yn mynnu llawer iawn o ymrwymiad ac aberth fawr yn aml, a hynny'n aml ar fyr rybudd ac yn aml mewn amodau peryglus. Maent yn rhoi cymorth anhygoel a hael i'w helpu i wneud hynny. Maent hefyd yn deall bod yr amgylchiadau economaidd cyfredol yn effeithio ar bawb, boed yn y lluoedd neu beidio. Fel mwyafrif y sifiliaid, mae personél milwrol yn destun newidiadau sylweddol mewn pensiynau, rhewi cyflogau, gostwng lwfansau a chynyddu taliadau. Yn wir, mae gan lawer o ddynion a menywod y Lluoedd Arfog wragedd, gwŷr a phartneriaid sy'n weision sifil, yn nyrsys a'u tebyg, ac sy'n gweld effaith ddwbl yn sgil cynyddu prisiau, colli swyddi, a thynhau gwregysau. Mae'r gymuned filwrol yn deall y pwysau ar y boblogaeth sifil. Serch hynny, mae'r anfanteision sy'n cael eu cydnabod yn sgil gwasanaethu yn y Lluoedd yn unigryw. Mae'r ffaith bod y Cyfamod yn ceisio dileu'r anfanteision hyn neu eu lliniaru o leiaf yn bwysig iawn i deuluoedd a dyna pam ein bod yn croesawu gwaith y Cyfamod yn gynnes ar eu rhan, a hynny hyd yma ac yn y dyfodol.

Yn amlwg, mae rhagor i'w wneud ac, wrth osod blaenoriaethau ar gyfer adnoddau prin, rydym yn cydnabod mai dim ond un elfen o gymuned y Lluoedd Arfog yw teuluoedd y Lluoedd a bod pob aelod yn haeddu ystyriaeth briodol, gan gydbwyso anghenion y rheini sy'n dal ar wasanaeth, a'u teuluoedd, ag anghenion y rheini sydd wedi gwasanaethu, neu sydd wedi colli rhywun neu gael eu clwyfo o ganlyniad i wasanaeth.

Mewn ymateb i'r casgliadau allweddol, ar y cynnig ariannol a'r cynnig heb fod yn ariannol, cefnogwn yn gryf yr angen parhaus am Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog; mae teuluoedd yn wir yn gwerthfawrogi ei rôl a'i annibyniaeth. Rydym yn dal yn poeni'n arw am effaith gronnus y rhewi cyflogau ar lawer, torri lwfansau, gan gynnwys gostyngiadau sylweddol a sydyn mewn lwfansau tramor a osodwyd ar deuluoedd yng nghanol taith, a newidiadau mewn mynegrifo pensiynau. Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu Model Cyflogaeth Newydd (NEM) gyda'r nod o roi mwy o sefydlogrwydd a gwell rheolaeth ar yrfaoedd, ac roeddem yn arbennig o falch o ddysgu y bydd hwn yn ymarfer niwtral o ran cost ac nid ymarfer arall mewn torri costau. Ond nid oes gennym eto fanylion y Model Cyflogaeth Newydd i allu barnu ei effaith. Yr hyn a wyddom yw y bydd yn gwbl allweddol cyfleu'r canlyniadau a'r dewisiadau i deuluoedd mewn modd mor ddidwyll a gonest â phosibl wrth iddynt ddod i'r amlwg.

O ran teuluoedd y Lluoedd, sef ein maes diddordeb allweddol, byddwn yn monitro cynnydd y Model Cyflogaeth Newydd ond hefyd yn dal i asesu ymrwymiadau a wnaethpwyd i gefnogi cyflogaeth partneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog, gwneud gofal plant yn fwy hygyrch, cael at ysgolion a gwasanaethau iechyd yn haws, a gwella'r system budd-daliadau er mwyn iddi adlewyrchu symudedd cynhenid teuluoedd y Lluoedd yn well. Byddai unrhyw beth y gall y sector masnachol ei wneud i gefnogi teuluoedd y Lluoedd Arfog yn cael ei groesawu, ac felly hefyd cefnogaeth barhaus cynifer o elusennau ardderchog y Lluoedd Arfog, a ddaw i'r adwy'n aml pan fydd y sector cyhoeddus yn methu â darparu.

Tai yw'r mater y clyw'r tri Ffederasiwn amdano fwyaf o hyd ac mae'n dylanwadu'n fawr ar ein baich gwaith, er gwaethaf lefelau meddiannaeth amrywiol ar draws y tri Gwasanaeth. Yn arbennig, mae gennym bryderon real iawn o hyd am Drawsffurfio'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn, lle mae cyflymder newid a lefel uchel y rhesymoli staff yn dal i godi pryderon go iawn am ansawdd gwasanaeth cwsmeriaid, er gwaethaf yr arwyddion diweddarach o welliant. Hefyd, mae argaeledd Llety Teulu'r Lluoedd Arfog (SFA) mewn rhai ardaloedd yn annigonol ac mae symud pobl yn debygol o waethygu'r broblem oni wneir mwy o gyllid ar gael. Er ein bod yn cydnabod y cyllid "ychwanegol" a ddychwelwyd i'r gyllideb tai ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio hollbwysig, mae'r "saib" 3 blynedd mewn cyllid i uwchraddio Llety Teulu'r Lluoedd Arfog yn dal i'n siomi a theimlwn ei bod yn rhaid rhoi mwy o flaenoriaeth i gynnal a chadw a gwella ansawdd y llety a ddarperir gan y Lluoedd: Mae sut a ble mae awyrennwr/milwr/llongwr yn byw yn effeithio'n uniongyrchol ar ei effeithiolrwydd ymgyrchol a'i barodrwydd i wasanaethu. Er ein bod yn croesawu ymdrechion i leddfu cyfnod pontio teuluoedd y Lluoedd i lety rhentu neu eiddo preifat, pwysleisiwn fod angen o hyd i deuluoedd gael dewis a gallu gwasanaethu yng nghwmni eu hanwyliaid mewn llety fforddiadwy o safon os hynny yw eu dewis a'i fod yn cyfrannu at effeithiolrwydd ymgyrchol.

Rydym yn poeni hefyd am y Contract Ystâd Cenhedlaeth Nesaf a'r effaith bosibl ar deuluoedd Gwasanaeth sy'n byw mewn Llety Teulu'r Lluoedd a byddwn yn monitro datblygiadau yma â chryn ofal. Mae pobl hefyd yn dechrau cofnodi pryderon am Ffrwd Waith Llety'r Dyfodol. Yn fyr, rhaid inni sicrhau bod gennym ddewis prynu tŷ da, fforddiadwy ar gael cyn inni weld unrhyw newidiadau mewn hawl i Lety Teulu'r Lluoedd a Llety Byw Sengl, na newidiadau mewn taliadau llety.

Gwnaethpwyd llawer o gynnydd mewn Gofal Iechyd ond gofidiwn o hyd am effaith symudedd ar deuluoedd aelodau o'r Lluoedd y mae gofyn iddynt groesi naill ai ffiniau Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu ffiniau gwlad o ganlyniad i aseiniad ac sy'n wynebu gwahanol ddarpariaeth cyllid a meini prawf cymhwyster. Rydym yn cydnabod bod iechyd yn swyddogaeth hynod o ddatganoledig a bod polisïau ar gyfer cyllido triniaeth a meini prawf cymhwyster yn seiliedig ar ystyriaethau lleol. Fodd bynnag, byddem yn cymell bod mwy'n cael ei wneud i annog holl ymarferwyr iechyd y DU i gydnabod effaith symudedd y Lluoedd Arfog a bod mor hyblyg â phosibl o ran cyllid a chymhwyster am driniaeth. Yn fwy penodol, o ran gwasanaethau iechyd meddwl, mae Big White Wall yn ddatblygiad rhagorol sydd wedi'i groesawu'n dda iawn. Serch hynny, mae ar gyfer pobl dros 16 a byddem yn croesawu datblygiad tebyg i'r gymuned dan 16. Yn yr un modd, mae Partneriaeth Iechyd y Lluoedd Arfog wedi'i chyfeirio'n drwm tuag at ofal iechyd Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a byddem yn gofyn a ellid gwneud mwy o wybodaeth ar gael i bersonél sydd ar wasanaeth a'u teuluoedd.

Ym mis Ebrill 2013, bydd Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol y GIG yn cael eu disodli gan Grwpiau Comisiynu Meddygon Teulu (CCG). Bydd y consortia hyn o feddygfeydd yn comisiynu mwyafrif helaeth gwasanaethau'r GIG ar ran cleifion, gan gynnwys gofal ysbyty dewisol a gofal adsefydlu a gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd yn hanfodol sicrhau eu bod yn gwybod am yr anfanteision sy'n wynebu teuluoedd milwrol mor aml pan gânt eu hanfon yn rheolaidd ar benodiadau a

bod eu hamgylchiadau'n cael eu hystyried. Rydym hefyd yn poeni, o dan ddiwygiadau'r GIG, y bydd cleifion yn gallu cofrestru ble bynnag y mynnant ni waeth eu cyfeiriad. Gall 'sgôr' cleifion gynhyrchu ffenomen o fath 'Ofsted' lle na chaiff teuluoedd y lluoedd gofrestru ond gyda'r meddygfeydd llai parchus. Mae hwn yn fater posibl arall yr hoffem fynd i'r afael ag ef.

O ran effaith symudedd teuluoedd ar addysg plant, gwelsom gynnydd da hefyd i fynd i'r afael â'r anfantais a nodwyd i blant y Lluoedd Arfog a dyrannu lleoedd ysgol - Codau Derbyn i Ysgolion 2012 a groesawyd ac a ddefnyddir yn effeithiol i ganiatáu i blentyn oedran derbyn gael ei dderbyn i ddosbarth llawn. Mae hefyd yn helpu plant sy'n ymgeisio y tu allan i'r cylch derbyn arferol. I'r un graddau, byddai trosglwyddo cynlluniau Datganiad o Angen yn chwyldroadol i lawer o deuluoedd i gael parhad gofal ac addysg i'w plant. Rydym wedi croesawu Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog ond mae teuluoedd am gael rhagor o dystiolaeth fod y Premiwm Disgybl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol cyn barnu ei effaith ar wella cymorth i blant y Lluoedd Arfog. Rydym wedi clywed sôn nad yw'r premiwm yn cael ei ddefnyddio weithiau, neu fod cyllid arall yn cael ei dorri gan awdurdodau lleol "i wneud iawn". Yn yr un modd, o ran gofal plant, byddem yn ceisio cadarnhad bod archwiliadau digonolrwydd Gofal Plant yn cael eu gwneud - nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i'r perwyl hwnnw.

O ran budd-daliadau a threth, buom yn falch o nodi cynnydd mewn dileu'r anfantais glir a wynebir gan bartneriaid y personél sydd ar wasanaeth, yn arbennig wrth fynd dramor gyda'r partner lifrog. Ac o ran Cyflogaeth, mae newidiadau yn y Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i gwneud yn haws i wŷr a gwragedd hawlio'r lwfans wrth ddychwelyd o aseiniad tramor. Rydym hefyd yn falch o'r cynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu rôl Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog ond mae angen deall yn well y ffordd y byddant yn cysylltu â'r gymuned filwrol a'r gwasanaethau/sefydliadau lleol. Byddem hefyd yn croesawu mwy o ymdrech i helpu cyflogwyr i ddeall anghenion cyflogeion o deuluoedd milwrol pan fydd yr aelod o'r Lluoedd Arfog yn cael ei fyddino – mae'r arfer da a welwyd gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban yn enghraifft dda o'r hyn sydd ei angen.

Gwelsom gynnydd da o ran darparu cymorth lles, yn arbennig i'r rheini sy'n cael eu byddino a'r teuluoedd y gadawant ar eu holau. Fodd bynnag, gall y bobl sy'n cael eu byddino fel Unigolion ar Secondiad, yn arbennig y rheini â theuluoedd sy'n byw "y tu hwnt i'r wifren", lithro weithiau drwy'r rhwydi diogelwch o ddarpariaeth. Mae gennym bryderon arbennig bod aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn a'u teuluoedd, a phersonél Tramor a Chymanwlad a'u teuluoedd, yn cael cymorth lles priodol, wedi'i ffurfio i'w hamgylchiadau unigryw. Gobeithiwn o hyd y gellir datblygu proses Gweinyddu Personél ar y Cyd a fyddai'n caniatáu i staff lles gael yn uniongyrchol at aelodau teulu nad ydynt ar wasanaeth er mwyn cyfathrebu'n well a hybu ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael, yn arbennig yn ystod byddino. Mae'n allweddol cyfleu'r neges i deuluoedd ac mae hynny hefyd yn allweddol i'n gallu i fonitro cynnydd. I'r llawer o bersonél milwrol Tramor a Chymanwlad a'u teuluoedd, mae'r diffyg cynnydd o ran prosesau ymgeisio am deithebau'n dal i'n siomi ac mae Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin yn arbennig yn cael cwynion rheolaidd a pharhaus fod teuluoedd yn cael cyngor anghyson gan UKBA. Gobeithiwn y bydd newidiadau newydd yn helpu teuluoedd i gael eu trin fel unrhyw deulu arall sy'n ymgeisio am deitheb. Yn olaf, byddem yn rhybuddio na ddylai'r ffocws dealladwy a chywir ar Ymgyrchoedd a gallu ymgyrchol fod ar draul y personél yn y Lluoedd a'r teuluoedd hynny sy'n "cadw tân ynghynn ar yr aelwyd", yn gweithio oriau hirach a hirach ac yn aml (ac ar y gorau) yn gorfod gwneud mwy â'r un maint.

Un sylw cyffredinol y byddem yn ei wneud yw bod angen i bob parti barhau i weithio tuag at driniaeth gyfartal ar draws ffiniau'r Gweinyddiaethau Datganoledig. O ystyried natur symudol bywyd y Lluoedd Arfog, gellir creu anfantais yn syml drwy ymateb i orchymyn aseiniad sy'n mynd â'r aelod o'r Lluoedd a'i deulu ar draws ffin gwlad, lle mae gwahanol reolau a phrosesau'n berthnasol. Byddai unrhyw beth y gellir ei wneud i gysoni triniaeth ledled y DU yn lleddfu cyfnod pontio teuluoedd symudol y Lluoedd Arfog. Rydym yn cydnabod ei bod yn fwy cymhleth rhoi egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog ar waith yng Ngogledd Iwerddon, ond rydym yn poeni y

daw ei absenoldeb yng Ngogledd Iwerddon yn amlycach, wrth i dystiolaeth bendant o'i werth dyfu yn Lloegr ac yn y ddwy weinyddiaeth ddatganoledig arall.

Yn olaf, o ran Pontio a Chymorth ar ôl Gwasanaeth, ail-bwysleisiwn y ffaith nad yr aelod o'r Lluoedd yn unig sy'n pontio'n ôl i fywyd sifiliaid, ar ddiwedd gyrfa o Wasanaeth, ni waeth pa mor hir y bu, ond y teulu cyfan yn aml iawn. Mae cymorth i bartneriaid a phlant, yn enwedig o ran cael cyflogaeth a llety i'r teulu, yn hanfodol. Rhaid ystyried yn briodol hefyd iechyd meddwl yr aelodau teulu wrth iddynt adael diogelwch cymharol amgylchedd y Lluoedd, gan eu bod yn aml yn mynd â phroblemau heb eu datrys gyda nhw yn sgil effaith byddino a gwahanu ar y teulu.

Mae'n amlwg bod Cyfamod y Lluoedd Arfog, wrth iddo gael ei ddatblygu, yn newid agweddau at ddarparu gwasanaethau i gymuned y Lluoedd ac yn darparu dull strwythuredig o sicrhau nad yw personél a'u teuluoedd o dan anfantais. Croesawn y cynnydd a wnaeth a byddwn ni, Aelodau Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod, yn parhau i fonitro'r modd y caiff ymrwymiadau lawer ac amrywiol y Cyfamod eu gweithredu. Edrychwn ymlaen at roi gwybod am gynnydd o safbwynt teuluoedd y flwyddyn nesaf.

## COBSEO, RBL, SSAFA, WWA a'r Athro Hew Strachan

Mae'r adroddiad blynyddol statudol cyntaf hwn ar Gyfamod y Lluoedd Arfog yn amlygu llawer sydd i'w groesawu. Mae cynnydd yn cael ei wneud ar draws llawer agwedd i fynd i'r afael ag anfantais yn unol ag egwyddor graidd y Cyfamod, sef dim anfantais o ganlyniad i Wasanaeth yn Lluoedd Arfog EM. Un peth sy'n arbennig o galonogol yw'r flaenoriaeth uchel amlwg sy'n cael ei rhoi i faterion y Cyfamod gan y Prif Weinidog, Swyddfa'r Cabinet a'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac, yn wir, llawer o seneddwyr, fel y dengys nifer sylweddol y cyfeiriadau at y Cyfamod yn y ddau Dŷ.

Yr un mor galonogol yw'r ffaith bod Cyfamod y Lluoedd Arfog ar agenda'r llywodraeth ganolog i raddau digynsail, ond ei fod hefyd yn flaenoriaeth gynyddol uchel ar bob lefel o lywodraeth, gan gynnwys mewn awdurdodau lleol ac yng nghenhedloedd datganoledig Cymru a'r Alban. Mae croeso mawr i hyn hefyd. (Nodir bod sensitifrwydd y sefyllfa hanesyddol yng Ngogledd Iwerddon yn tanlinellu pwysigrwydd cydsyniad traws-gymunedol ar faterion Cyfamod).

Yr her allweddol flwyddyn ar ôl derbyn Bil y Lluoedd Arfog mewn cyfraith yw'r ffordd y byddwn ni, fel cenedl, yn meithrin y cynnydd hwnnw ymhellach ac yn cadw momentwm, er mwyn i egwyddorion dim anfantais ac, yn allweddol, triniaeth arbennig (lle bo modd ei chyfiawnhau, e.e. yn achos anaf cysylltiedig â Gwasanaeth) yn cael eu cymhwyso'n ymarferol ar bob lefel o lywodraeth. Mae strwythur adroddiad blynyddol eleni, sy'n canolbwyntio bron yn unswydd ar ddim anfantais, yn amlygu mor bwysig yw diffinio cyn gynted â phosibl ystyr 'triniaeth arbennig'. Byddai peidio â gwneud hynny'n mentro bod egwyddor graidd triniaeth arbennig yn cael ei diystyru a bod egwyddor graidd dim anfantais, a ddylai fod y gofyniad lleiaf un, yn cael ei gwneud yn safon aur ar gyfer barnu mynediad at wasanaethau statudol ac anstatudol. Mae'n hanfodol sicrhau nad yw hyn yn digwydd er mwyn i'r genedl wir anrhydeddu'r Cyfamod.

Mae'r adroddiad blynyddol yn ymdrin â llawer o faterion sy'n effeithio ar les cymuned y Lluoedd Arfog. Byddem yn amlygu nifer o rai sy'n dal i beri gofid ac y teimlwn eu bod yn haeddu sylw arbennig yn y flwyddyn i ddod.

Mae llety'n broblem fawr o hyd i bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. Er ein bod yn croesawu cyhoeddiad y Canghellor o £100 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol yn llety'r Lluoedd (Pennod 1 a 4), cytunwn hefyd nad yw hyn yn lliniaru effeithiau'r saib tair blynedd o fis Ebrill 2013 yn y rhaglen moderneiddio Llety Byw Sengl. Rydym yn dal i obeithio y bydd y Llywodraeth, yn unol â Chytundeb Clymblaid 2010, yn defnyddio unrhyw arbedion effeithlonrwydd ac arian arall sydd ar

gael yng nghyllideb y Weinyddiaeth Amddiffyn, i fuddsoddi yn yr hyn sydd, i lawer o bersonél y Lluoedd a'u teuluoedd, yn gorfforiad ffisegol o'r Cyfamod - sef cartref gweddus yn gyfnewid am eu Gwasanaeth a'u haberth. Heb ystyried y ffaith bod gwaith ar y Model Cyflogaeth Newydd (a fydd yn cynnwys llety) yn parhau, rydym yn annog y Llywodraeth i gynhyrchu asesiad tryloyw o effaith y rhewi ar gyflwr llety ac ar y ffordd y mae anghenion personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd yn cael eu bodloni, yn enwedig o ystyried symud ein Lluoedd o'r Almaen cyn hir. Mae'n hanfodol bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyhoeddi Strategaeth Rheoli Llety Amddiffyn ar ei newydd wedd, gan amlinellu'n union pryd a sut mae'r Adran yn bwriadu uwchraddio'r holl lety, yn llety sengl a theulu, i'r safon uchaf erbyn 2020. Dylai'r strategaeth arddangos hefyd fod yr effaith ehangach ar recriwtio a chadw unrhyw newidiadau i hawliau llety wedi'i hystyried o ddifrif.

Croesawn ystyried canolbwyntio ar faterion iechyd aelodau o'r lluoedd wrth gefn yng nghyfnod nesaf yr ymchwil gan Ganolfan y Brenin ar gyfer Ymchwil Iechyd Milwrol (Pennod 2). Fodd bynnag, dylai effaith yr integreiddio cynyddol a gynlluniwyd i aelodau wrth gefn o'r lluoedd rheolaidd fod yn destun adolygiad eang o anghenion lles ac iechyd y grŵp cynyddol bwysig hwn yn unol ag adroddiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2009, yr Adroddiad am yr Adolygiad Strategol o'r Lluoedd Wrth Gefn. Fodd bynnag, dylai'r llywodraeth hefyd wneud adolygiad eang o anghenion lles ac iechyd y grŵp cynyddol bwysig hwn yn unol ag adroddiad 2009 y Weinyddiaeth Amddiffyn, sef yr Adroddiad am Adolygiad Strategol o'r Lluoedd Wrth Gefn. Dylai hwn gynnwys archwilio i ba raddau y cânt driniaeth flaenoriaeth, am fod sôn nad yw hyn yn hawdd iddynt. Mae elusennau'r lluoedd yn edrych ymlaen at ymateb i ymgynghoriad Papur Gwyrdd y Lluoedd Wrth Gefn.

Rhaid rhoi blaenoriaeth i gymorth a gofal i bersonél wedi'u clwyfo, wedi'u hanafu a sâl ar adeg pan mae ymgyrchoedd yn Affganistan yn dal i hawlio anafedigion newydd a'r rheini sydd eisoes wedi'u hanafu'n ailadeiladu eu bywydau. Er ei bod yn dda nodi'r gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud drwy'r Fenter Amddiffyn i Alluogi Gwellhad ar y cyd â'r Lleng Brydeinig Frenhinol a Help for Heroes yn ogystal â phrosiect mentora SSAFA Forces Help (Pennod 3), nid yw hyn yn golygu bod llai o angen dadansoddiad trwyadl, blynyddol o effaith y Protocol Pontio ar gyfer Cyn-aelodau o'r Lluoedd a Anafwyd yn Ddifrifol. Mae hyn yn enwedig o bwysig oherwydd datblygwyd y protocol cyfredol i weithio gydag Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, a ddiddymwyd yn rhan o ddiwygio'r GIG. Mae angen i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adran Iechyd sicrhau nad yw'r cynnydd a wnaethpwyd yn datblygu'r protocol yn cael ei golli, a hynny ar draul ein personél a anafwyd.

Mae penodiad Prif Grwner, yn dilyn y penderfyniad hwyr ond calonogol gan y Llywodraeth i waredu'r swydd o'r Bil Cyrff Cyhoeddus, yn hynod o arwyddocaol a dylai fod o wir fudd tymor hir i deuluoedd y Lluoedd Arfog sydd mewn profedigaeth (Pennod 5).

Un peth sy'n peri gofid arbennig mewn perthynas â'r rheini sy'n gadael y Lluoedd yw'r ffordd y caiff personél Tramor a Chymanwlad y Lluoedd eu trin. Croesawn y cyhoeddiad y bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod y canllawiau newydd ar gael i swyddogion achos sy'n ystyried ceisiadau am ymgartrefu a dinasyddio i egluro, i'r swyddogion achos ac i'r ymgeiswyr, sut bydd gwasanaeth yn y Lluoedd yn effeithio ar gais (Pennod 6). Yng ngoleuni adroddiadau annifyr yn y cyfryngau am y ffordd y mae Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi trin nifer o bersonél Tramor a Chymanwlad y Lluoedd Arfog - sydd fel petai'n groes i egwyddor dim anfantais ac unrhyw gydnabyddiaeth o natur unigryw gwasanaeth yn y Lluoedd - credwn y dylai'r canllawiau gael eu cynhyrchu a'u lledaenu ar frys. Mae'n rhaid bod y sefyllfa gyfredol, lle gellir gwrthod ceisiadau am ymgartrefu a dinasyddio ar sail troseddau milwrol na fyddent yn achosi collfarn ym mywyd sifil, yn enghraifft o anfantais ac nid yw'n adlewyrchu'n dda ar y DU. Dylai achosion cyfredol gael eu datrys o leiaf yn unol ag egwyddorion y Cyfamod cyn gynted â phosibl.

Mae diwygio lles yn effeithio'n uniongyrchol ar gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog (Pennod 7), nid y rhai hŷn yn unig ond hefyd y rheini a fu mewn gwrthdaro diweddarach a mwy parhaus. Croesawn

felly hepgor o'r asesiad ariannol am Gredyd Cynhwysol iawndal a dalwyd o dan y Cynllun Pensiynau Rhyfel a Chynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog a hepgor Taliadau Incwm Gwarantedig o'r asesiad ariannol am ofal cymdeithasol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol. Croesawn hefyd y cyhoeddiad na fydd gofyn i bersonél a anafwyd yn ddifrifol gael profion am Daliadau Annibyniaeth Bersonol. Fodd bynnag, pryderwn rywfaint na fydd pob awdurdod lleol yn parhau i ddiystyru taliadau iawndal milwrol wrth godi Treth Gyngor.

Mwyfwy, ar lefel llywodraeth leol y teimlir buddion egwyddorion y Cyfamod fwyaf. Croesawn nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol (dros 200 adeg ysgrifennu) a gobeithiwn yn fawr iawn y bydd y gweddill wedi llofnodi erbyn Diwrnod Lluoedd Arfog 2013 ac y bydd y llofnodwyr presennol yn cyhoeddi mesurau pellach yn rhan o'u Cyfamodau Cymunedol y flwyddyn nesaf hefyd. Fel y dengys Canllaw Arfer Gorau'r Lleng i Gyfamodau Cymunedol (a gyhoeddwyd yn ystod Hydref 2012), ceir eisoes lu o arferion da.

Yn y pen draw, yn yr un modd â datblygiadau ar bob lefel o lywodraeth, yr her fydd datblygu a chynnwys arfer gorau er mwyn i egwyddorion y Cyfamod ddod yn rhan annatod o ddiwylliant a darpariaeth gwasanaethau, nid mewn awdurdodau lleol yn unig, ond yn y pen draw, ar draws yr holl wasanaethau statudol ac anstatudol.

Yn olaf, er nad ydynt yn perthyn i gylch gorchwyl yr adroddiad hwn, hoffem gyfeirio'n gyflym at ddau fater cysylltiedig â chyflogaeth a fydd yn dylanwadu ar y ffordd y barnir bod y llywodraeth yn rhoi ymrwymiadau ei chyfamod ar waith. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r Model Cyflogaeth Newydd. Er bod llawer i'w wneud o hyd, rhaid llongyfarch y Weinyddiaeth Amddiffyn am fod mor barod i gael golwg sylfaenol ar bob agwedd ar gyflogaeth yn y lluoedd arfog. Mae hwn yn ymrwymiad pwysig, ond hwyr ers tro, sy'n elfen hanfodol o gyflenwi'r gallu gweithredol a'r strwythur sydd wedi'u cynllunio i'r lluoedd arfog.

Mae'r gostyngiadau a gynlluniwyd ym maint y lluoedd rheolaidd wedi arwain yn anochel at ddiswyddiadau gorfodol ac mae llawer o rai pellach i'w cyhoeddi. Mae rhai personél wedi colli eu swyddi ddiwrnodau cyn y byddent wedi gallu hawlio pensiynau uniongyrchol yn rhinwedd hyd eu gwasanaeth. Yn ddealladwy, mae hyn wedi denu cyhoeddusrwydd negyddol ac arwain at ymdeimlad o fradychu naws Cyfamod y Lluoedd Arfog, er nad y rheini yw'r union dermau efallai, ymhlith y rheini yr effeithiwyd arnynt. Rydym yn cydnabod mor anodd yw cynllunio proses ddewis sy'n osgoi unrhyw feirniadaeth ond dylai'r llywodraeth archwilio'n ofalus sut y gall osgoi ailadrodd amgylchiadau felly mewn cylchoedd diswyddo yn y dyfodol. Gall wneud hyn, er enghraifft, drwy esgusodi unrhyw un sydd o fewn (dyweder) 12 mis o allu hawlio pensiwn uniongyrchol a hefyd adolygu sut y gall adfer hawliau pensiwn i'r rheini a anfanteisiwyd hyd yma.

Edrychwn ymlaen at weld ein pryderon yn cael sylw a gwneud cynnydd pellach yn y flwyddyn i ddod.

# 1 PERSONÉL Y LLUOEDD ARFOG



## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

Mae personél y Lluoedd Arfog yn rhoi heibio rhywfaint o'r rhyddid y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei gymryd yn ganiataol, gan eu peryglu eu hunain ar ein rhan, ond hefyd gan gyfyngu ar eu dewisiadau pob dydd fel ble maen nhw'n gweithio a phryd maen nhw'n cymryd eu gwyliau. Flwyddyn yn ôl, cydnabuom mai'r pryder allweddol i bersonél y Lluoedd oedd y cynnig ariannol a'r cynnig heb fod yn ariannol, a ddylai fod yn enillion teg am yr ymrwymiad a fynnwn ganddynt. Roedd effeithiau rhewi cyflogau, newidiadau mewn lwfansau a diwygio Cynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog am yr eildro mewn deng mlynedd yn dal i achosi pryder ar adeg pan mae galw mawr ar y Lluoedd Arfog o hyd. Rydym wedi dweud yn flaenorol y byddai gwahanol ffrydiau rhaglen y Model Cyflogaeth Newydd - gan gynnwys cynlluniau i edrych ar ddarparu llety - yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Amddiffyn yn ystod hydref 2012.

Ymhlith yr effeithiau eraill a nodwyd mae anfantais o ran rheoli cyllid personol, er enghraifft cael at gynhyrchion masnachol fel benthyciadau; cynnal sgôr credyd tra byddant yng nghyfeiriadau Swyddfa Bost Lluoedd Prydain; a chymhwyso atebolrwydd i dalu trethi'n deg. Amlygom hefyd yr adolygiad sy'n cael ei wneud o broses gwyno'r Lluoedd ac, mewn perthynas â chydnabyddiaeth, yr adolygiad o'r rheolau sy'n llywodraethu dull dyfarnu medalau'r Lluoedd.

# Yr hyn a wnaethom i leihau anfantais a rhoi ystyriaeth arbennig fel sy'n briodol

O ran y cynnig ariannol a'r cynnig heb fod yn ariannol, rydym wedi cadw cynyddrannau cyflog i bersonél y Lluoedd Arfog drwy gydol y cyfnod o rewi cyflogau'r sector cyhoeddus. Ym mis Mawrth 2011, roedd yr adroddiad terfynol gan Gomisiwn Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus Annibynnol Arglwydd Hutton yn argymell diwygio cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y Lluoedd Arfog. Ym mis Mawrth 2012, lansiodd y Weinyddiaeth Amddiffyn ymarfer ymgynghori er mwyn ystyried barn personél y Lluoedd a buddgyfranogwyr eraill wrth sefydlu Cynllun Pensiynau Lluoedd Arfog newydd, i'w gyflwyno o fis Ebrill 2015. Mae llawer o'r newidiadau yng Nghynllun Pensiynau cyfredol y Lluoedd Arfog yn adlewyrchu argymhellion Arglwydd Hutton, a weithredwyd ar draws yr holl gynlluniau Gwasanaeth Cyhoeddus. Er bod boddhad ar fudd-daliadau pensiwn ymhlith personél ar wasanaeth wedi gostwng 10% o'i gymharu â'r llynedd, o 50% i 40% yn fodlon, rydym wedi ceisio sicrhau nad yw'r newidiadau'n effeithio'n anghymesur ar bersonél y Lluoedd ac rydym wedi sicrhau rhai manteision pwysig wrth gynllunio'r cynllun newydd. Mae hawliau cronedig i fuddion a enillir dan y cynlluniau cyfredol wedi'u gwarchod a'u cysylltu'n bwysig â chyflog terfynol wrth ymadael, nid â'r pwynt pontio i'r cynllun newydd. Gosodwyd yr oedran pensiwn arferol ar gyfer y Gwasanaethau lifrog yn 60 (o leiaf pum mlynedd yn llai na'r gwasanaethau cyhoeddus eraill heb lifrai); cadwyd y taliad ymadael cynnar; bydd y pensiwn yn dal i fod yn bensiwn anghyfrannol; a chytunwyd ar gyfradd cronni pensiwn haelach. O ganlyniad, bydd y cynllun pensiwn newydd yn dal i gydnabod a gwobrwyo ymrwymiad unigryw holl bersonél y Lluoedd drwy barhau ymhlith y gorau sydd ar gael.

Aethom hefyd ymlaen â gwaith ar y **Model Cyflogaeth Newydd** sydd, fel menter allweddol yn cefnogi personél y Lluoedd, yn cael sylw mewn adran ar wahân ar ddiwedd y bennod hon.

O ran **llety**, gwnaethpwyd rhywfaint o gynnydd yn gwella cyflwr Llety Teulu'r Lluoedd (trowch at bennod pedwar) a Llety Byw Sengl. Cyflwynodd rhaglen moderneiddio Llety Byw Sengl 4,600 o leoedd gwely wedi'u moderneiddio (ystafelloedd sengl a chanddynt gyfleusterau en-suite) yn 2011-12 ac, er nad oes cyllid wedi'i sicrhau eto mewn blynyddoedd diweddarach, rydym yn dal ar y trywydd cywir i gyrraedd targed Strategaeth Rheoli Llety Amddiffyn sef 50% o bersonél hyfforddedig mewn cartrefi o'r safon orau erbyn mis Mawrth 2013. Er ein bod yn gwybod bod rhagor i'w wneud, mae'n galonogol bod lefelau boddhad ar safon gyffredinol llety'r Lluoedd wedi cynyddu ers 2007, o 48% i 56%.

**Llety Byw Sengl (SLA)**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn berchen ar ryw 145,000 o leoedd gwely Llety Byw Sengl, ac mae 126,000 ohonynt yn y DU a 19,000 ohonynt dramor (fel ym mis Mawrth 2012).

**Cyflwr Ffisegol y Llety Byw Sengl (fel ar 1 Ebrill 12)**

| | Safon 1 Cyflwr a Maint | Safon 2 Cyflwr a Maint | Safon 3 Cyflwr a Maint | Safon 4 Cyflwr a Maint |
|---|---|---|---|---|
| **Y DU** | 31% | 13% | 19% | 37% |
| **Tramor** | 18% | 8% | 10% | 64% |
| **Cyfanswm** | 29% | 13% | 18% | 40% |

**Llety Sengl Amgen y Lluoedd (SSSA) (fel ar 1 Medi 12)**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhentu 3,625 eiddo o Lety Sengl Amgen y Lluoedd ar brydles sy'n cartrefu 5,176 o bersonél y Lluoedd. Darperir y cartrefi hyn pan nad oes Llety Byw Sengl ar gael.

Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr wedi gosod aelodau o'r Lluoedd Arfog ar frig y rhestr flaenoriaeth ar gyfer yr holl gynlluniau perchentyaeth a ariennir gan y Llywodraeth ac mae swyddogion wedi ymweld ag unedau i helpu personél y Lluoedd sydd am brynu eu cartref eu hunain. Yn yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn dal i gynnig blaenoriaeth i gael at ei Chynllun Ecwiti a Rennir y Farchnad Agored, Cynllun Ecwiti a Rennir Cyflenwad Newydd a'r Cynllun Ecwiti a Rennir gyda datblygwyr Cyflenwad Newydd.



**Gosodir aelodau o'r Lluoedd Arfog ar frig y rhestr flaenoriaeth ar gyfer cynllun FirstBuy £500m y Llywodraeth. Mae Prif Gogydd HMS Ledbury, Graeme Murdoch, wedi defnyddio'r cynllun i brynu ei le ei hun yn Bootle gyda'i wraig Gemma, ar ôl iddynt briodi'n gynharach eleni. Mae Graeme, sy'n 28, yn treulio chwe mis o'r flwyddyn i ffwrdd ar daith gyda'r Llynges. Croesawodd ef a Gemma rywun newydd i'r teulu eleni hefyd, sef Caiden bach.**

"Fe fuon ni'n ystyried prynu ein lle ein hunain am ychydig flynyddoedd, a ninnau wedi cael llond bol ar rentu'n breifat, a doedd byw yn Portsmouth ddim yn gweddu i ni o gwbl. Roedden ni'n gwybod ein bod am fyw'n agos at y teulu ac, yn ddelfrydol, byddem yn cael cartref newydd sbon. Clywais am HomesHub drwy gylchgrawn yn y gwaith, ac mae wedi'n helpu i gael at Firstbuy.

Aethom i weld dau safle yn yr ardal ond syrthio mewn cariad â'n tŷ ni, a chawsom dipyn o fargen gyda chegin wedi'i huwchraddio a charpedi am ddim. Mae Gemma'n galw *The Little Duchess* ar ein cartref!

Mae'r Llynges yn wir yn hyrwyddo perchentyaeth ac rwy'n credu ei bod yn wych bod y cynlluniau hyn ar gael i helpu pobl fel fi a fy nheulu. Rwyf wedi bod yn sôn am y cynllun wrth yr holl longwyr yn ôl ar y llong. Roedd y broses mor syml a hawdd – symudom cyn pen deufis o weld yr eiddo. Rydym yn arbed ar filiau nwy a thrydan yn barod am fod y tŷ wedi'i insiwleiddio cystal."

**Gemma**: "Mae gen i gylch hyfryd o ffrindiau yn Bootle, rydyn i gyd yn gweithio yn yr un dafarn ac mae gennym blant ifanc felly byddwn i gyd yn cynnig help llaw ac yn helpu i ofalu am ein plant ein gilydd. Mae'n gymorth da tra bydd Graeme ar y môr."

O ran **cyllid personol**, rydym wedi gweithio gyda'r sector ariannol i ddatblygu canllawiau i bersonél y Lleoedd ar gael at fenthyciadau diogel (morgeisi) a diwarant (contractau ffôn symudol, cyllid moduron, cardiau credyd). Cyhoeddwyd y rhain ym mis Ionawr 2012 ynghyd ag ymrwymiad gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r diwydiant gwasanaethau ariannol i hybu ymwybyddiaeth ymhlith eu haelodau am natur unigryw bywyd yn y Lluoedd Arfog i osgoi rhoi personél y Lluoedd Arfog o dan anfantais. Gan weithio gyda'r Post Brenhinol, cyflwynasom 'godau post cysgodol' ym mis Mawrth 2012 er mwyn i bersonél y Lluoedd a'u teuluoedd gael yr un cyfleoedd siopa a gwasanaethau ar-lein, a goresgyn anawsterau cyfeirnod credyd sy'n codi oherwydd diffyg cyfeiriad post adnabyddadwy yn y DU. Hefyd, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cymryd camau i wella ymwybyddiaeth ariannol ymhlith personél y Lluoedd, gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ariannol i hyfforddeion. Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol (RBL), mewn partneriaeth â Chronfa Les yr Awyrlu Brenhinol, Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth Gogledd Iwerddon, wedi darparu Gwasanaeth Cynghori ar Fudd-daliadau ac Arian, ac mae'r Lleng yn barnu bod hwn wedi rhoi £70 miliwn yn ôl i bocedi pobl drwy gynyddu budd-daliadau, dileu dyledion a chael grantiau. Rydym wedi gweithio hefyd gyda'r Lleng ac Ymddiriedolaeth Elusennol Standard Life i ddatblygu hyfforddiant gallu ariannol ar y we. Bwriedir i'r wefan fynd yn fyw yn 2013.

Rydym hefyd wedi ystyried sefyllfa unigryw personél y Lluoedd mewn perthynas â **threthiant.** Ym mis Gorffennaf 2012, ysgrifennodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am bolisïau treth gyngor yn Lloegr, at yr holl awdurdodau lleol yn Lloegr i hybu ymwybyddiaeth am y taliadau y mae personél y Lluoedd Arfog yn eu gwneud yn lle treth gyngor tra byddant yn byw yn llety'r Lluoedd er mwyn i awdurdodau lleol ystyried hyn wrth wneud penderfyniad ar geisiadau am ddisgownt treth gyngor ar ail gartrefi. Yng Nghymru, daeth rheoliadau i rym sy'n sicrhau bod awdurdodau bilio yng Nghymru'n rhoi disgownt o 50% ar dreth gyngor ar ail gartrefi sy'n eiddo i bersonél y Lluoedd sy'n byw mewn llety a ddarperir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Gall personél y Lluoedd sy'n byddino ar ymgyrchoedd tramor fel yn Affganistan hefyd hawlio Gostyngiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y Dreth Gyngor tra byddant i ffwrdd. Yn effeithiol o 1 Ebrill 2012, dyblodd y Llywodraeth y taliad hwn i ryw £600 am fyddiniad cyfartalog o chwe mis. Yn olaf, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) wedi gweithio gyda Chydffederasiwn Elusennau'r Lluoedd (COBSEO) a Chymdeithas Teuluoedd y Milwyr, y Llongwyr a'r Awyrennwyr (SSAFA) i ddatblygu deunydd gwybodaeth am gyflwyno cosbau newydd am ffeilio hwyr a thaliad hwyr am beidio â bodloni terfynau amser treth Hunanasesiad. Cytunodd HMRC i gategori newydd o "esgus rhesymol" yn benodol i bersonél y Lluoedd sydd ar wasanaeth gweithgar dramor. Mae hyn yn golygu bod modd canslo cosbau lle bydd y categori newydd o esgus rhesymol i bersonél y Lluoedd yn berthnasol.

**Roedd un aelod o'r Lluoedd Arfog yn falch iawn pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru ostyngiad yn y dreth gyngor i bersonél y Lluoedd yng Nghymru. Mae ef a'i deulu'n berchen ar gartref yng Ngorllewin Cymru, ond mae bod yn rhan o Gymuned y Lluoedd Arfog yn golygu symud o gwmpas felly mae'r eiddo'n wag am ran fwyaf y flwyddyn.**

"Mae'r gostyngiad yn y Dreth Gyngor yng Nghymru wedi bod yn amhrisiadwy – mae'n werth tua £1,000 bob blwyddyn i ni. Prynodd fy nheulu a minnau'r tŷ yno achos rydym am ymgartrefu yno pan fyddaf wedi ymddeol, ond oherwydd fy swydd rydym yn symud o gwmpas felly dydyn ni ddim yn byw yno. Dyw'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddim yn gallu datrys y rhan fwyaf o'r problemau sy'n wynebu'r Lluoedd Arfog ar ei phen ei hun, ac mae hwn yn enghraifft o lywodraeth, gan gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig, yn cydweithio i ddwyn canlyniad i bobl y Lluoedd.

Mae'n gwneud synnwyr i bawb dan sylw – efallai bod y cyngor wedi colli hanner ein trethi, ond dydyn ni ddim yn cynhyrchu gwerth 52 wythnos o sbwriel y flwyddyn. A phan fyddwn yno, byddwn yn gwario arian yno, a phan fyddwn yn ymgartrefu yno yn y dyfodol byddwn yn gwario ein pensiynau yno!

Mae polisïau traws-lywodraethol fel y rhain yn bendant yn helpu morâl yn y Lluoedd Arfog. Mae cael 'diolch' am ein gwaith yn braf, ond mae'n ddiwerth os na chawn ni fesurau pendant hefyd."

Mae nifer y personél sy'n fodlon ar faint o amser y mae'n ei gymryd i ddatrys cwyn yn y Lluoedd wedi cynyddu 15%. Mae'r adolygiad o broses **gwyno'r Lluoedd**, a gyhoeddodd ei adroddiad ym mis Mehefin 2012, wedi'n galluogi i weld a ydy cynllun y system yn cynorthwyo neu'n rhwystro'r broses o drin cwynion yn deg ac effeithiol; sut mae'r cadwyn awdurdod yn gweithredu'r broses; a nodi meysydd i'w gwella. Nodir manylion y newidiadau sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r adolygiad yn ddiweddarach yn y bennod hon.

O ran **cydnabyddiaeth**, ym mis Mai 2012, cafodd Syr John Holmes, uwch ddiplomydd blaenorol, ei benodi gan y Prif Weinidog i wneud adolygiad o'r rheolau sy'n berthnasol i ddyfarnu medalau'r Lluoedd Arfog. Cwblhaodd Syr John adolygiad cychwynnol, gan ddod i'r casgliad nad oedd dim rheswm da dros newid y dull sylfaenol a oedd yn sail i'n polisi: y dylid rhoi medalau'n gynnil ar sail gwir risg a chaledi. Fodd bynnag, teimlai Syr John fod lle am fwy o dryloywder a hyblygrwydd wrth gymhwyso'r rheolau. Wrth gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad ym mis Gorffennaf, croesawodd y Prif Weinidog yr adroddiad a dywedodd ei fod wedi gofyn i Syr John arwain ail gyfnod a gwneud argymhellion pellach. Mae'r ail gyfnod hwn wedi dechrau bellach ac mae'n cynnwys ystyried ymhellach y prif ddadleuon maith am fedalau, ar sail y meini prawf a nodwyd yn yr adolygiad cynharach. Disgwylir canlyniadau'r ail gyfnod hwn cyn diwedd y flwyddyn.

Hefyd o ran cydnabyddiaeth, mae nifer o brosiectau Cyfamod Cymunedol yn canolbwyntio ar egluro stori bywyd yn y Lluoedd i'r gymuned leol. Mae un enghraifft yng Ngogledd Swydd Efrog, lle mae grant o £26,000 yn ariannu prosiect arloesol i adrodd hanes Garsiwn Catterick drwy lygaid, clustiau a chegau'r bobl sydd wedi byw a gweithio yno, gan gynnwys aelodau presennol o gymuned y Lluoedd Arfog.




# Lle mae effeithiau gwasanaeth yn dal i osod personél y Lluoedd dan anfantais neu lle mae gofyn ystyriaeth arbennig bellach

Mae materion tegwch a hyblygrwydd yn y **cynnig ariannol a'r cynnig heb fod yn ariannol** yn dal i beri gofid i bersonél y Lluoedd Arfog. Yn ôl Arolwg Agwedd Parhaus y Lluoedd Arfog, mae'r boddhad ar gyflog sylfaenol ar ei isaf mewn pedair blynedd (o 50% yn 2009 i 40% yn 2012) ac mae nifer y bobl sy'n ystyried bod yr elfen 'X ffactor' o'u cyflog yn ddigon o iawndal am ofynion ffordd o fyw'r Lluoedd heb newid, sef tua 28%. Yn ystod y cyfnod o rewi cyflogau'r sector cyhoeddus a'r blynyddoedd atal cyflogau yn 2013-14 a 2014-15, bydd Corff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog yn cadw rôl sylfaenol, annibynnol i sicrhau bod y pecyn cyflog i bersonél y Lluoedd yn ddigon i recriwtio a chadw'r bobl gywir. Disgwyliwn i Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog barhau i gynghori'r Llywodraeth am amrywiaeth o faterion tâl mewn perthynas â'r Lluoedd Arfog. Mae'r cyfraniad yn dal i gael ei werthfawrogi'n fawr gan y Llywodraeth, y Weinyddiaeth Amddiffyn, personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

Mae **llety** yn dal i boeni personél y Lluoedd Arfog ac mae darparu llety o safon, sy'n fforddiadwy ac mewn man addas, yn rhan o'r driniaeth deg y dylai personél y Lluoedd Arfog ei disgwyl o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog. Yn ogystal ag ymdrechu i wella'r ddarpariaeth gyhoeddus o lety wedi'i gymorthdalu, rydym hefyd yn ceisio annog perchentyaeth. Yn rhan o hyn, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystyried disodli'r Benthyciad Gwasanaeth Hir, sy'n helpu personél y Lluoedd i brynu eu heiddo eu hunain. Ni chadarnhawyd eto union fanylion y cynllun newydd wedi'i wella'n sylweddol na sut y bydd yn cael ei gyflawni.

Yng Nghyllideb 2012, cyhoeddodd y Canghellor £100M o fuddsoddiad ychwanegol yn llety'r Lluoedd rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014. Bydd tua £40M o hyn yn cael ei wario ar adeiladu tua 600 o ystafelloedd Llety Byw Sengl newydd. Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn lliniaru'r saib tair blynedd o fis Ebrill 2013 yn rhaglen moderneiddio'r Llety Byw Sengl, a cheisiwn o hyd felly gael cyllid ychwanegol a gwneud gwelliannau lle maent yn fforddiadwy. O ran Llety Byw Sengl, ein nod fu cael 70% o bersonél hyfforddedig yn y safon uchaf o lety a 30% yn yr ail safon uchaf, gyda'r holl hyfforddeion wedi'u lletya yn y radd orau, erbyn 2020. Fodd bynnag, mae'r uchelgais hwn yn dibynnu ar gyllid ac nid yw wedi'i ariannu ar hyn o bryd. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn felly wedi comisiynu gwaith i sefydlu system rheoli gwybodaeth bendant ar gyfer Llety Byw Sengl, a fydd yn cael ei defnyddio o'r flwyddyn nesaf i ddarparu gwybodaeth allweddol am gyflwr yr ystâd a llywio penderfyniadau buddsoddi allweddol yn seiliedig ar ofyniad cadarn y dyfodol.

Byddwn yn dal i weithio i fynd i'r afael â phryderon mewn perthynas â'r **cymorth a roddir i unigolion ar secondiad** sy'n ymfyddino ar ymgyrchoedd heb eu rhiant-uned.

O ran y **disgownt yn y dreth gyngor** ar gyfer eiddo preifat gwag sy'n eiddo i bersonél y Lluoedd Arfog sy'n byw yn llety'r Lluoedd (boed yn y DU neu dramor), mae adroddiadau wedi parhau am awdurdodau lleol yn methu â chynnig disgownt. Hwyrach ei bod yn rhy fuan i weld effaith llythyr yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2012. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd hyn drwy bartneriaethau Cyfamod Cymunedol.

Mae un mater arall sy'n deillio o natur symudol bywyd y Lluoedd yn berthnasol i rai costau addysg. Yn draddodiadol, bu'r Lluoedd Arfog yn gwsmeriaid pwysig i'r Brifysgol Agored, gan fanteisio ar ddysgu o bell ond, ers mis Medi 2012, mae newidiadau yng nghyllid y Llywodraeth wedi golygu bod personél y Lluoedd sy'n byw yn Lloegr ac sy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored a sefydliadau addysg uwch eraill wedi wynebu ffioedd dysgu uwch o'u cymharu â phersonél sy'n byw yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n astudio'r un cwrs gyda'r Brifysgol Agored. Er mwyn lleihau'r anfantais hon, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio gyda'r Brifysgol Agored i archwilio'r ffordd y gellir goresgyn gwahaniaethau prisio rhanbarthol ar gyfer y cyrsiau mwyaf poblogaidd ymhlith personél y Lluoedd Arfog.

Daeth yr **adolygiad o broses gwyno'r Lluoedd** i'r casgliad bod y gwelliannau cynyddrannol diweddar yn dechrau dwyn ffrwyth, ond bod angen gwneud mwy i leihau oedi gormodol, a chanfuwyd mai tri phrif ffactor sy'n effeithio fwyaf ar berfformiad, sef galw ac adnoddau (nifer y cwynion yn y system a digonolrwydd ac effeithlonrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ymateb iddynt); oedi (ei achosion, ac a ydynt yn ffrwyth y system neu'n ffrwyth gweithredu neu ddiffyg gweithredu unigolion); ac apeliadau (y diffyg cyfyngu ar yr hyn y gellir ei apelio drosto a nifer y lefelau sydd ar gael). Cytunwyd ar gamau i fynd i'r afael â'r pethau hyn, gan roi gwybod am gynnydd yn hyn o beth i Gomisiynydd Cwynion y Lluoedd (SCC) mewn pryd i lywio ei adroddiad blynyddol nesaf tua dechrau 2013. Ar yr un pryd, daeth yr adolygiad i'r casgliad fod mwy o fudd i'w gael i wella prydlondeb a mynd i'r afael ag oedi gormodol os caiff Comisiynydd Cwynion y Lluoedd ei gynnwys tra bydd cwynion yn fyw o hyd yn hytrach na throi'r swydd honno'n ombwdsmon sy'n gweithredu ar ôl y digwyddiad. Bydd ffordd newydd o weithio gyda'r Comisiynydd yn cael ei gweithredu o fis Ionawr 2013, gyda'r nod o roi gwell syniad i'r Comisiynydd o achosion oedi gormodol ac effeithiolrwydd y Lluoedd yn monitro achosion, a'n galluogi ni i gael tystiolaeth i ddysgu gwersi.

Rydym yn dal yn ymwybodol o beryglon camddefnyddio **alcohol**. Mae polisïau a chanllawiau ar ymdrin ag yfed gormod o alcohol yn cynnwys gwahanol weithdrefnau gweinyddol, disgyblaethol a gofal iechyd, yn ogystal â mesurau ymarferol y mae swyddogion rheoli'n dymuno eu mabwysiadu i'w huned. Rydym hefyd yn gwneud ymchwil i ddeall pa mor effeithiol yw'n polisi ar yfed alcohol, a beth yn rhagor sydd angen ei wneud i hyrwyddo yfed cyfrifol. Mae'r Lluoedd yn ceisio cyflwyno

trefn newydd i brofi am alcohol a chyffuriau o dan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2011 ar gyfer personél y Lluoedd sy'n cyflawni dyletswyddau lle mae diogelwch yn holl bwysig yn ystod eu cyflogaeth. Bydd y newidiadau hyn yn ategu'r ataliaeth gyfredol a roir gan brofion ar hap o dan Brofion Cyffuriau Gorfodol, a bwriadwn eu rhoi ar waith yn 2013. Gyda'i gilydd bydd y camau hyn yn gwella gallu'r Lluoedd i atal a darganfod achosion o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau, ac yn cryfhau ein hymrwymiad i hyrwyddo ymwybyddiaeth am y risgiau dan sylw.

## Y Model Cyflogaeth Newydd

Bwriad y Model Cyflogaeth Newydd (NEM) yw bodloni anghenion y Lluoedd Arfog yn well heddiw ac yfory. Mae'r Model yn arwydd o ymrwymiad y Llywodraeth i foderneiddio ei chynnig i bersonél, wrth gynnal ethos a gallu sylfaenol ein Lluoedd Arfog. Bydd yn cael ei gynllunio i fodloni disgwyliadau cenhedlaeth sydd heb eto ymuno, ond rhaid ei gyflwyno mewn modd sy'n dal i gefnogi a chymell personél cyfredol y Lluoedd. Bydd yn angenrheidiol yn rhaglen o newid cynyddol, tymor hir. Bydd yn ein helpu i ddefnyddio adnoddau wedi'u cynllunio yn y modd gorau posibl i bersonél y Lluoedd, ond nid ymarfer arbed mohono.

Dylai'r Model Cyflogaeth Newydd weithredu newidiadau sydd:

yn rhoi cynnig i bersonél y Lluoedd Rheolaidd sy'n cynyddu eu dewis personol, sy'n lleihau effaith bywyd y Lluoedd ar eu teuluoedd ac sy'n cefnogi cyflogaeth eu partneriaid;

- yn galluogi'r gwahanol Luoedd i weithredu dulliau rheoli staff mwy effeithiol, mewn fframwaith cyffredin sy'n cefnogi penderfyniadau dirprwyedig;
- yn darparu amodau gwasanaeth sy'n adlewyrchu mwy o wahaniaethu rhwng personél y Lluoedd o ran profiad a gallu;
- yn golygu bod modd cyd-redeg telerau ac amodau'r Lluoedd Rheolaidd a'r Lluoedd Wrth Gefn yn llawer agosach, er mwyn sylweddoli cysyniad y 'Llu Cyfan'; ac
- yn cyflenwi strategaeth llety gydlynol, gyfannol sydd:
    - yn cefnogi dewisiadau ffordd o fyw dilys;
    - yn cynyddu lefelau perchentyaeth;
    - yn gwella safonau a dewis llety'r Lluoedd; ac
    - yn deg ac yn ddeniadol i'n pobl.

O dan gyfnod nesaf y Model Cyflogaeth Newydd, bydd gwaith dwys yn cael ei wneud yn y meysydd canlynol:

- Cyfnod asesu'r dewisiadau cyflog a fydd yn cefnogi'r Model orau. Mae'r gwaith hyd yma wedi nodi buddion posibl system gyflogau, a fydd yn rhoi mwy o wahaniaethu mewn cyflogau ar sail gwybodaeth, sgiliau a phrofiad, gydag ychydig llai o bwyslais ar reng a hynafedd. Mae angen deall yn well y costau, y risgiau, a'r newid diwylliannol sy'n gysylltiedig â dull felly, ac ni ddiystyrwyd eto ddiwygiadau amgen, llai radical i'r system gyflogau. Bydd Corff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog yn cael gwybodaeth lawn wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, a bydd unrhyw gynigion i ddiwygio tâl yn destun adolygiad ac argymhellion y corff hwnnw.

- Datblygu dewisiadau i gynyddu cymorth yn sylweddol ar gyfer perchentyaeth ac i wella safonau llety domestig. Bydd yr ail beth yn agos gysylltiedig â'r penderfyniadau y bydd y Llywodraeth yn eu gwneud ar ôl troed lleoli'r Lluoedd Arfog yn y dyfodol.

- Cynllunio a phrofi strwythur lwfansau llawer symlach, a allai gwtogi ymhellach ar gostau 'cefn swyddfa' gweinyddu personél.

- Cynllunio a gweithredu fframwaith cyflogaeth newydd yn fanwl, gan adlewyrchu cyfnodau gyrfa a haenau pendant cysylltiedig â rheng. Bydd hyn yn sail i'r Lluoedd unigol bennu strwythurau cyflogi sy'n addas i'w hanghenion ac sy'n cyd-fynd â strwythur cynllun pensiwn newydd y Lluoedd Arfog a'i elfen o dâl ymadael cynnar.

- Cynllunio rhaglen cymorth gyrfa a datblygiad gydol oes i bersonél y Lluoedd, sy'n estyn y tu hwnt i'r Lluoedd Rheolaidd. Gallai hyn gynnwys rhaglen datblygiad personol wedi'i theilwra i'r holl bersonél sy'n ategu eu datblygiad proffesiynol; pecyn ailsefydlu sy'n ystyried angen unigolion yn well yn ogystal â'r amser a wasanaethwyd; gwasanaeth galluogi i bersonél lifo rhwng cyflogaeth yn y Lluoedd Rheolaidd neu'r Lluoedd Wrth Gefn; a gwell cymorth ar gyfer cyfnodau pontio gyrfa i gyflogaeth gynaliadwy i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog.

Dylai cynllun y Model Cyflogaeth Newydd a diffiniad o'r dewisiadau allweddol ar gyflog a llety fod yn ddigon aeddfed er mwyn ymgynghori ar y cynigion yn ystod yr haf nesaf. Yn y cyfamser, byddwn yn rhoi gwybodaeth briodol am y datblygiadau i randdeiliaid allweddol, ac i'r personél eu hunain. O ystyried ei bwysigrwydd a'i berthnasedd, mae hwn yn bwnc y disgwyliwn ei adolygu mewn adroddiadau blynyddol am Gyfamod y Lluoedd Arfog dros y blynyddoedd i ddod.

## Ymrwymiadau Adroddiad 2012

Bydd gwaith a wneir ar y cyd â'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac Ymddiriedolaeth Elusennol Standard Life i ddatblygu hyfforddiant gallu ariannol ar y we yn arwain at greu gwefan, a bwriedir i honno fynd yn fyw yn 2013.

*Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sefydlu system gwybodaeth rheoli Llety Byw Sengl i ddarparu gwybodaeth allweddol am gyflwr yr ystâd a llywio penderfyniadau buddsoddi allweddol.*

Bydd ffordd newydd o weithio gyda Chomisiynydd Cwynion y Lluoedd yn cael ei gweithredu o fis Ionawr 2013, gyda'r nod o roi gwell syniad i'r Comisiynydd o achosion oedi gormodol ac effeithiolrwydd y Lluoedd yn monitro achosion.

*O dan Ddeddf Lluoedd Arfog 2011, mae'r Lluoedd yn ceisio cyflwyno yn 2013 drefn newydd i brofi am alcohol a chyffuriau ar gyfer personél y Lluoedd sy'n gwneud tasgau lle mae diogelwch yn holl bwysig yn ystod eu cyflogaeth.*

# 2 Y LLUOEDD WRTH GEFN




## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

Roedd argymhellion o adolygiad Lluoedd Wrth Gefn y Dyfodol 2020 yn rhagweld y byddai'r Lluoedd Wrth Gefn yn cael mwy o rôl ac yn cael eu cyfuno'n fwy â'r Lluoedd Arfog Rheolaidd. Cydnabu'r adolygiad gyfraniad rhyfeddol ein Lluoedd Wrth Gefn at ymgyrchoedd ac roedd yn nodi cynlluniau cynnar i weithredu'r mesurau amrywiol mewn dau gam, gyda'r cam cyntaf yn cynnwys gwaith i sefydlogi cyflwr y Lluoedd Wrth Gefn, ei adnewyddu a'i wella'n sylweddol.

Rydym wedi nodi'n flaenorol fod angen gwneud mwy i unigolion ar secondiad, sy'n aml yn rhai wrth gefn, yn enwedig pan ddychwelant oddi ar fyddiniad gyda ffocws ar eu hiechyd meddwl, a dywedasom y byddem yn ystyried byrhau'r amser ar gyfer ymgartrefu i bersonél Tramor a Chymanwlad sydd wedi'u byddino'n rhai wrth gefn.

## Yr hyn a wnaethom i leihau anfantais a rhoi ystyriaeth arbennig fel sy'n briodol

Ar ôl cyhoeddi **adolygiad Lluoedd Wrth Gefn y Dyfodol 2020**, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dechrau gwaith gydag adrannau Llywodraeth eraill ar gam cyntaf Rhaglen Weithredu Lluoedd Wrth Gefn y Dyfodol, gan ddechrau gyda thelerau ac amodau gwasanaeth, cymorth i gyflogwyr a deddfwriaeth. Un enghraifft benodol oedd bod hawl aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn i Lwfans Ceisio Gwaith yn dod i ben pan fyddant yn mynychu 15 diwrnod o hyfforddiant parhaus blynyddol

gan nad ydynt ar gael i'w cyflogi yn ystod y cyfnod hwnnw a gallai eu henillion fod yn fwy na'u hawl i fudd-daliadau. Gellid cymryd nifer o wythnosau weithiau i adfer yr hawl, gan effeithio ar hawl i fudd-daliadau fel y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor. I ddileu'r anfantais hon, cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fesurau arbennig ym mis Gorffennaf 2012 yn galluogi aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn i gadw hawl i Lwfans Ceisio Gwaith ar agor hyd at 15 diwrnod heb orfod dechrau cais newydd ar ddychwelyd. Mae'r aelodau wrth gefn wedi croesawu'r mesurau hyn.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi gwneud newidiadau er mwyn i aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn a fyddinwyd yn y tair blynedd ddiwethaf gael at y Rhaglen Waith ar ôl iddynt fod yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith am dri mis o leiaf. Caniateir iddynt gael at y rhaglen fel arfer ar ôl naw mis o hawlio Lwfans Ceisio Gwaith i bobl rhwng 18 a 24 sy'n chwilio am waith; ac ar ôl 12 mis i'r rheini sy'n 25 oed ac yn hŷn.

O ran cymorth i **iechyd meddwl** aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn, bu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dal i geisio gwella'r gofal. Sefydlwyd Rhaglen Iechyd Meddwl Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog ac Aelodau o'r Lluoedd Arfog Wrth Gefn yn Chilwell yn Swydd Nottingham, am fod y Rhaglen Asesu Meddygol wedi symud i ymuno â Rhaglen Iechyd Meddwl Aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn. Bydd yr adleoli'n sicrhau bod safonau uchel o oruchwylio clinigol yn cael eu cynnal. Mae nifer yr aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn sy'n defnyddio'r rhaglen wedi aros yn gymharol sefydlog, tua 40 y flwyddyn. Rydym hefyd wedi gweithredu newidiadau o ganlyniad i adolygiad y Fyddin o reoli straen ôl-ymgyrchol i aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn, gan gynnwys mwy o wybodaeth am gymorth i deuluoedd a chreu DVD croeso'n ôl.

O ran materion iechyd ehangach, mae'r Adrannau Iechyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedi cymryd camau i hybu ymwybyddiaeth am anghenion aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn ymhlith meddygon teulu. Yn Lloegr, mae'r Adran Iechyd, gan weithio gyda Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu, wedi cyflwyno pecyn e-ddysgu i feddygon teulu sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar anghenion iechyd y Lluoedd Arfog (gan gynnwys yr aelodau wrth gefn). Yn yr Alban, cyhoeddwyd taflen i feddygfeydd teulu am hawliau GIG i bersonél y Lluoedd Arfog, yr aelodau wrth gefn a'r cyn-aelodau; ac ychwanegwyd tudalen gyda dolenni i Raglen Iechyd Meddwl Aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn at wefan NHS Inform. Tra byddant wedi byddino, bydd anghenion gofal iechyd yr aelodau wrth gefn yn dal i gael eu bodloni wrth reswm gan y Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn.

Mae rhai mesurau a anelwyd at rannau eraill o Gymuned y Lluoedd Arfog wedi cynnwys cyfeiriadau penodol at aelodau wrth gefn. Er enghraifft, mae newidiadau yn rheoliadau tai'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn sicrhau nad yw aelodau wrth gefn anabl a rhai wedi'u hanafu'n ddifrifol yn cael eu diarddel o restri aros am dai cymdeithasol oherwydd diffyg cysylltiad lleol, a bod y rheini y mae angen tŷ ar frys arnynt bob amser yn cael 'rhagor o flaenoriaeth' (blaenoriaeth uchel) am dai cymdeithasol. Daeth y rheoliadau 'cymhwyso' i rym ym mis Awst 2012 a gosodwyd y rheoliadau blaenoriaeth ychwanegol yn y Senedd ym mis Hydref 2012.

Mae'r Llywodraeth ei hun yn awyddus i fod ar flaen y gad fel cyflogwr rhagorol i bersonél wrth gefn ac mae Pennaeth y Gwasanaeth Sifil wedi cytuno ag adrannau llywodraeth ganolog i ddarparu ymagwedd well a chyson at bersonél wrth gefn yn y Gwasanaeth Sifil. Mae Polisi Cyflogeion y Gwasanaeth Sifil wedi gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddatblygu polisi arfer gorau canolog i gefnogi cyflogeion wrth gefn ym mhob adran, a lansiwyd hwn ar 30 Tachwedd 2012. Mae'r polisi'n nodi'r prosesau a'r cyfrifoldebau cyn y cyfnodau hyfforddi ac ymfyddino, yn ystod y cyfnodau hynny ac ar eu holau, sy'n cynnwys rhoi mwy o wyliau arbennig â thâl i gefnogi personél wrth gefn i fodloni eu hymrwymiadau hyfforddi ac mae'n darparu gwasanaeth parhaus yn ystod ymfyddino.

Mae'r Cyfamod Cymunedol hefyd o fudd i aelodau o'r Lluoedd Arfog Wrth Gefn. Yn Nyfnaint, er enghraifft, mae'r Cyngor Sir wedi nodi staff sy'n aelodau wrth gefn ac wedi sefydlu grŵp staff i gynrychioli barn ac anghenion yr aelodau wrth gefn sydd hefyd yn gyflogeion i Gyngor Sir Dyfnaint. Maent yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu haelodau wrth gefn drwy eu gwahodd i wisgo eu lifrai i'r gwaith ac felly chwalu rhwystrau a chynyddu dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar ein personél wrth gefn.

# Lle mae effeithiau gwasanaeth yn dal i osod personél y Lluoedd dan anfantais neu lle mae gofyn ystyriaeth arbennig bellach

Fel yr eglurwyd uchod, mae gweithredu Rhaglen Lluoedd Wrth Gefn y Dyfodol, gan ddechrau ag adolygiad trwyadl o delerau ac amodau gwasanaeth, gan gynnwys materion cysylltiedig ag iechyd a lles yr aelodau wrth gefn, wedi'n galluogi eisoes i nodi'r anfanteision sy'n wynebu aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn yn benodol a mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, mae rhagor i'w wneud i ymgysylltu â chyflogwyr y sector cyhoeddus, preifat ac elusennol er mwyn i anghenion aelodau wrth gefn posibl a phresennol gael eu deall, eu parchu a'u cydbwyso â gofynion y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gynnwys Cyfamod y Lluoedd Arfog. Dechreuodd cyfnod ymgynghori ffurfiol ar 7 Tachwedd 2012 pan gyhoeddwyd Papur Gwyrdd, a fydd yn ein galluogi i gasglu adborth am ein dull datblygol. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, bydd Papur Gwyn sy'n nodi'r ffordd ymlaen yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2013.

Mae iechyd meddwl aelodau wrth gefn yn dal yn faes lle hoffem wneud mwy. Mae'r camau nesaf pwysig yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth am Raglen Iechyd Meddwl y Cyn-aelodau ac Aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn ymhlith meddygon teulu'r GIG a phennu a ellir estyn mynediad i aelodau wrth gefn a fyddinodd cyn mis Ionawr 2003. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwneud ychydig o waith i ganfod a oes angen cynyddu neu wella'r ymwybyddiaeth ymhlith systemau meddygol y Lluoedd a'r byd sifil, cadlywyddion a'r aelodau wrth gefn eu hunain am lefel bresennol y ddarpariaeth. Disgwylir y bydd casgliadau hwn ar gael tua dechrau 2013. Byddwn yn dal i chwilio am ffyrdd y gall y GIG, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Gweinyddiaethau Datganoledig gydweithio â sefydliadau fel Combat Stress i sicrhau bod y Lluoedd Wrth Gefn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, yn enwedig wrth inni weithio drwy oblygiadau Rhaglen Lluoedd Wrth Gefn y Dyfodol. Mae aelodau wrth gefn yn dal yn gydran allweddol o garfan y Lluoedd sy'n cael ei hastudio gan Ganolfan y Brenin ar gyfer Ymchwil Iechyd Milwrol, ac rydym yn ystyried canolbwyntio ar faterion iechyd aelodau wrth gefn – yn ogystal â chymorth cymdeithasol ac ailsefydlu ôl-ymgyrchol – yng nghyfnod nesaf yr ymchwil.

Nid yw'r trefniadau gofal iechyd galwedigaethol ar gyfer aelodau wrth gefn yn gyson ledled y DU o ran eu darparu, eu cost a'u llywodraethu. Mae trefniadau newydd yn cael eu gwneud felly'n effeithiol o fis Mawrth 2013 i aelodau o Lu Wrth Gefn y Llynges Frenhinol, y Môr-filwyr Brenhinol Wrth Gefn a'r Fyddin Diriogaethol gael safon gyffredin o ofal iechyd galwedigaethol, gydag unedau'n cael at archwiliadau meddygol cyflogaeth a byrddau meddygol ymhlith pethau eraill. Bydd aelodau o'r Awyrlu Brenhinol Atodol yn cael asesiadau iechyd galwedigaethol gan Ganolfannau Meddygol cyswllt yr Awyrlu Brenhinol. Wrth reswm, ni fydd y trefniadau newydd yn newid y ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol a fydd, i'r aelodau wrth gefn heb ymfyddino, yn parhau gyda'r GIG.

Y llynedd, cofnodom fod y Swyddfa Gartref ac Asiantaeth Ffiniau'r DU yn ystyried byrhau amser y siwrnai i ymgartrefu i aelodau wrth gefn sy'n ymfyddino. Ni fu'n bosibl gwneud cynnydd yn y maes hwn mor gyflym ag y dymunwyd gennym ond rydym yn bwriadu mynd i'r afael â hyn drwy gyfrif yr amser a dreuliwyd gan aelodau wrth gefn ar ymfyddiniad ymgyrchol, sydd ar lwybr i ymgartrefu, tuag at y cyfnod prawf o bum mlynedd.

# Ymrwymiadau Adroddiad 2012

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyhoeddi Papur Gwyn yn ystod gwanwyn 2013 yn nodi ei chynigion manwl ar gyfer y Lluoedd Wrth Gefn yn y dyfodol.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dechrau adolygiad o faterion iechyd meddwl y Lluoedd Wrth Gefn er mwyn nodi ffyrdd o'u hadfer yn well ar ôl dadfyddino. Disgwyliwn i ganlyniad yr adolygiad hwn fod ar gael yn ystod gwanwyn 2013.

Mae trefniadau newydd yn cael eu gwneud yn ystod 2013/14 i aelodau o Lu Wrth Gefn y Llynges Frenhinol, y Môr-filwyr Brenhinol Wrth Gefn a'r Fyddin Diriogaethol gael safon gyffredin o ofal iechyd galwedigaethol.

# 3 PERSONÉL CLWYFEDIG, ANAFEDIG, A SÂL




## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

Dywedasom y llynedd ein bod wedi gofyn i'r Comisiwn Ansawdd Gofal annibynnol wneud adolygiad o waith y Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn yn y DU a thramor. Yn gyffredinol, roedd boddhad ar y driniaeth feddygol a deintyddol a ddarperir gan y Lluoedd yn uchel. Roedd y prif feysydd gwaith yn cynnwys gweithredu'r amrywiaeth o fentrau iechyd meddwl a argymhellwyd gan Dr Murrison[2], yn arbennig integreiddio asesiadau iechyd meddwl mewn archwiliadau meddygol arferol; sicrhau bod y rhai sy'n dioddef anffrwythlondeb o ganlyniad i anafiadau ar wasanaeth yn gallu cael tri chylch o driniaeth IVF a bod y rheini sydd wedi colli aelodau yn gallu cael aelodau prosthetig newydd o'r un safon â'r rheini a ddarperir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn; a sicrhau bod gwaith agos gyda phedair adran Iechyd y DU yn dal i hwyluso Llwybr Gwellhad y Weinyddiaeth Amddiffyn a chyfnod pontio llyfn i bersonél clwyfedig, anafedig a sâl i ofal y GIG ar yr adeg briodol.

Yr hyn a wnaethom i leihau anfantais a rhoi ystyriaeth arbennig fel sy'n briodol

Mae'r Cyfamod yn nodi bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i'r rheini a roddodd fwyaf fel yr anafedig ac roedd nifer o'r mesurau a gyflwynwyd eleni mewn ymateb i'r egwyddor hon.

Cwblhaodd y **Comisiwn Ansawdd Gofal** ei adolygiad o'r Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn ym

2. Cyhoeddwyd adroddiad Dr Andrew Murrison AS "Fighting Fit: A Mental Health Plan For Servicemen And Veterans" ar 31 Awst 2010

mis Mehefin 2012. Cydnabu'r Comisiwn ansawdd uchel y gwasanaeth a ddarperir, gan amlygu'r rheolaeth ragorol ar drawma yn Ysbyty Camp Bastion yn Affganistan ac adsefydlu cleifion, yn rhanbarthol ac yn Headley Court. Mae Arolwg Agwedd Parhaus y Lluoedd Arfog yn adlewyrchu hyn, gyda 79% o bersonél y Lluoedd yn dweud eu bod yn fodlon ar eu gallu i gael at ofal a niferoedd tebyg yn fodlon ar y cyfleusterau a'r ffordd y cawsant eu trin.

Mewn ymateb i adroddiad Dr Murrison am **iechyd meddwl** personél ar wasanaeth a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog, gwnaethom hefyd welliannau sylweddol ac mae llawer o barch ymhlith personél y Lluoedd at y ddarpariaeth gofal iechyd meddwl. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adran Iechyd yn Lloegr wedi gweithio i gynnwys asesiad iechyd meddwl strwythuredig yn rhan arferol o asesiadau meddygol; ac wedi ariannu The Big White Wall, sef gwasanaeth ymyrraeth gynnar ar-lein sy'n cyfuno egwyddorion rhwydweithio cymdeithasol ag ymyriadau a lywir yn glinigol yn rhad ac am ddim i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog. Fel ym mis Medi, mae ychydig mwy na 2,500 o aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog wedi ymuno â The Big White Wall. Mae'r Adran Iechyd yn Lloegr wedi estyn ei chyllid i Combat Stress a llinell gymorth iechyd meddwl 24 awr Rethink i bersonél y Lluoedd, eu teuluoedd a chyn-aelodau tan fis Mawrth 2013. Gellir defnyddio'r llinell gymorth o unrhyw le yn y byd. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn ymgymryd â nifer o fentrau cysylltiedig ond ar wahân i wella gofal iechyd meddwl i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn yr Alban. Yn rhan o'i waith i Luoedd Prydain yn yr Almaen, mae SSAFA wedi darparu nifer o nyrsys seiciatrig cymunedol, sy'n gysylltiedig â gwahanol unedau ac sy'n gweithio gyda'r gadwyn awdurdod ac unigolion.

Un enghraifft benodol o ystyriaeth arbennig, yn Lloegr, yw bod yr Adran Iechyd wedi gwneud trefniadau i bersonél sydd wedi dioddef anafiadau difrifol i'w horganau cenhedlu, ac sy'n cael iawndal, hawlio hyd at dri chylch o **driniaeth IVF**. Cyhoeddwyd cyngor i bersonél y Lluoedd hefyd ar ddefnyddio gwasanaethau masnachol i storio samplau sberm cyn byddino ar ymgyrchoedd. Ymrwymodd Gweinidogion yr Alban hefyd i ddarparu hyd at dri chylch a sefydlu amser aros mwyaf o 12 mis am driniaeth IVF erbyn diwedd Senedd gyfredol yr Alban. Hefyd yn yr Alban, bydd y defnydd estynedig o fynegrifau iechyd cymunedol i ddynodi cleifion yn galluogi personél cymwys y Lluoedd Arfog i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio iechyd, fel y rheini ar gyfer canser y fron a chanser y coluddyn. Yng Nghymru, mae'r holl gleifion sy'n bodloni'r meini prawf mynediad eisoes yn gallu hawlio dau gylch o IVF ac mae Gweinidogion Cymru'n adolygu'r ddarpariaeth yng ngoleuni'r trefniadau mewn mannau eraill. Mae SSAFA Forces Help, fel asiantaeth fabwysiadu gofrestredig, yn rhoi cymorth i barau yn y Lluoedd Arfog nad allant gael eu plant eu hunain.

Aethom ymlaen ag argymhellion Dr Murrison y dylai'r GIG wneud mwy i sicrhau bod cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi colli coes neu fraich yn cael safon debyg o **aelodau prosthetig** a gofal prostheteg i'r rheini sy'n dal ar wasanaeth. Mae'r Adran Iechyd yn Lloegr wedi rhyddhau £4M yn effeithiol o fis Ebrill 2012 i ariannu aelodau prosthetig i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn ystod y flwyddyn hon, tra bydd cynlluniau am ganolfannau arbenigol yn cael eu datblygu. Dyrannwyd £11M pellach dros weddill yr Adolygiad o Wariant cyfredol i barhau'r gwasanaeth hwn. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi cymryd camau i sicrhau y gall cyn-aelodau anafedig gael yr aelodau prosthetig diweddaraf sydd o'r un safon â'r rhai a roir gan y Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn. Sefydlwyd gweithgorau yng Nghymru a'r Alban i bennu'r ffordd orau o sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. .

Rydym wedi dal i ddatblygu'r **Fenter Amddiffyn i Alluogi Gwellhad**, sef y broses lle bydd aelod clwyfedig, anafedig neu sâl o'r Lluoedd Arfog naill ai'n dychwelyd i ddyletswydd lawn neu'n symud i fywyd sifil a hynny gan aflonyddu cyn lleied â phosibl arno. Ers y cysyniad gwreiddiol, mae'r raddfa wedi cynyddu gyda chymorth gan ein partneriaid elusennol, y Lleng Brydeinig Frenhinol a Help for Heroes. Disgwylir cyflawni gallu gweithredu llawn erbyn Ebrill 2013. Mae gan y tri Gwasanaeth drefniadau ar waith ac, ar hyn o bryd, mae tua 1,000 o bersonél yn symud drwy'r system, a bydd gofyn cymorth penodol neu arbennig ar 500 ohonynt. Gyda'n gilydd rydym wedi

gwella'r cyfleusterau yn HMS Drake i ddarparu bloc llety i 60 o bobl a champfa o'r radd flaenaf, gan gynnwys pwll hydrotherapi. Ers mis Medi 2010, mae 337 o bersonél y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol wedi'u dychwelyd i ddyletswydd ac mae 436 wedi pontio i fywyd sifil. Yn yr un modd, mae'r Fyddin wedi sefydlu pum Canolfan Gwella Personél yn Tidworth, Colchester, Caeredin, Catterick a Sennelager i gynnig cyfleusterau preswyl i'r personél clwyfedig, anafedig a sâl hynny sy'n ceisio gwella o bob rhan o'r Lluoedd Arfog, yn ogystal â darparu cyfleusterau i gleifion sy'n dod yn ystod y dydd. Ers mis Rhagfyr 2010, mae 254 o bersonél y Fyddin wedi'u dychwelyd i ddyletswydd ac mae 317 wedi pontio i fywyd sifil. Ers mis Ionawr 2011, mae Menter Galluogi Gwellhad yr Awyrlu Brenhinol wedi cefnogi 17 o'i bersonél i ddychwelyd i ddyletswydd a 26 i bontio i fywyd sifil.



**Collodd y Gwarchodfilwr Dave Watson, o Fataliwn 1af Gwarchodlu'r Alban, ei ddau goes a'i fraich dde mewn ffrwydrad tra oedd ar wasanaeth yn Affganistan. Un o egwyddorion allweddol Cyfamod y Lluoedd Arfog yw sicrhau, pan fo'n briodol, fod aelodau'r Lluoedd Arfog yn cael triniaeth arbennig. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ariannu rhannau hanfodol o dai wedi'u haddasu i bersonél a anafwyd yn ystod gwasanaeth a hynny fesul achos, yn ôl eu hanghenion. Mae'n dechrau ag asesiad therapydd galwedigaethol ac yna ceir cyfarfodydd safle â'r unigolyn dan sylw a chynrychiolwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Gwasanaeth sy'n troi'r argymhellion wedyn yn gynnig dylunio. Ariannwyd nodweddion anhanfodol fel yr ystafell wydr yn breifat. Cafodd Dave yr allweddi i'w gartref newydd wedi'i addasu yn Preston, Swydd Gaerhirfryn, yn gynharach eleni.**

"Bu'n anodd iawn addasu i fywyd, ond bu'n rhaid imi wneud hynny. Mae'r staff yn Headley Court yn eich dysgu sut i wneud popeth; hebddyn nhw, buasai'n llawer caletach.

Y byngalo tair ystafell wely oedd y mwyaf yn yr ardal, gydag ychydig o dir ynghlwm wrtho, gan olygu y gallwn wneud beth bynnag y mynnwn ag ef. Felly cefais estyniad, ystafell wlyb, rwyf wedi lledu rhai o'r drysau er mwyn imi ddefnyddio'r gadair olwyn, ac mae cefn y tŷ wedi'i agor allan i gegin ac ardal fwyta. Rwyf hefyd wedi ychwanegu ystafell wydr ac mae gennyf lawer o dir o hyd felly rwy'n cynllunio patio a phwll carpiaid – rwyf wrth fy modd yn pysgota.

Bydd yn newid fy ffordd o fyw. Yn fy hen dŷ teras, doedd dim lle imi gerdded o gwmpas; roedd rhaid imi lusgo fy hun o gwmpas a defnyddio lifft grisiau. Gan fy mod yma'n awr, byddaf yn cerdded o gwmpas bob dydd. Mae'n bwysig imi oherwydd bydd yn fy nghael ar fy nghoesau [artiffisial] yn amlach.

Bydd yn wych cael fy lle fy hun. Yn ôl yn fy hen dŷ, byddwn yn mynd allan gyda fy ffrindiau a byddwn yn dod adre'n hwyr ac yn gorfod dihuno mam a dad i agor y drws. Yma, gallaf fynd a dod pryd bynnag y mynnaf, bydd yn fy ngwneud i'n fwy annibynnol."

Mae'n bwysig nodi bod y Fenter Amddiffyn i Alluogi Gwellhad ar gyfer yr holl bobl glwyfedig, anafedig a sâl, beth bynnag yr achos. Ar hyn o bryd, defnyddir tua 25% o'i gallu gan y rheini a anafwyd ar ymgyrchoedd yn Affganistan neu Irac. Mae lluniad y Fenter Amddiffyn i Alluogi Gwellhad yn ymrwymiad parhaol i bawb sy'n gwasanaethu ac mae'n sail i elfen bwysig o Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Ym mis Hydref 2011, lansiodd SSAFA brosiect peilot i fentora 42 o bobl glwyfedig, anafedig a sâl a oedd yn gadael y Lluoedd wrth iddynt bontio i fywyd sifil. Bydd y garfan fechan hon yn golygu bod modd gwerthuso a datblygu'r gwasanaeth mentora yn allanol ac yn fanwl, cyn ei gyflwyno fesul dipyn, fel y rhagwelir, ym mis Ebrill 2013. Mae SSAFA wedi dewis a hyfforddi 49 o wirfoddolwyr a bydd pob un yn rhoi o leiaf awr o'i amser

bob wythnos, a mwy os bydd angen, i fentora rhywun neilltuedig sy'n gadael y Lluoedd, a hynny am flwyddyn o leiaf.  Os bydd y peilot yn llwyddo, gellid mentora mwy i gefnogi nifer sylweddol o bersonél clwyfedig, anafedig neu sâl y Lluoedd Arfog yn y dyfodol.

Mae SSAFA hefyd yn cynnal grŵp cymorth i deuluoedd personél anafedig.  Mae rhyw 200 o deuluoedd wedi ymuno â'r grŵp hwn. Mae grwpiau eraill yn sefydlu i gefnogi brodyr a chwiorydd, gan ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc o wahanol oedrannau, i'w galluogi i ymgysylltu â'i gilydd a rhannu gofidion emosiynol.

Ym mis Medi 2012, agorodd Eu Huchelderau Brenhinol Tywysog Cymru a Duges Cernyw Ganolfan Ailsefydlu'r Jiwbilî a ariannwyd gan Lywodraeth y DU am £17M yng Nghanolfan Ailsefydlu Meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Headley Court.  Mae'r ganolfan newydd yn cynnwys ward â 48 o welyau ac adeilad therapi ar wa hân.

## Lle mae effeithiau gwasanaeth yn dal i osod personél y Lluoedd dan anfantais neu lle mae gofyn ystyriaeth arbennig bellach

Yn rhan o'i adolygiad, argymhellodd y Comisiwn Ansawdd Gofal gyfres o welliannau, yn bennaf i seilwaith y canolfannau meddygol a deintyddol, a'r broses ar gyfer diogelu cleifion sy'n agored i niwed.  Derbynia'r Weinyddiaeth Amddiffyn holl argymhellion y Comisiwn ac mae'n eu gweithredu'n llawn.   Er bod y mwyafrif wedi cael sylw bellach, bydd yn cymryd mwy o amser i wneud gwelliannau seilwaith.  Cynllunnir y rhain drwy gyfuniad o ailwampio a chodi adeiladau newydd.

Hefyd, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu sefydlu Gwasanaeth Gofal Iechyd Sylfaenol Amddiffyn unedig er mwyn: disodli tri sefydliad sengl y Lluoedd a gwella gofal cleifion drwy wneud polisïau a'u cyfeirio mewn modd mwy trefnus; lleihau costau drwy ddileu dyblygu a defnyddio adnoddau mewn modd mwy effeithlon; a sicrhau cysylltiadau mwy effeithiol â'r GIG.  Bwriedir cael sefydliad dros dro yn ei le o fis Ebrill 2013. Bydd y sefydliad newydd yn gweithredu'n llawn o fis Ebrill 2014.

Dengys tystiolaeth fod cyffredinrwydd problemau iechyd meddwl ymhlith personél ar wasanaeth wedi parhau'n sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, ond rydym ymhell o fod yn fodlon ac rydym wedi ymrwymo i wneud popeth y gallwn.  Rydym eisoes wedi cymryd nifer o gamau i wella iechyd meddwl yn y Lluoedd Arfog, ac rydym yn archwilio ffyrdd o ddatblygu'r cymorth a ddarperir ymhellach, gan gynnwys defnyddio goruchwyliaeth iechyd barhaus ac offeryn sgrinio ôl-ymgyrchol.  Hefyd, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymateb i unrhyw dystiolaeth o broblemau yn y dyfodol ac yn sicrhau bod unrhyw fesurau newydd yn briodol ac yn fuddiol i unigolion ac i'r Lluoedd Arfog i gyd.

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y bydd £5M yn cael ei wario ar welliannau yng Nghanolfan Adsefydlu Meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Headley Court, gan gynnwys ailwampio wardiau a llety.  Bydd y buddsoddiad yn ailwampio rhan o Uned Peter Long; yn cynnwys wardiau ac ystafell ddydd; yn gwella'r lle'n sylweddol yng ngheginau'r Ystafell Fwyta Gyfunol ac Ystafell Fwyta'r Swyddogion; yn uwchraddio'r Llety Byw Sengl; ac yn gosod carpedi a systemau gwresogi newydd.

Mae Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfamod y Lluoedd Arfog wedi gofyn i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ynghyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a buddgyfranogwyr eraill, ystyried a oes diffyg yn y ddarpariaeth hyfforddiant galwedigaethol arbenigol i'r rheini ag anafiadau i'w hymennydd a chanfod a ydy lefel y ddarpariaeth yn ddigon da yn y maes pwysig hwn.

Rydym yn pryderu hefyd nad yw teuluoedd y clwyfedig, yr anafedig a'r sâl bob amser yn gwybod sut gallant gael at y gofal seibiant a ddarperir gan eu hawdurdod lleol.  Trafodwyd y mater hwn gan Is-bwyllgor y Cabinet.

Mae'r Bil Gofal a Chymorth drafft, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012, yn darparu dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i fodloni anghenion cymwys gofalwyr am gymorth, gan eu rhoi ar yr un lefel â'r bobl sy'n cael eu gofal. Datganolwyd cyllid gofal cymdeithasol i awdurdodau lleol, ac mae cytundebau partneriaeth Cyfamod Cymunedol a Rhwydweithiau Lluoedd Arfog presennol yn gallu gwneud llawer i hybu ymwybyddiaeth. O ganlyniad i drafod gyda'r Ffederasiynau Teuluoedd, cefnogwn fod angen astudiaeth o'r cymorth i'r profedigaethus a theuluoedd y rheini a anafwyd. Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio cael cyllid am astudiaeth felly.

Yn Lloegr o fis Ebrill y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweld ateb tymor hwy ar gyfer darparu aelodau prosthetig yn cael ei gyflwyno fesul dipyn, a fydd yn cynnwys rhwydwaith o ganolfannau adsefydlu a phrostheteg amlddisgyblaethol, fel yr argymhellwyd yn adroddiad Dr Murrison. Yn yr Alban, sefydlwyd gweithgor i ystyried y dull mwyaf priodol o fodloni'r argymhelliad am ganolfan brostheteg amlddisgyblaethol i fodloni anghenion cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog ledled y wlad a sicrhau gofal cynaliadwy o safon mor lleol â phosibl. Yng Nghymru, bydd canlyniad y gweithgor a sefydlwyd yn 2012 yn cael ei ddatblygu.

O fis Ebrill 2013 yn Lloegr, yn unol ag argymhellion Dr Murrison am brostheteg, bydd Bwrdd Comisiynu'r GIG yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb statudol am gomisiynu gofal iechyd arbenigol, gan gynnwys prostheteg. Bydd hefyd yn comisiynu gofal iechyd i aelodau cymwys o Gymuned y Lluoedd Arfog. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Adrannau Iechyd y DU yn dal i gydweithio - drwy Fwrdd Partneriaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Adrannau Iechyd y DU sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn - i sicrhau bod y trefniadau newydd yn cynnal y gofal eilaidd o'r radd flaenaf a ddarperir i bersonél sydd ar wasanaeth.

## Ymrwymiadau Adroddiad 2012

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn mynd ymlaen â gwaith i weithredu'r holl argymhellion yn adolygiad y Comisiwn Ansawdd Gofal o'r Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a buddgyfranogwyr eraill i adolygu'r gofyniad am hyfforddiant galwedigaethol arbenigol i'r rheini ag anafiadau ymennydd, ac i adolygu darpariaeth yr hyfforddiant hwnnw.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sefydlu Gwasanaeth Gofal Iechyd Sylfaenol Amddiffyn unedig, gyda'r sefydliad dros dro yn ei le o fis Ebrill 2013.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ceisio cael cyllid am astudiaeth o gymorth i'r profedigaethus ac i deuluoedd y rheini a anafwyd.

O fis Ebrill 2013, bydd yr Adran Iechyd yn canfod ateb tymor hwy i ddarparu aelodau prosthetig, gan gynnwys rhwydwaith o ganolfannau adsefydlu a phrostheteg amlddisgyblaethol, yn unol â'r argymhellion yn adroddiad Dr Murrison.

# 4 TEULUOEDD




## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

Y llynedd, cadarnhaom ein bod yn cymryd effeithiau'r Lluoedd Arfog ar ansawdd bywyd teuluoedd o ddifrif calon. Dywedasom fod cynnydd wedi'i wneud o ran ymateb i'r effeithiau hyn, ond bod rhagor i'w wneud yn arbennig i fynd i'r afael ag effaith symudedd ar blant y Lluoedd Arfog mewn meysydd fel gofal plant, addysg a gallu ysgolion i ymateb yn briodol i blant o Gymuned y Lluoedd Arfog. Un mater allweddol oedd gallu Cymuned symudol iawn y Lluoedd Arfog i gael at wasanaethau iechyd GIG cyson ledled pedair gweinyddiaeth y DU. Cydnabuom hefyd fod angen gwneud gwelliannau o ran darparu a chynnal a chadw llety i deuluoedd, mater allweddol ar gyfer morâl, yn ogystal â helpu teuluoedd i brynu eu tai eu hunain os mynnant.

Ymrwymom hefyd i weithio ar y materion sy'n atal gwŷr a gwragedd a phartneriaid personél y Lluoedd Arfog rhag cael swyddi; cyfathrebu'n well ar gredydau Yswiriant Gwladol; parhau i wella'r gwasanaeth a ddarperir i Gymuned y Lluoedd Arfog gan y Ganolfan Byd Gwaith; ac ystyried beth yn rhagor y gellid ei wneud i gefnogi teuluoedd Tramor a Chymanwlad yn fwy effeithiol.

## Yr hyn a wnaethom i leihau anfantais a rhoi ystyriaeth arbennig fel sy'n briodol

O ran mesurau i fynd i'r afael ag **effaith symudedd** ar blant, mae'r Adran Addysg wedi cyflwyno darpariaeth yn benodol i'r Cod Derbyn i Ysgolion newydd, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2012, i

alluogi ysgolion babanod yn Lloegr i drin plant personél Lluoedd Arfog y DU fel eithriad a ganiateir i'r rheoliadau maint dosbarth.  Golyga hyn y caiff ysgolion babanod dderbyn plant y Lluoedd Arfog a mynd uwchlaw'r maint dosbarth o 30, os teimlant fod ganddynt yr adnoddau i wneud hynny.  Mae'r Cod hefyd yn caniatáu hyblygrwydd lleol er mwyn i wahanol awdurdodau derbyn roi blaenoriaeth uwch i blant personél Lluoedd Arfog y DU yn eu meini prawf gordanysgrifio.  Yr awdurdodau derbyn sy'n penderfynu a fyddant yn mabwysiadu'r mesurau hyn ai peidio, gan ystyried yr amgylchiadau lleol.  Bydd angen i'r ysgol, ac unrhyw banel apeliadau, gydbwyso cais am le bob amser â'r adnoddau sydd ar gael ac felly nid yw effaith hyn ar deuluoedd y Lluoedd Arfog i'w gweld eto.

Yn ôl Cod Derbyn i Ysgolion Cymru, dylai awdurdodau derbyn ddyrannu lleoedd i blant y Lluoedd Arfog cyn bod blwyddyn ysgol yn agosau pan fydd dyddiadau dychwelyd yn cael eu datgan drwy lythyr swyddogol.  Mae'r Cod yn amodi bod rhaid ystyried anghenion plant teuluoedd y Lluoedd Arfog; bod rhaid i awdurdodau derbyn ddyrannu lle ymlaen llaw os bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf pan fydd y symud yn digwydd; a gwahodd cynrychiolydd o'r Lluoedd Arfog i ymuno â'r fforwm derbyn lleol mewn ardaloedd lle mae crynodiad sylweddol o bersonél y Lluoedd.  Mae gofyn hefyd i'r awdurdodau derbyn dderbyn cyfeiriad post uned am geisiadau gan bersonél y Lluoedd Arfog os na fydd cyfeiriad post cartref newydd ar gael iddynt.

Yn yr Alban, cyhoeddwyd tudalennau gwe sy'n cynnwys canllawiau i deuluoedd y Lluoedd Arfog ar addysg fylchog, pontio, lles ac anghenion cymorth ychwanegol yn gynharach eleni ar wefan Education Scotland.

Mae'r gronfa gymorth i ysgolion gwladol â phlant aelodau o'r Lluoedd Arfog i wneud darpariaethau arbennig i liniaru effeithiau ymfyddino a symudedd eithriadol wedi dyrannu £6M o grantiau bellach i 261 o ymgeiswyr ledled y DU.  Defnyddiwyd y gronfa mewn ffyrdd amrywiol, gan ei defnyddio'n well o ganlyniad i rannu arfer gorau presennol.  Er enghraifft, roedd £46K a roddwyd i Grŵp Ysgolion Cysylltiedig Forres yn darparu pecynnau croeso i deuluoedd newydd, gweithgareddau i blant dros y cyfnod symud i mewn a digwyddiad croesawu, gan nodi materion y gellid eu cywiro cyn iddynt fod yn broblem.  Datblygodd ysgol Eggbuckland Vale yn Plymouth grŵp mentora a chefnogi cymheiriaid yn ogystal â grŵp "Family Together" i helpu i hybu hunan-barch a datblygu ymdeimlad o gymuned a pherthyn. Yn sgil grant i Ysgol Gynradd Gymunedol Benson yr Awyrlu Brenhinol,  ailwampiwyd ystafell lle gellir darparu cymorth bugeiliol wedi'i dargedu.  Yn yr Alban, mae deddfwriaeth a'r Cod Ymarfer "Supporting Children's Learning" yn cydnabod y gall fod angen cymorth tymor byr neu dymor hir ychwanegol ar blant neu bobl ifanc, am amrywiaeth o resymau gan gynnwys os ydynt wedi cael dysgu bylchog.



**Y llynedd, enillodd Mrs Cording, y Pennaeth yn ysgol gynradd Eggbuckland Vale, gyllid gan Gronfa Gymorth Ysgolion Gwladol y Weinyddiaeth Amddiffyn i helpu plant y Lluoedd Arfog yn ei hysgol drwy brosiect cymunedol. Mae'r gwaith wedi tyfu a thyfu ac mae'r ysgol newydd gael ei hail gylch o gyllid i'w ddatblygu.**

"Mae tua 25% o'n hysgol yn blant y Lluoedd Arfog, ac er eu bod yn ystadegol ledled y DU yn cyflawni mwy'n academaidd na phlant eraill, nid yw hynny'n wir yn ein hysgol ni. Felly roeddem am feddwl am ffordd o roi'r gofal bugeiliol sydd ei angen arnynt ynghyd â'u helpu i gyflawni.

Rydym wedi gofyn felly i grŵp o blant y Lluoedd Arfog ym Mlwyddyn 6 i fod yn gyfrifol am drefnu digwyddiad cymunedol. Penderfynon nhw lwyfannu oriel gelf a (gydag ychydig o gymorth proffesiynol!) aethant i'r afael â chynllunio digwyddiad, gan gymryd rhan mewn gweithdai artistiaid, argraffu cardiau post i'w gwerthu a threfnu'r stondinau te a choffi. Bu pob un o 95 o blant y Lluoedd Arfog yn yr ysgol yn cymryd rhan ar y dydd, a chawsom bobl ifanc i mewn o'r ysgol uwchradd i fod yn fentoriaid cymheiriaid i'r rhai ieuengach. Mae'r digwyddiad hefyd wedi rhoi sgiliau trefnu iddynt a hybu eu sgiliau ysgrifennu a chreadigol. Ond mae hefyd wedi rhoi hunaniaeth iddynt yng nghymuned yr ysgol, ac wedi hybu eu proffil ymhlith y myfyrwyr eraill.

Y tro hwn, rydym yn dod â'r HIVEs lleol i mewn i weithio gyda phlant y Lluoedd Arfog sy'n agored i niwed yn yr ysgol sy'n cael trafferth oherwydd byddino eu rhiant, gan gyflwyno wyth wythnos o raglen adeiladu cadernid. Ar y diwedd, byddant yn gweithio gyda dylunwyr proffesiynol i ddatblygu cynnyrch fel gêm bwrdd i helpu plant eraill sydd â'r un problemau. Rydym hyd yn oed yn bwriadu marchnata'r dyluniad i gynhyrchu incwm a fydd yn cael ei fuddsoddi'n ôl yn y prosiect er mwyn inni barhau ag ef."

Hon hefyd fu ail flwyddyn Premiwm y Lluoedd a fydd yn 2012-13 o fudd i ychydig dros 52,000 o ddisgyblion. Darperir Premiwm y Lluoedd gan yr Adran Addysg i ysgolion yn Lloegr i roi cymorth ychwanegol - cymorth bugeiliol yn bennaf. Ar ôl ei osod yn wreiddiol ar £200, cynyddwyd Premiwm y Lluoedd i £250 yn 2012-13. Ar 8 Hydref 2012, cyhoeddodd yr Adran Addysg fod Premiwm y Lluoedd yn cael ei gynyddu ymhellach i £300 o 2013-14. Roedd y cyhoeddiad hefyd yn cynnwys estyn cymhwyster i blant personél y Lluoedd Arfog sydd wedi marw ar wasanaeth, yn ogystal â darpariaeth i sicrhau bod plant y Lluoedd yn dal i gymwys am Bremiwm y Lluoedd ar ôl i'w rhieni adael y Lluoedd Arfog, hyd at fwyafswm o chwe blynedd. Mae'r Adran Addysg wedi gweithio gyda Chyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc y Weinyddiaeth Amddiffyn a Gweithrediaeth Genedlaethol Rhwydwaith Plant y Lluoedd Arfog mewn Ysgolion Gwladol (SCISS) i nodi ffyrdd effeithiol o ddefnyddio cyllid Premiwm y Lluoedd yn ei flwyddyn gyntaf ar gyfradd o £200. Defnyddiwyd y premiwm mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys darparu asesiad a chynefino ychwanegol pan fydd plant y Lluoedd yn cyrraedd yr ysgol gyntaf; rhyddhau'r Swyddog Cymorth Bugeiliol i gefnogi plant a theuluoedd yn ystod ymfyddiniad a chymorth i ysgolion y mae angen hefyd iddynt fodloni anghenion un plentyn o'r Lluoedd Arfog. Mae arferion gorau am ddefnyddio Premiwm y Lluoedd wedi'u rhannu mewn cynadleddau ac maent ar gael ar wefan yr Adran Addysg.



**Yn ysgol Naphill & Walters Ash yn Swydd Buckingham, mae 50% o'r plant yn blant y Lluoedd Arfog. Defnyddiodd Mrs Gwynn, y pennaeth, arian Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog a gânt i helpu plant y Lluoedd sy'n cael trafferth yn ymgartrefu yn yr ysgol.**

"Yn Naphill, ein prif ofid i'n plant o'r Lluoedd yw ein bod yn bodloni eu hanghenion academaidd, ond y gallwn hefyd gefnogi'r disgyblion yn llwyr gyda'r ffactorau eraill y mae'n rhaid i lawer ohonynt ymdopi â hwy, fel symudedd a'u rhieni'n cael eu hanfon dramor. Credwn hefyd fod angen cymorth ychwanegol yn aml ar deuluoedd y Lluoedd Arfog am fod gan bob sir wahanol bolisïau a gweithdrefnau.

Penderfynasom ddefnyddio Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog i sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad yn cael proses gynefino briodol, sy'n sicrhau ei fod yn gwybod pethau fel rheolau'r ysgol a disgwyliadau a ble mae popeth (yn bwysicaf oll y toiledau!). Mae'r broses hon yn defnyddio Pasbort er mwyn iddynt sôn wrthym am eu hoff bethau a'u cas bethau a'u hysgolion blaenorol ac mae'n nodi'r pethau sy'n peri gofid iddynt. O'r cychwyn cyntaf, mae disgyblion newydd yn cael cymorth grŵp bach neu unigolyn i'w helpu i ymgartrefu. Os yw eu rhieni wedi'u byddino dramor, mae'r disgyblion yn cael amser allan o'r dosbarth i gysylltu â'u rhieni drwy *e-blueys*. Mae'r plant yn wir fwynhau'r amser hwn ac mae llawer o'u negeseuon yn hyfryd ac rwy'n gwybod bod y rhai sy'n eu cael yn eu gwerthfawrogi.

Mae gennym gymorth arbennig hefyd i'n plant o Nepal yn y Lluoedd Arfog. Dechreuodd ddisgybl o Nepal ym Mlwyddyn 2 ar ôl dod yn syth o Nepal. Roeddem eisoes yn cyflogi menyw ginio Nepalaidd, ond defnyddiom y Premiwm Disgybl i estyn ei horiau yn yr ysgol i gefnogi newydd-ddyfodiaid. Helpodd hi'r ysgol i asesu bod Nepaleg y disgybl hwn cynddrwg â'i Saesneg felly gallem nodi bod ei broblemau'n ehangach na'r rhwystr iaith yn unig. Yn ehangach, mae wedi helpu gyda chyfieithiadau i blant a gall hefyd egluro prosesau i rieni yn eu hiaith eu hunain."

Er mwyn helpu ysgolion Addysg Plant y Lluoedd Arfog (SCE) i fodloni anghenion plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) mewn ysgolion yn yr Almaen a Cyprus, mae'r Adran Addysg wedi cymryd camau i estyn yr hyfforddiant a roir i Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig i'r rheini sy'n gweithio yn yr ysgolion hyn. Ysgrifennodd SCE ar ysgolion tramor yn gofyn iddynt ddefnyddio'r dogfennau trosglwyddo AAA o fis Medi 2012 ymlaen. Bydd SCE a'r Adran Addysg yn adolygu pa mor dda y mae'r dogfennau trosglwyddo AAA wedi'u gweithredu gan yr holl ysgolion SCE a'r ysgolion a gynhelir dan sylw. Ar wahân i hynny, mae'r Adran Addysg wedi ymrwymo i ymgynghori â Chyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc y Weinyddiaeth Amddiffyn am ddrafftiau'r Bil Plant a Theuluoedd a'i ganllawiau cysylltiedig, yn enwedig mewn perthynas â'r adrannau ar faterion AAA.

Ar gyfer plant hŷn, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gweithio gydag adrannau eraill yn y Llywodraeth a'r Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc i wneud newidiadau yn y Cynllun Cymorth Preswyl, sy'n helpu gyda chostau llety dysgwyr 16 oed a throsodd y mae angen iddynt fyw oddi cartref am nad yw eu cwrs ar gael yn lleol. Yn flaenorol, roedd y cynllun yn gofyn bod pob ymgeisydd yn byw yn Lloegr am y tair blynedd cyn i'w cwrs ddechrau. Erbyn hyn, mae'r cynllun ar gael o dramor i bobl ifanc sydd â rhieni, priod neu bartner sifil sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog yn gwasanaethu y tu allan i'r DU. Mae llai o deuluoedd yn rhoi gwybod am broblemau o ganlyniad i orfod symud, gyda 9% o deuluoedd yn rhoi gwybod am broblemau'n cael at addysg bellach neu addysg uwch yn 2012 o'u cymharu ag 11% yn 2010.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cytuno i estyn benthyciadau ffioedd dysgu er mwyn i deuluoedd y Lluoedd a fyddai'n cael eu nodi fel arfer yn rhai sy'n byw yn yr Alban gael eu trin yr union yr un fath

â myfyrwyr sy'n byw yn yr Alban.  Yng Nghymru, mae'r rheoliadau a ddefnyddir i asesu cymhwyster myfyriwr am gymorth myfyrwyr (gan gynnwys ariannu ffioedd prifysgol) yn darparu ar gyfer trin plant aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd ar wasanaeth fel rhai sy'n byw fel arfer yng Nghymru.  Mae gofyn i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth y buasent fel arfer yn byw yng Nghymru heblaw bod y teulu wedi symud o ganlyniad i benodiad yn y Lluoedd.

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr wedi adolygu a chyhoeddi canlyniadau cyrhaeddiad addysg plant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion gwladol yn 2011.  Cadarnhaodd yr adroddiad hwn fod plant y Lluoedd yn dal i wneud yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda 63% (56% yn 2009) yn cyflawni pump neu ragor o raddau A* i C ar gyfer TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, o'u cymharu â 59% o blant nad ydynt o'r Lluoedd Arfog.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gweithio gyda'r Adran Iechyd yn Lloegr i sicrhau bod Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei hystyried yn niwygiadau'r GIG ac nad yw teuluoedd y Lluoedd dan anfantais o ran **cael at wasanaethau'r GIG**.  Yng Nghymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru adroddiad ym mis Mai 2012 i ddarparu gwasanaethau i bersonél ar wasanaeth, eu dibynyddion a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog.  Roedd yr adroddiad yn fras gefnogol, ond roedd yn gwneud nifer o argymhellion i ddarparu gwasanaethau'n well, a fydd yn cael eu symud ymlaen ar y cyd â byrddau iechyd lleol.

Mae SSAFA yn darparu nifer o Nyrsys Iechyd Meddwl ar gyfer plant a'r glasoed yn rhan o wasanaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n cael eu contractio yn yr Almaen a Cyprus.  Mae'r gwaith a wneir yn cynnwys rhaglenni rheoli risg ac asesu, rhaglenni triniaeth ac ymyrraeth therapiwtig i blant a phobl ifanc yng Nghymuned y Lluoedd Arfog sydd ar wasanaeth yn y mannau hynny.

O ran **Llety Teulu'r Lluoedd**, gwnaethpwyd newidiadau yn y broses ddyrannu gan gynnwys canoli dyraniadau yn y Ganolfan Gwasanaeth Dyrannu Tai (HASC) i safoni prosesau a gwella effeithlonrwydd cyffredinol; mwy o dryloywder a gwella'r system ar-lein er mwyn i bersonél y Lluoedd weld manylion o fath 'gwerthwr tai', cofrestru eu dewisiadau am lety sy'n cyd-fynd â'u hawl a phrosesu eu cais yn electronig; a chyflwyno swyddfeydd rhanbarthol fesul dipyn sy'n darparu cymorth i gwsmeriaid. Er nad yw'r gwasanaeth ateb ffôn gwreiddiol a ddarparwyd gan HASC yn ystod y cyfnod pontio wedi cyrraedd y safon dderbyniol o bell ffordd, gan nad oedd gennym ddewis ond lleihau oriau agor y ffôn er mwyn i staff flaenoriaethu'r dasg allweddol o ddyrannu llety i deuluoedd, roedd cyflwyno'r trefniadau hunanddewis wedi galluogi HASC i wella'i berfformiad yn sylweddol yn y maes hwn. Mae'r system hunanddewis yn gweithredu bellach yn llwyddiannus, ac mae adborth gan deuluoedd y Lluoedd am HASC wedi bod yn fwy cadarnhaol.  Dyma lwyfan ar gyfer gwella ymhellach lefel y cymorth a roir i deuluoedd y Lluoedd Arfog.  Byddwn yn dal i fonitro'r system yn agos i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Gwnaethpwyd cynnydd hefyd o ran ansawdd y tai a ddarperir i deuluoedd y Lluoedd Arfog yn y DU, gyda 94% bellach yn y ddwy frig o bedair safon.  Nid yw tai yn y ddwy safon is wedi'u dyrannu i deuluoedd y Lluoedd Arfog yn y DU ers mis Ionawr 2012.  Yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12, gwariwyd tua £60M yn uwchraddio 714 o gartrefi teulu'r Lluoedd i'r safon orau, gyda 4,000 o gartrefi pellach yn elwa ar welliannau eraill fel ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd, boeleri, gwydro dwbl a gwell insiwleiddio.  Gwariwyd £28M pellach ar brynu 128 o gartrefi newydd mewn ardaloedd lle mae galw mawr.  Bydd y cartrefi hyn o safon dda a byddwn yn dibynnu llai wedyn ar rentu eiddo tymor byr drud o'r sector preifat.  Yn yr un modd â Llety Byw Sengl, nid yw'r saib tair blynedd mewn cyllid o fis Ebrill 2013 wedi'i lleddfu eto ar gyfer Llety Teulu'r Lluoedd, ond mae'r buddsoddiad o £100M yn llety'r Lluoedd rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014 yn ymdrin â'r flwyddyn gyntaf ac fe'i defnyddir i wneud gwelliannau mawr i ryw 650 o eiddo Llety Teulu'r Lluoedd (£55M) a phrynu 25 eiddo newydd i'w defnyddio'n Llety Teulu'r Lluoedd mewn ardaloedd lle mae galw mawr, gan ddefnyddio'r gweddill ar gyfer Llety Byw Sengl.

**Ystadegau ar Lety Teulu'r Lluoedd**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rheoli tua 64,000 o gartrefi ar gyfer Llety Teulu'r Lluoedd, a 49,000 o'r rheini yn y DU a 15,000 dramor (fel ym mis Mawrth 2012)

**Cyflwr Ffisegol Stoc Llety Teulu'r Lluoedd (fel ar 1 Medi 2012)**

| | Safon 1 ar gyfer Cyflwr | Safon 2 ar gyfer Cyflwr | Safon 3 ar gyfer Cyflwr | Safon 4 ar gyfer Cyflwr | Heb eu cofnodi |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y DU** | 45% | 49% | 1% | <1% | 4% |
| **Tramor** | 32% | 21% | 28% | 17% | 2% |
| **Cyfanswm** | 42% | 43% | 8% | 4% | 37% |

**Llety Teulu Amgen y Lluoedd (SSFA) (fel ar 1 Medi 12)**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhentu 1,908 o eiddo Llety Teulu Amgen y Lluoedd (SSFA) ar brydles. Eiddo yw hwn a ddarperir pan nad yw Llety Teulu'r Lluoedd ar gael.

Ceir gwahanol gynlluniau i helpu teuluoedd y Lluoedd Arfog i brynu eu tŷ cyntaf ac, yn ôl Arolwg Agwedd Parhaus Teuluoedd, mae perchentyaeth wedi cynyddu ymhlith Cymuned y Lluoedd Arfog o 55% yn 2010 i 60% yn 2012. Mae hyn yn cymharu â rhyw 68% o'r boblogaeth sifil. Cyflwynwyd Cynllun Perchentyaeth y Lluoedd Arfog ym mis Ionawr 2010 er mwyn i aelodau amser llawn o'r Lluoedd Arfog, a fu'n gwasanaethu rhwng pedair a chwe blynedd, brynu eiddo yn Lloegr. Fel ym mis Mehefin 2012, roedd 219 o bersonél y Lluoedd wedi cwblhau prynu eiddo drwy'r cynllun. Mae personél y Lluoedd hefyd wedi cael y flaenoriaeth uchaf i gael at gynllun FirstBuy yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, a gynlluniwyd i gynorthwyo prynwyr am y tro cyntaf. Rhwng mis Medi 2011 a mis Mawrth 2012, helpodd y cynllun hwn i 127 o aelodau o'r Lluoedd Arfog brynu eu cartref eu hunain.

O ran **cyflogaeth gwŷr a gwragedd a phartneriaid**, er gwaethaf y sefyllfa economaidd cyffredinol anodd, gwelwyd lefelau cynyddol o gyflogaeth amser llawn - o 34% yn 2011 i 38% yn 2012 - ac mae nifer y partneriaid sy'n rhoi gwybod am anawsterau wrth chwilio am waith oherwydd hanes cyflogaeth wedi gostwng o 25% yn 2010 i 16% yn 2012. Mewn ymateb i'r anfanteision sy'n wynebu gwŷr a gwragedd a phartneriaid sifil sy'n mynd gyda phersonél y Lluoedd Arfog a anfonir i leoliad newydd dramor, cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau newidiadau sy'n helpu gwŷr a gwragedd a phartneriaid sifil i hawlio Lwfans Ceisio Gwaith cyfrannol neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol, pan ddychwelant i'r DU. Mae'r newidiadau'n helpu i chwalu'r anfanteision a oedd yn atal gwŷr a gwragedd a phartneriaid sifil rhag hawlio'r budd-daliadau hyn lle nad oeddent wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y ddwy flynedd flaenorol oherwydd y penodiad tramor a'r anawsterau cysylltiedig yn dod o hyd i waith dramor. Bu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio hefyd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i hybu ymwybyddiaeth ymhlith Cymuned y Lluoedd Arfog am Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog sydd ym mhob rhanbarth Canolfan Byd Gwaith. Gwnaethpwyd gwaith da gan yr Hyrwyddwyr yng ngogledd-orllewin a gogledd-ddwyrain Lloegr, er bod data'n awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth o hyd. Yn rhan o'r cynllun hwn, rhoddwyd gwybodaeth i deuluoedd y Lluoedd am farchnadoedd llafur lleol, cyfleoedd hyfforddi a manylion budd-daliadau y gallent fod yn gymwys amdanynt, yn ogystal â chymorth yn dod o hyd i swyddi ac yn ymgeisio amdanynt.

Gwnaethpwyd ymdrechion i gefnogi teuluoedd Tramor a Chymanwlad yn fwy effeithiol. Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi cytuno i gyfnod pontio tan y gwanwyn 2013 i'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd cyn bod nifer o reolau newydd yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys cymhwyso trothwy incwm lleiaf, profion iaith Saesneg a



chyfnod prawf o bum mlynedd yn y DU. Aethpwyd ymlaen ag amryw fesurau eraill gan Asiantaeth Ffiniau'r DU: er enghraifft triniaeth gydymdeimladol i ddibynyddion personél y Lluoedd Arfog sy'n dymuno rhoi pen ar y berthynas oherwydd cam-drin domestig; a hepgor ffi ar gyfer yr ail gais am deitheb sy'n ofynnol i ddibynyddion personél Tramor a Chymanwlad.

Rydym hefyd wedi gwella'r cymorth a gynigir i deuluoedd pan fydd priod neu bartner ar ymgyrchoedd. Dyblwyd y Grant Lles Teuluoedd ym mis Ebrill 2012 i £4.40 y pen am bob wythnos o ymfyddino. Roedd hyn yn darparu £2M ychwanegol y flwyddyn i gadlywyddion lleol wella'r cymorth uniongyrchol a roddant i ryw 30,000 o deuluoedd tra bydd eu hanwyliaid i ffwrdd.

Mae Cynllun Grant y Cyfamod Cymunedol wedi ariannu nifer o brosiectau i gefnogi teuluoedd ac agorwyd un ohonynt, sef lle chwarae â thema'r Awyrlu Brenhinol yn Carterton, Swydd Rydychen, yn ddiweddar gan y Prif Weinidog, David Cameron. Mae'r lle chwarae rhwng tai'r Weinyddiaeth Amddiffyn a thai'r dref, ac mae wedi helpu i bontio'r bwlch rhwng y ddwy gymuned drwy chwarae. Mae chwarae'n ddull sicr o chwalu rhwystrau a chodi pontydd, a gobeithir y bydd aelodau o'r ddwy gymuned, drwy ddefnyddio'r parc hwn, yn dod ynghyd ac yn dysgu am ei gilydd ac am eu hanghenion ei gilydd.

## Lle mae effeithiau gwasanaeth yn dal i osod personél y Lluoedd dan anfantais neu lle mae gofyn ystyriaeth arbennig bellach

O ran **addysg plant**, mae'n rhy gynnar i wybod i ba raddau y mae'r Codau Derbyn i Ysgolion diwygiedig wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r problemau sy'n wynebu llawer o deuluoedd, a byddwn yn dal i fonitro'r sefyllfa i ddeall i ba raddau mae anfantais yn parhau. Nid yw nifer teuluoedd y Lluoedd Arfog sy'n rhoi gwybod am anhawster wrth barhau addysg plentyn heb fwlch wrth newid ysgolion wedi newid ers y llynedd, sef 8%. Rhaid hefyd gwerthuso Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog ychydig o hyd er mwyn pennu effaith y cyllid a sicrhau y caiff ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adolygu'r Gronfa Gymorth i Ysgolion Gwladol â phlant y Lluoedd Arfog i sicrhau ei bod yn dal i gael ei defnyddio i leddfu effeithiau ymfyddino a symudedd eithriadol ar ysgolion, academïau ac ysgolion am ddim yn y DU. Mae'r Cynllun Cymorth Preswyl y tu

hwnt i 2012-13 yn destun adolygiad gan yr Adran Addysg a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, felly byddwn yn monitro hyn i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn rhoi teuluoedd y Lluoedd dan anfantais.

Hefyd, a'r academïau a'r ysgolion am ddim ar gynnydd yn Lloegr, rydym wedi nodi bod angen sicrhau bod y mathau hyn o ysgolion yn cael eu cynnwys mewn mentrau Cyfamod ac nad ydynt felly'n rhoi plant y Lluoedd dan anfantais. Byddwn yn dechrau gwaith i gyfleu eu hanghenion i'r gymuned hon o sefydliadau. Ar wahân i hynny, rydym yn casglu tystiolaeth o anghenion penodol personél y Lluoedd Arfog o ran darparu gofal plant yn y DU er mwyn nodi a oes unrhyw anfantais oherwydd natur eu gwaith. Rydym hefyd yn ceisio egluro a fydd y broses a fabwysiadir ynghylch cyllid addysg uwch yn y Gweinyddiaethau Datganoledig yn rhoi personél y Lluoedd a leolwyd yno dan anfantais.

O ran **Llety Teulu'r Lluoedd**, y pryder allweddol i deuluoedd yw'r saib a gynlluniwyd mewn gwariant, a bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dal i chwilio am gyfleoedd i leddfu effaith hyn, yn llwyr neu'n rhannol, yn y ddwy flynedd nesaf. Er bod digon o lety i fodloni'r galw arferol, mae rhai mannau problemus lle caiff llety amgen ei rentu o'r sector preifat gan arwain at wahanu teuluoedd oddi wrth y prif ardaloedd byw a mwy o gostau i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mewn rhai mannau, ni fydd y galw am fwy o dai yn hysbys nes bod lleoliad unedau'r Lluoedd yn cael ei ddatblygu ymhellach, felly bydd rhaid i'r arfer hwn barhau er mwyn i'r Weinyddiaeth Amddiffyn beidio â mynd i ymrwymiadau ariannol tymor hir. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi rhyddhau £131M pellach i brynu eiddo oddi wrth ddatblygwyr yn y flwyddyn ariannol hon i'w ddefnyddio'n Llety Teulu'r Lluoedd. Bydd yr eiddo hwn yn cael ei brynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr neu lle credwn y bydd llawer mwy o Lety Teulu'r Lluoedd yn ofynnol yn y dyfodol. Bydd yr eiddo hwn ar gael i'w ddyrannu i deuluoedd y Lluoedd o ganol 2013 ymlaen, a bydd yn helpu i sicrhau bod llai o Lety Teulu amgen, drud y Lluoedd yn cael ei ddefnyddio. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi rhyddhau £5M pellach i uwchraddio Llety Teulu'r Lluoedd erbyn 31 Mawrth 2013. Bydd hyn yn helpu i ailddefnyddio eiddo gwag tymor hir a bydd yn cwtogi ar ddefnyddio Llety Teulu amgen, drud y Lluoedd. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r ffordd orau o estyn y polisi sy'n llywodraethu ym mha amgylchiadau y caiff personél gadw Llety Teulu'r Lluoedd, gan gynnwys y sefyllfa lle mae gan briod neu bartner yr aelod o'r Lluoedd gyfnod penodol o gyflogaeth neu mae mewn addysg uwch a bod yr aelod o'r Lluoedd yn cael ei symud i rywle newydd yn gynt na'r disgwyl. Rydym yn cydnabod hefyd nad yw hawliau i Lety Teulu'r Lluoedd yn llwyr adlewyrchu disgwyliadau teuluoedd modern, er enghraifft yn gyffredinol nid yw parau di-briod yn gallu hawlio tŷ. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan o Ffrwd Waith Llety'r Dyfodol, yn y Model Cyflogaeth Newydd.

O ran gallu gwŷr a gwragedd a phartneriaid i gael cyflogaeth neu gael **Lwfans Ceisio Gwaith**, nid yw'n glir bod y mesurau a roddwyd ar waith gennym yn cael yr effaith ddymunol. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cydweithio i ddeall a chyfleu'n well y rheolau arbennig sydd yn eu lle i wŷr a gwragedd a phartneriaid personél y Lluoedd. Yn bwysig hefyd ar gyfer cyflogaeth gwŷr a gwragedd a phartneriaid, cafodd cludadwyedd cynyddol gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ei gynnwys yn y Bil Diogelu Rhyddidau, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2012. Caiff cludadwyedd y gwiriadau hyn ei honni ar system ddiweddaru barhaus newydd y disgwylir ei chyflwyno yn ystod gwanwyn 2013. Mae manylion y trefniadau newydd yn cael eu datblygu gan y Swyddfa Gartref.

Ynglŷn â chymorth i deuluoedd Tramor a Chymanwlad, cydnabyddwn y bu'r cynnydd yn araf ar yr anfanteision a nodwyd gennym y llynedd. Hefyd, mae gwŷr a gwragedd tramor sy'n mynd gyda phersonél y Lluoedd Prydeinig ar benodiad tramor dan anfantais am nad yw'r rheoliadau cyfredol yn eu galluogi i ymgeisio o dramor am hawl i ymgartrefu. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Swyddfa Gartref i sicrhau, lle mae'n gyfreithiol bosibl gwneud hynny, fod dinasyddion Tramor a Chymanwlad ar wasanaeth ac aelodau o deuluoedd personél y Lluoedd nad ydynt yn wladolion yr AEE yn cael eu trin ar aseiniadau tramor gyda chwmni fel petaent yn y DU. Er enghraifft, caniatáu i aelodau teulu personél y Lluoedd sy'n destun rheolaethau mewnfudo'r DU ac sy'n dioddef trais domestig i wneud cais i ddod i mewn i'r DU.

# Ymrwymiadau Adroddiad 2012

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adran Addysg yn adolygu ar y cyd effaith y canllawiau Derbyn diwygiedig i sicrhau eu bod yn dileu anfantais, lle bo modd, i bersonél y Lluoedd Arfog wrth gael eu dewis ysgol yn Lloegr.

Bydd yr Adran Addysg a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i adolygu'r ffordd y defnyddir Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog ac yn cyhoeddi enghreifftiau o arfer gorau i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag anfantais i addysg plant y Lluoedd Arfog.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adolygu'r Gronfa Gymorth i Ysgolion Gwladol â phlant y Lluoedd Arfog i sicrhau ei bod yn dal i gael ei defnyddio i liniaru effeithiau ymfyddino a symudedd eithriadol ar ysgolion, academïau ac ysgolion am ddim yn y DU.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn monitro unrhyw newidiadau yn y Cynllun Cymorth Preswyl i sicrhau nad yw plant y Lluoedd Arfog dan anfantais.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dal i weithio gyda'r adrannau addysg perthnasol i sicrhau bod anghenion penodol plant y Lluoedd Arfog yn cael eu cydnabod yn arbennig gyda'r academïau newydd a'r ysgolion am ddim yn Lloegr.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn casglu tystiolaeth o anghenion penodol personél y Lluoedd o ran darparu gofal plant yn y DU i nodi a oes unrhyw anfantais oherwydd natur eu gwaith.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio gyda'r adrannau addysg perthnasol i geisio egluro sut bydd addysg uwch yn cael ei ariannu, yn nodi a fydd hyn yn rhoi plant personél y Lluoedd a anfonir yno dan anfantais ac yn ceisio mynd i'r afael ag anfantais os yw'n bodoli.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dal i chwilio am gyfleoedd i liniaru ymhellach effaith blynyddoedd dau a thri o'r saib a gynlluniwyd ar welliannau i Lety Teulu'r Lluoedd.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi rhyddhau £131M pellach i brynu eiddo newydd oddi wrth ddatblygwyr i'w ddefnyddio'n Llety Teulu'r Lluoedd mewn ardaloedd lle mae galw mawr neu lle credwn y bydd gofyn llawer mwy o Lety Teulu'r Lluoedd yn y dyfodol. Bydd yr eiddo hwn ar gael yn 2013 a bydd yn cwtogi ar ddefnyddio Llety Teulu amgen, drud y Lluoedd.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi rhyddhau £5M pellach i uwchraddio Llety Teulu'r Lluoedd erbyn 31 Mawrth 2013. Bydd hwn yn helpu i ailddefnyddio eiddo gwag tymor hir a chwtogi ar ddefnyddio Llety Teulu amgen, drud y Lluoedd.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn estyn yr amgylchiadau lle caiff personél gadw Llety Teulu'r Lluoedd i gynnwys adegau pan fydd rhaid i ŵr neu wraig neu bartner yr aelod o'r Lluoedd roi cyfnod penodedig o rybudd i gyflogwr neu pan fydd mewn addysg uwch.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cydweithio i weld beth yn rhagor y gellir ei wneud i ddeall yn well y rheolau arbennig sydd yn eu lle i wŷr a gwragedd a phartneriaid sifil mewn perthynas â Lwfans Ceisio Gwaith.

# 5 Y PROFEDIGAETHUS



## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

Cydnabuom y llynedd mor bwysig yw sicrhau bod teuluoedd mewn profedigaeth yn cael gwybod yn gywir sut y bu farw eu hanwyliaid ac aethom ati i nodi nifer o welliannau wedi'u cynllunio i'r dull gweithredu cwestau, er mwyn cwtogi cymaint â phosibl ar y trallod ychwanegol y gellir ei achosi i deuluoedd. Dywedasom y byddai'r Llywodraeth yn penodi Prif Grwner ac yn cyhoeddi Siarter Genedlaethol newydd i'r Gwasanaeth Crwneriaid. Dywedasom hefyd y byddai'r Llywodraeth yn sefydlu grŵp o sefydliadau profedigaeth a fydd yn gallu cynghori'r Prif Grwner ar faterion sy'n effeithio ar y profedigaethus ac a fydd yn cael cylch gwaith penodol i fonitro effaith y Siarter. Nodwyd gennym y Gwasanaeth Annibynnol Cynghori ar Gwestau, sy'n cael ei weithredu a'i ariannu'n rhannol gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, ac ymrwymom i adolygu hwn yn ffurfiol yn ystod haf 2012 pan ddaeth cymorth cychwyn i ben. Er inni nodi mai mater i'r crwner yw amseru cwest, dywedasom y byddem yn rhoi cymorth i grwneriaid gyda'r bwriad o gwblhau'r cwest cyn pen naw mis neu cyn pen 18 mis ar gyfer achos cymhleth sy'n cynnwys Ymchwiliad Llu.

## Yr hyn a wnaethom i leihau anfantais a rhoi ystyriaeth arbennig fel sy'n briodol

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cymryd o ddifrif calon ei rhwymedigaethau at deuluoedd profedigaethus y cynigir iddynt hwy, fel yr anafedig, ystyriaeth arbennig o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog. Ni chawn byth anghofio eu haberth. Ceisiwn sicrhau'n gyson fod teuluoedd profedigaethus

yn cael eu trin â'r parch a'r cydymdeimlad a haeddant. Yn rhan o'n gwaith i'w cefnogi, mae'r Gweithgor Teuluoedd Profedigaethus yn cyfarfod bob chwe mis i sicrhau bod unrhyw bryderon sy'n codi o hysbysu, dychwelyd adref a choffáu yn cael sylw priodol.

Bu'r Ganolfan Dychwelyd Adref yn RAF Brize Norton ar waith bellach ers ychydig dros flwyddyn. Mae'r Ganolfan yn darparu capeli gorffwys lle caiff aelodau teulu dreulio amser, ynghyd â llety a chyfleusterau eraill i helpu i sicrhau bod personél y Lluoedd yn cael eu dychwelyd adref â'r urddas priodol.

Ym mis Medi 2012, daeth Ei Anrhydedd y Barnwr Peter Thornton QC yn **Brif Grwner** cyntaf ar Gymru a Lloegr. Mae ganddo nifer o bwerau mewn perthynas â chwestau personél y Lluoedd Arfog, gan gynnwys y ddyletswydd i fonitro ymchwiliadau i farwolaethau yn y Lluoedd a sicrhau bod crwneriaid yn cael eu hyfforddi'n addas i ymchwilio i farwolaethau felly. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu rhoi'r pwerau hyn mewn grym ochr yn ochr â diwygiadau eraill i grwneriaid yn 2013. Cyn hynny, gweithredodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder bŵer allweddol i'r Prif Grwner ym mis Medi 2012 i ofyn bod ymchwiliad i farwolaeth ymgyrchol aelod o'r Lluoedd a laddwyd dramor yn cael ei gynnal yn yr Alban os yw'n briodol. Mae hyn yn lleihau'r straen ychwanegol i deuluoedd profedigaethus sy'n byw yn yr Alban drwy sicrhau nad oes rhaid iddynt deithio i Gymru neu Loegr i fynd i gwestau. Mae gofyn hefyd i'r Prif Grwner adrodd yn flynyddol i'r Arglwydd Ganghellor ar weithredu'r system crwneriaid, gan gynnwys asesu cysondeb safonau rhwng ardaloedd crwneriaid. Disgwylir yr adroddiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2014.

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 y **Siarter** genedlaethol **ar gyfer Gwasanaethau Crwneriaid** sy'n nodi'r safonau y dylai aelodau o deuluoedd profedigaethus a buddgyfranogwyr eraill ddisgwyl eu cael ac sy'n egluro sut gall rhywun gwyno am y gwasanaeth a gawsant. Bydd y Siarter yn cael ei diwygio pan fydd mwyafrif y darpariaethau diwygio crwneriaid yn Neddf 2009 yn cael eu gweithredu yn 2013. Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r Prif Grwner i sefydlu grŵp o sefydliadau profedigaeth a fydd yn asesu effaith y Siarter ac yn cynghori ar faterion sy'n effeithio ar bobl mewn profedigaeth.


Roedd yr adolygiad o'r Gwasanaeth Annibynnol Cynghori ar Gwestau yn ystod yr haf eleni'n cadarnhau ei fod yn bodloni angen amlwg i'r teuluoedd sy'n wynebu posibilrwydd cwest i farwolaeth anwylyd. Rhwng mis Mai 2010 a mis Gorffennaf 2012, cynorthwyodd y Gwasanaeth Annibynnol Cynghori ar Gwestau 144 o aelodau teulu'r Lluoedd Arfog mewn profedigaeth mewn perthynas â 74 o farwolaethau yn y Lluoedd. Bydd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn dal i gynnig y gwasanaeth hwn. Rydym hefyd wedi diweddaru'r wybodaeth y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei rhoi i deuluoedd mewn profedigaeth ynghylch yr hyn i'w ddisgwyl gan gwest, er mwyn iddo bellach gynnwys **Ymchwiliadau i Ddamweiniau Angheuol**, sy'n cael eu cynnal yn yr Alban. Bydd hyn yn galluogi teuluoedd personél y Lluoedd sydd â chysylltiadau agos â'r Alban i benderfynu a ydynt yn dymuno cynnal yr ymchwiliad yng Nghymru a Lloegr neu yn yr Alban.

Dengys y graff isod fod yr amser cyfartalog a gymerir i gynnal cwest i farwolaeth ymgyrchol heb fod unrhyw Ymchwiliad Llu wedi syrthio'n raddol ers 2003.

Mae'r Uned Cwestau Amddiffyn yn dal i weithio'n agos gyda chrwneriaid a'r rheini sy'n cynnal Ymchwiliadau Lluoedd i ddeall unrhyw resymau dros oedi ac i nodi lle gellir gwneud gwelliannau. O'r flwyddyn nesaf, bydd gofyn i grwneriaid roi gwybod i'r Prif Grwner am unrhyw ymchwiliadau sy'n para mwy na 12 mis, a'r rhesymau dros unrhyw oedi. Cynhaliodd Uned Cwestau Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn ei sesiwn wybodaeth flynyddol i grwneriaid a siryfion yr Alban yn Warminster ym mis Awst. Yn y digwyddiad rhoddwyd gwybod am yr ymgyrchoedd cyfredol yn Affganistan ac arddangoswyd cyfarpar gan gynnwys radios, offer gweld yn y nos, ffrwydron byrfyfyr, arfwisgoedd a cherbydau. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn gan y rhai a aeth.

Mae pethau eraill wedi peri gofid i'r profedigaethus. O ran tai cymdeithasol, mae rheoliadau tai newydd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn sicrhau bod gwŷr a gwragedd a phartneriaid sifil profedigaethus personél y Lluoedd sy'n gadael llety teulu'r Lluoedd ar ôl marwolaeth eu gŵr neu wraig neu bartner sifil yn cael eu hesgusodi o'r gofyniad cysylltiad lleol a bod y rheini ag anghenion tai brys bob amser yn cael blaenoriaeth uchel. Mae'r Adran hefyd yn caniatáu trosglwyddo statws blaenoriaeth am gynlluniau

perchentyaeth a ariennir gan y Llywodraeth, gan gynnwys FirstBuy, i wŷr a gwragedd a phartneriaid sifil profedigaethus. Yng Nghymru, mae personél y Lluoedd Arfog a chyn-aelodau'r Lluoedd yn cael statws blaenoriaeth o dan y cynllun Cymorth Prynu. Mae Canllawiau Cymorth Prynu interim Llywodraeth Cymru'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd i estyn y statws blaenoriaeth i weddwon personél a laddwyd ar wasanaeth. Rhagwelir y bydd y ddogfen yn cael ei hailgyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2012.




Mae plant profedigaethus yn dal i gael cydnabyddiaeth a chymorth ychwanegol, a hynny'n bennaf drwy elusennau fel Child Bereavement Charity, Winston's Wish a Scotty's Little Soldiers, a thrwy greu bwrsariaethau ar gyfer addysg bellach a sicrhau lleoedd mewn ysgolion annibynnol. Mae Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog yn dal i ddarparu ysgoloriaethau prifysgol ac addysg bellach i blant personél y Lluoedd a laddwyd ar ddyletswydd ers 1990, a ariennir gan yr Adran Busnes, Diwydiant a Sgiliau, yr Adran Addysg a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cynyddwyd y grantiau sydd ar gael dan y Cynllun i fyfyrwyr prifysgol i ateb y ffioedd uwch a godir ers mis Medi 2012.



**Bedair blynedd yn ôl, bu farw tad Kelly Thompson, Gary, a oedd yn uwch awyrennwr wrth gefn yn yr Awyrlu Brenhinol, tra oedd ar wasanaeth yn Affganistan pan fwriodd ei gerbyd fom. Roedd wedi dweud wrth ei deulu y byddai'n gwneud swydd ddesg yno i'w cadw rhag poeni, ac mae Kelly a'i theulu'n ei ddisgrifio fel arwr. Mae Kelly newydd ddechrau gradd mewn astudiaethau addysgol ym Mhrifysgol Derby gan ddefnyddio Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth (BSS) y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ariennir y cynllun gan yr Adran Addysg a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn graddio yn 2015 ac mae'n gobeithio bod yn athrawes. Mae'n byw gartref gyda'i chwaer Jade a'i mam Jacqueline.**

"Mae chwech o ferched yn fy nheulu i, sef pum chwaer a fy mam. Mae un o'm chwiorydd yn astudio nyrsio, mae un yn rheolwr cyfrif, mae un yn athrawes ysgol gynradd ac mae'r hynaf yn briod a chanddi ddwy ferch fach. Dechreuais ym Mhrifysgol Derby yn gwneud astudiaethau addysgol eleni ac rwyf hefyd yn gweithio'n rhan-amser mewn sinema.

Es i i'r brifysgol yn Llundain yn ôl yn 2010 am damaid, ond roedd yn rhy fuan i adael fy nheulu ac roedd yn emosiynol iawn felly'n ôl â mi. Ac ni fyddwn wedi mynd yn ôl i'r brifysgol heb fy mod i'n gallu defnyddio'r Ysgoloriaeth – roeddwn eisoes wedi gwario £8,000 y tro cyntaf. Mae wedi bod yn bwysau mawr oddi ar f'ysgwyddau oherwydd gallaf wneud rhywbeth rwyf wir am ei wneud heb gael fy nal yn ôl, a heb boeni am ddyled.

Roedd Dad bob amser mor frwd dros ein haddysg, ac felly hefyd Mam. Byddai Dad mor hapus o wybod fy mod i'n astudio yn y brifysgol. Byddai wedi bod yn hapus beth bynnag y byddwn wedi'i wneud am ei fod bob amser mor gefnogol, ond roedd yn awyddus iawn i sicrhau bod gennym y cyfleoedd os dyna a fynnem. Ac mae'n fy ngwneud i mor falch ohonof fy hun, iddo ef.

Pan fyddaf yn graddio, rwyf am fod yn athrawes, a byddwn yn wir yn hoffi gweithio mewn Sefydliad Ieuenctid i blant sydd wedi gorfod gadael ysgol prif ffrwd oherwydd eu hymddygiad, er mwyn imi helpu pobl sydd heb gael cychwyn da ar fywyd. Mae hynny fel Dad – roedd am fynd ar wasanaeth yn Affganistan am ei fod eisiau i fenywod yno gael yr un cyfle o addysg â'i holl ferched ef.

Rwyf wedi cael colled enfawr yn fy mywyd, ond rwyf mor ffodus a dweud y gwir. Rwyf am i blant a giciwyd allan o'r ysgol wybod bod pobl i'w cael sy'n credu ynddyn nhw, ac rwyf am helpu pobl sydd heb gael yr un breintiau â mi."

Mae'r Grŵp Cymorth Teuluoedd Profedigaethus yn cynnig y cyfle i deuluoedd mewn profedigaeth gyfarfod a siarad ag eraill mewn amgylchiadau tebyg. Mae ar gael i wŷr a gwragedd, rhieni ac aelodau o'r teulu ehangach ac mae'n rhoi cymorth iddynt, yn lleddfu unigedd ac yn cyfeirio pobl at y cymorth lles priodol neu gwnsela naill ai drwy gysylltiad rheolaidd neu drwy fforwm gwe ar-lein diogel, cyfarfodydd rheolaidd a chylchlythyr. Ar hyn o bryd, mae tua 240 o deuluoedd wedi ymuno â'r grŵp hwn. Sefydlwyd dau grŵp arall i helpu brodyr a chwiorydd profedigaethus a phlant profedigaethus. Ceir gwahanol grwpiau cymorth sy'n darparu ar gyfer plant a phobl ifanc o wahanol oedrannau. Mae'r grwpiau'n caniatáu i blant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gyfarfod yn rheolaidd, siarad â'i gilydd am y materion wrth law a rhannu pryderon emosiynol.

Mae'r tri Gwasanaeth yn dal i gadw llygad ar yr hyfforddiant a ddarparant i Swyddogion Hysbysu am Ddamweiniau a Swyddogion Ymweld i sicrhau ei fod yn gyson ac o safon. Mae pob Gwasanaeth hefyd yn darparu Canllaw Teulu sy'n cynnwys cysylltiadau, cyngor ac arweiniad priodol yn y Lluoedd ac yn allanol.

## Lle mae effeithiau gwasanaeth yn dal i osod personél y Lluoedd dan anfantais neu lle mae gofyn ystyriaeth arbennig bellach

Ni allwn byth wneud digon i wneud iawn am golli anwylyd, ond byddwn yn parhau i wneud yr hyn y gallwn i gefnogi'r profedigaethus. Byddwn yn ymgysylltu'n strwythuredig â grwpiau teuluoedd profedigaethus i nodi ymhle gall y Weinyddiaeth Amddiffyn neu adrannau eraill y Llywodraeth roi mathau newydd neu well o gymorth. Byddwn yn dal i weithio'n agos gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol a sefydliadau eraill i nodi meysydd lle gellir gwella'n cymorth i deuluoedd profedigaethus. Byddwn yn dal i ymgysylltu â Chrwneriaid sy'n gwrando'r cwestau er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ddeall y cyd-destun ymgyrchol ac i'w helpu i gynnal cwestau llawn a didwyll er mwyn i'r teuluoedd i ddeall sut y bu farw eu hanwyliaid.

Bwriadwn gynyddu'r Grant Costau Angladd o £500 i lefel newydd o £1,000 ar ddiwedd eleni. Sefydlwyd y grant yn wreiddiol i helpu teuluoedd profedigaethus gyda chost treuliau achlysurol mewn cysylltiad ag angladd. Bwriedir y swm cynyddol hefyd fel cyfraniad at gostau teithio aelodau o'r teulu i ddigwyddiadau, fel gwasanaethau coffa yn y Goedfa Goffa Genedlaethol yn Swydd Stafford. Bydd y grant wedi'i newid yn cael ei dalu bellach i bob teulu yn y Lluoedd Arfog sy'n dioddef profedigaeth, ni waeth a gynhelir angladd Lluoedd Arfog.

Mae'r Prif Grwner yn ystyried dewisiadau pellach gyda'r nod o wella cysondeb a phrydlondeb mewn ymchwiliadau personél y Lluoedd Arfog. Yn ei araith i Gynhadledd Flynyddol Cymdeithas y Crwneriaid ar 21 Medi, cyhoeddodd y Prif Grwner ei fod yn ystyried datblygu fframwaith o grwneriaid wedi'u hyfforddi'n arbennig mewn marwolaethau yn y Lluoedd a allai deithio i ardal y berthynas agosaf i ymchwilio ac i gynnal y cwest. Wrth fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen, bydd y Prif Grwner yn ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, y Lleng Brydeinig Frenhinol, sefydliadau eraill y Lluoedd Arfog a chrwneriaid ac awdurdodau lleol sydd wedi gweithio yn y maes hwn.

Bydd gweddwon rhyfel a gweddwon y Lluoedd yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Disgownt Amddiffyn. Manylir ymhellach ar y cynllun ym mhennod saith.

## Ymrwymiadau Adroddiad 2012

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymgysylltu'n strwythuredig â grwpiau teuluoedd profedigaethus i nodi lle gall y Weinyddiaeth Amddiffyn neu adrannau Llywodraeth eraill ddarparu moddau newydd neu well o gymorth i deuluoedd profedigaethus.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynyddu'r Grant Costau Angladd o £500 i £1000 i helpu teuluoedd gyda'r costau achlysurol sy'n gysylltiedig ag angladd. Bydd y grant ar ei newydd wedd yn cael ei dalu bellach i bob teulu yn y Lluoedd sy'n dioddef profedigaeth, ni waeth a gynhelir angladd Lluoedd Arfog.

# 6 Y RHEINI SY'N GADAEL Y LLUOEDD



## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

Gan gydnabod bod ymadael â'r Lluoedd Arfog yn gallu teimlo fel cam brawychus, nodwyd gennym y llynedd fod tai, cyflogaeth ac addysg yn faterion allweddol i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd. Yng nghyd-destun colli swyddi, dywedasom y byddai cymorth pwrpasol yn cael ei ddarparu i'r rheini y mae ei angen arnynt. Cydnabuom fod y Weinyddiaeth Amddiffyn ac adrannau Llywodraeth eraill yn cael cwmni'r sector gwirfoddol a chymunedol i gefnogi cyfnod pontio llwyddiannus, ac roeddem yn edrych ymlaen at weithio gyda COBSEO ac ymddiriedolaeth Forces in Mind i ddatblygu prosiect allweddol i gefnogi lles seicolegol y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog. Nodwyd y byddai gwaith yn parhau ynghylch pryd y gall personél Tramor a Chymanwlad ymgeisio i ymgartrefu yn y DU i sicrhau bod hyn yn digwydd ar y cyfle priodol cyntaf er mwyn lleddfu'r problemau a geir o ran diffyg cyflogaeth, tai neu gyllid cyhoeddus wrth iddynt ddisgwyl penderfyniad.

## Yr hyn a wnaethom i leihau anfantais a rhoi ystyriaeth arbennig fel sy'n briodol

Ym mis Medi, penodwyd Arglwydd Ashcroft gan y Prif Weinidog i fod yn Gynrychiolydd Arbennig iddo ar gyfer Pontio Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Mae Arglwydd Ashcroft yn gweithio gydag adrannau ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod personél y Lluoedd Arfog yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt wrth bontio i fywyd sifil. Bydd yn cynnal adolygiad ac yn edrych o'r newydd ar y pecyn sydd ar waith i bersonél sy'n gadael y Lluoedd Arfog, gan gysylltu ag elusennau, diwydiant ac adrannau Llywodraeth a hyrwyddo'r achos o blaid dynion a menywod y Lluoedd yn pontio i fywyd sifil.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynorthwyo mwyafrif y rhai sy'n gadael y Lluoedd i bontio'n esmwyth i lety preifat. Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi caniatáu i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd gadw statws blaenoriaeth ar gyfer cynlluniau perchentyaeth, gan gynnwys FirstBuy, hyd at 12 mis ar ôl eu rhyddhau. Fodd bynnag, i'r ychydig hynny nad allant bontio'n llwyddiannus i'w cartref eu hunain neu lety rhentu preifat, gosododd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol reoliadau mewn grym ym mis Awst ar ddyrannu tai cymdeithasol a oedd yn amodi na chaiff awdurdodau lleol yn Lloegr anghymhwyso'r rhai sy'n gadael y Lluoedd ar y sail nad oes ganddynt gysylltiad lleol, lle gwneir y cais cyn pen pum mlynedd o'u rhyddhau.

Yn dilyn cymeradwyaeth Seneddol, mae gofyn i awdurdodau lleol fframio eu cynlluniau dyrannu i roi blaenoriaeth ychwanegol i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog os bydd angen tai ar frys arnynt. Anogwyd awdurdodau lleol i ystyried yn gydymdeimladol aelodau teulu a roddwyd dan anfantais efallai oherwydd bywyd y Lluoedd. Mae Cyfamodau Cymunedol hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion yn lleol, er enghraifft mae gan Gyngor Birmingham Swyddog Tai Lluoedd Arfog pwrpasol i gefnogi'r rheini sy'n gadael y Lluoedd.

Yn yr Alban, diwygiwyd deddfwriaeth tai er mwyn i gyn- bersonél y Lluoedd Arfog chwilio bellach am dai mewn ardal lle buont ar wasanaeth yn flaenorol. Cyhoeddwyd canllaw tai cenedlaethol i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog a dosbarthwyd mwy na 14,000 o gopïau. Yng Nghymru, mae personél y Lluoedd Arfog a chyn-aelodau'n cael statws blaenoriaeth dan gynllun Cymorth Prynu a chyhoeddwyd y canllawiau i awdurdodau lleol am Ddyrannu Llety a Digartrefedd ym mis Awst 2012. Mae'r rhain yn amlinellu i awdurdodau lleol pa ystyriaeth y dylid ei rhoi wrth fframio polisïau dyrannu, gan gynnwys deddfwriaeth 2008 yn diwygio cysylltiad lleol.

Mae nifer o ffrydiau gwaith mewn llaw i gynyddu'r cyfleoedd i bersonél sy'n gadael y Gwasanaethau i gael **cyflogaeth** neu addysg bellach. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn, drwy'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa, eisoes yn rhoi cymorth gan gynnwys hyfforddiant a chyngor cyn cyflogaeth, a chymorth gyda chwilio am waith, ac o'r 95% o bersonél cymwys sy'n defnyddio'r bartneriaeth, dywed 92% ohonynt wrthym eu bod yn llwyddo i ymgartrefu neu gael cyflogaeth cyn pen 6 mis o adael. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 97% ar ôl 12 mis. Lansiwyd treialon gwell darpariaeth ailsefydlu i'r Rhai sy'n Gadael y Lluoedd yn Gynnar (sef personél sy'n gadael y Lluoedd Arfog ar ôl gwasanaethu llai na pedair blynedd) ym mis Chwefror 2012. Bydd y rhain yn cael eu hasesu ar sail sawl un o'r rhai sy'n gadael y Lluoedd yn gynnar sy'n dechrau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant rhwng 12 a 18 mis ar ôl i'r treialon ddechrau. Mae rhaglen Troops to Teachers, a arweinir gan yr Adran Addysg mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, wedi dyrannu 50 o leoedd ychwanegol ar gyfer Rhaglen Athrawon Graddedig 2012 yn benodol at ddefnydd y rhai sy'n gadael y Lluoedd. Hefyd, mae cynllun Military to Mentors, a gynhelir gan Skillforce ar ran yr Adran Addysg, yn recriwtio rhai sy'n gadael y Lluoedd i'w raglen i weithio gyda phlant mewn ysgolion. O 2013, mae'r Adran Addysg yn bwriadu dyrannu lleoedd arbennig i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd ar raglen Schools Direct (sy'n disodli'r Rhaglen Athrawon Graddedig). Bydd nifer y lleoedd a neilltuir yn cael ei adolygu ar sail y nifer sy'n manteisio yn 2012 ond mae'n debygol o fod tua 50 o leoedd y flwyddyn. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adran Addysg yn dal i weithio i gyflenwi'r brif agwedd ar Troops to Teachers, a fydd yn recriwtio 150 o rai eithriadol sy'n gadael y Lluoedd i raglen Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) Troops to Teachers ym mis Medi 2013. Mae niferoedd tebyg yn debygol o gael eu recriwtio i'r HCA yn y blynyddoedd dilynol. Ar ôl ei chwblhau, bydd manylion llawn y rhaglen yn cael eu cyfleu i aelodau'r Lluoedd Arfog. Yng Nghymru, mae graddedigion cymwys sy'n byw yng Nghymru sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn cael eu hannog i ymgeisio am gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig a gallant gael at yr amrywiaeth lawn o drefniadau cymorth myfyrwyr ar yr un sail â myfyrwyr israddedig, gan gynnwys cael at y grant ffioedd dysgu sy'n destun prawf modd.

Mae un enghraifft o'r Cyfamod Cymunedol yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau dod o hyd i waith yn Hull, lle crëwyd clwb gwaith mewn canolfan Byddin Diriogaethol a gynhelir gan gyllid y Ganolfan Byd Gwaith, er mwyn helpu'r rhai sy'n gadael y Lluoedd i ddychwelyd i'r gweithlu.

O ran cymorth ariannol i rai sy'n gadael y Lluoedd ar gyfer **addysg**, cadarnhaodd y Senedd yr Offeryn Statudol a fydd yn dileu'r angen i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd dalu treth wrth ddefnyddio Credydau Dysgu Estynedig

i astudio Lefel 3 neu uwch, ym mis Medi 2012. Ledled y DU, mae cynllun y Credydau Dysgu Estynedig yn rhoi cymorth ariannol i rai cymwys sy'n gadael y Lluoedd tuag at gost cyflawni cymhwyster lefel 3 neu uwch. Yn ogystal, mae'r Cynllun Ymrwymiad Addysg Bellach ac Addysg Uwch (FHEC) yn talu ffioedd dysgu'r rheini sy'n gadael y Lluoedd sy'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban pan fyddant yn astudio am gymhwyster lefel 3 llawn cyntaf, gradd sylfaen neu israddedig gyntaf, neu HNC neu HND cyntaf. Cynyddwyd y cymorth sydd ar gael i israddedigion dan gynllun FHEC i dalu'r ffioedd uwch a godir ers mis Medi 2012.

Gwnaethpwyd cynnydd da o ran sicrhau bod y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn gallu cael yn gyflymach at Raglen Waith y Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi newid ei pholisi er mwyn i bersonél a adawodd y Lluoedd Arfog yn ystod y tair blynedd ddiwethaf gael at y Rhaglen Waith ar ôl hawlio Lwfans Ceisio Gwaith am dri mis. Yn flaenorol, bu'n rhaid i bersonél fod wedi gwasanaethu am dri mis o leiaf yn y tair blynedd flaenorol. Fel y soniwyd ym mhennod dau, mae'r Rhaglen Waith fel arfer ar gael ar ôl naw mis o hawlio Lwfans Ceisio Gwaith i bobl sy'n chwilio gwaith rhwng 18 a 24 oed; ac ar ôl 12 mis i'r rheini sy'n 25 oed a hŷn.

Ym mis Tachwedd 2011, cytunodd y Gronfa Loteri Fawr i ddarparu £35M o waddol i sefydlu ymddiriedolaeth Forces in Mind. Cyflenwyd yr ymddiriedolaeth yn wreiddiol gan bartneriaeth COBSEO yn gynigydd a ffefrir, ond mae bellach yn elusen annibynnol sy'n canolbwyntio ar wella lles Cymuned y Lluoedd Arfog drwy bontio llwyddiannus a chynaliadwy. Mae'r gwaddol yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ariannu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y broses bontio, ond hefyd ymchwil i bontio a lles cymuned y Lluoedd Arfog a'u Cyn-aelodau. Disgwylir i waith ymchwil hawlio'r gyfran fwy o'r grantiau blynyddol am y 2-3 blynedd gyntaf, ond bydd y dystiolaeth a geir yn hanfodol i bennu angen ac arwain y sector ymlaen. Hyd yma, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ariannu un o dreialon y Rhai sy'n Gadael y Lluoedd yn Gynnar (a drafodwyd eisoes yn yr adroddiad) o'r enw Future Horizons Project (FHP). Estynnwyd treial FHP o fis Ionawr 2013 i fis Awst 2013 er mwyn i'r Weinyddiaeth Amddiffyn werthuso a chymhwyso gwersi a ddysgwyd i wella ymhellach y cymorth ailsefydlu a gynigia i'w phersonél. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi darparu cyllid i ddau gynllun arall; treial mentora a gynhelir gan SSAFA Forces Help i 42 o Rai Clwyfedig, Anafedig a Sâl sy'n gadael y Lluoedd; a phrosiect gan Ddiwydiannau'r Lleng Brydeinig Frenhinol i gefnogi troseddwyr a arferai fod yn y Lluoedd a chreu'r amodau angenrheidiol i sicrhau pontio llwyddiannus o'r carchar i gartref a gwaith. Hwyrach y bydd y treialon hyn o fudd sylweddol i les y rhai sy'n gadael y Lluoedd neu'r rheini a fu allan o'r Lluoedd Arfog am gyfnod hirach. Ar gyfer y dyfodol, mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio dewisiadau i sefydlu Sefydliad Ymchwil annibynnol i Gyn-aelodau'r Lluoedd.

I'r personél Cymanwlad a'r Gyrcas hynny yn y garfan gyntaf a ddiswyddwyd, trefnwyd gennym fod Asiantaeth Ffiniau'r DU yn cynnig sesiynau gwybodaeth a sioeau teithiol iddynt am y prosesau mewnfudo ac ymgartrefu. Cyd-drafodom hefyd ganiatâd i bersonél Cymanwlad a Gyrcas ymgeisio i ymgartrefu chwe mis cyn eu rhyddhau, yn lle'r deng wythnos arferol, a threfnwyd gennym broses olrhain bwrpasol ar gyfer pob cais ymgartrefu i Asiantaeth Ffiniau'r DU. Cynigiwn roi'r un trefniadau ar waith i bersonél Cymanwlad a Gyrcas yn yr ail gyfran a ddiswyddir.

Lansiodd y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Gartref a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gynllun £1.5M wedi'i ariannu ar y cyd yn 2011 i gefnogi'r broses o integreiddio milwyr Gyrca sydd wedi ymddeol sy'n dymuno ymgartrefu yn y DU. Nod y cynllun yw helpu mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan niferoedd cynyddol y Gyrcas sy'n cyrraedd i fyw yn y DU gyda'u teuluoedd o ganlyniad i newidiadau mewnfudo 2009 ar gyfer cyn-filwyr Gyrca cyn 1997. Gweinyddir y cynllun ar sail grantiau ac mae eisoes wedi rhoi cyllid i nifer o ardaloedd sydd wedi cael straen ar eu hadnoddau.

# Lle mae effeithiau gwasanaeth yn dal i osod personél y Lluoedd dan anfantais neu lle mae gofyn ystyriaeth arbennig bellach

Gwyddom am bryderon a godwyd mewn perthynas â Chynlluniau Diswyddiadau'r Lluoedd Arfog. I'w lliniaru, byddwn yn sicrhau bod personél a ddewisir i'w diswyddo yn gymwys i gael y pecyn ailsefydlu llawn y byddent wedi gallu ei hawlio petaent wedi cwblhau'r comisiwn neu'r penodiad yr oeddent yn gwasanaethu arno pan gawsant eu diswyddo. Er mwyn sicrhau bod y rhaglen ddiswyddo'n deg i bawb dan sylw, lluniwyd meini prawf clir a gwrthrychol, gan gynnwys pethau fel rheng, cangen, hyd gwasanaeth a grŵp cyflogaeth gyrfa mewn meysydd lle mae gormodedd gweithlu. Ni chynhwyswyd agosrwydd at bwynt pensiwn uniongyrchol unigolyn yn y meini prawf diswyddo. Mae'n bosibl felly y gallai unigolion gael eu diswyddo naill ai'n syth cyn cyfnod o wasanaeth lle maent yn gymwys am incwm ar ymadael neu'n syth ar ôl cyfnod felly. Mae Cynlluniau Diswyddo'r Lluoedd Arfog yn adlewyrchu hyn drwy dalu cyfandaliadau iawndal di-dreth llawer mwy o faint i'r rheini sy'n methu cael incymau uniongyrchol. Lle bydd pobl yn gadael cyn y pwynt cymhwyso, bydd unrhyw hawliau pensiwn a enillwyd yn dal i roi pensiwn a gadwyd iddynt a chyfandaliad di-dreth pellach a gânt pan fyddant yn 60 neu'n 65 oed, gan ddibynnu ar ba gynllun pensiwn y maent. Er bod mwyafrif y rhengoedd eraill fel arfer yn gorfod gwasanaethu am 22 mlynedd cyn cael incwm uniongyrchol, mae Cynlluniau Diswyddo'r Lluoedd Arfog yn lleihau'r gofyniad hwn i 18 mlynedd. Bydd y consesiwn hwn o bedair blynedd yn galluogi llawer o'r rhai a ddiswyddir i gael incwm uniongyrchol na fuasent yn gymwys amdano fel arall.

Mae'r cyfnod pontio o lety a ddarperir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dal yn her i rai sy'n gadael y Lluoedd. Mae'r trefniadau newydd a gyflwynwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac a gefnogir gan awdurdodau lleol yn gam pwysig, ond mae'r diffyg tai cymdeithasol sydd ar gael mewn rhai ardaloedd yn golygu nad yw blaenoriaethu rhai sy'n gadael y Lluoedd bob amser yn arwain at ddarparu llety. Bydd Cynghorwyr Digartrefedd Arbenigol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn dal i weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'i Swyddfa Chynghori Tai'r Lluoedd ar y Cyd i ystyried y ffordd orau y gallwn wella'r cyngor a roir i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd a'r cymorth a gânt gan awdurdodau lleol.

I hwyluso'r cyfnod pontio i gyflogaeth, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cydnabod bod y rhai sy'n gadael y Lluoedd dan anfantais gan nad yw cyflogwyr allanol bob amser yn cydnabod y sgiliau a'r profiad a fagant ar wasanaeth. Mewn un enghraifft benodol, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac Adrannau'r DU o'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd yn noddi gwaith i alluogi'r rhai sy'n gadael y Lluoedd â sgiliau meddygol i gael eu cydnabod gan gyrff allanol fel y GIG. I ddechrau, y bwriad yw cyflenwi a chydnabod hyfforddiant lefel is a all agor y drws i gymwysterau addysg uwch yn y tymor hwy. Mae trafodaethau tebyg yn ofynnol gyda diwydiannau eraill, i edrych ar grwpiau fel gyrwyr HGV.

I bersonél Tramor a Chymanwlad y Lluoedd, mae'r rheini sydd am barhau yn y DU ar ôl eu rhyddhau dan anfantais o hyd am fod cais i ymgartrefu'n dal yn gallu cymryd nifer o wythnosau, gan olygu na all y rhai sy'n gadael y Lluoedd fod ar gael i'w cyflogi ar yr un sail â dinasyddion y DU neu'r rheini sydd eisoes wedi ymgartrefu yn y DU, a gallant gael trafferth yn sicrhau llety. Mae angen hefyd iddynt allu cael at gyllid cyhoeddus (ar gyfer cyllid addysg uwch neu am faterion meddygol arferol) a chael cymorth tai awdurdod lleol. Mae'n bwysig iawn felly cael caniatâd i ymgartrefu cyn gynted â phosibl ar ôl eu rhyddhau ac mae Is-bwyllgor y Cabinet wedi cadarnhau cynlluniau Asiantaeth Ffiniau'r DU i estyn i holl bersonél Tramor neu Gymanwlad y prosesau ystyried cyflymach a gyflwynwyd eisoes i'r personél hynny yn y Lluoedd sy'n wynebu colli swydd sydd am ymgeisio i ymgartrefu. Yr amcan yw rhoi caniatâd i ymgartrefu ar y diwrnod rhyddhau neu drannoeth yn effeithiol o wanwyn 2013. Mae'r Asiantaeth hefyd wedi diwygio'r Llythyr Mynegol a roir i bersonél y Lluoedd a Chanllawiau Cyflogwyr i egluro y gellir cyfweld â phersonél y Lluoedd am swyddi ac y gall cyflogwyr wneud yr holl archwiliadau gwaith perthnasol hyd yn oed tra byddant yn disgwyl canlyniad eu cais am ganiatâd i ymgartrefu.

Pryderir y gallai personél Tramor a Chymanwlad y Lluoedd fod dan anfantais yn y broses o benderfynu

mewnfudo os oes ganddynt gosb wedi'i chofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu fel collfarn heb ei bwrw, lle mae'n bosibl y byddai trosedd debyg wedi denu rhybudd gan yr heddlu mewn bywyd sifil. Er credir nad oes llawer iawn o achosion lle gallai hyn fod yn berthnasol, mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod canllawiau newydd ar gael i swyddogion achos sy'n ystyried ceisiadau am ymgartrefu a dinasyddio i egluro i'r swyddogion achos a'r ymgeisydd sut bydd collfarnau milwrol yn effeithio ar gais. Bydd hyn hefyd yn cynghori ar ddewisiadau ar gyfer rheoleiddio aros yn y DU lle mae collfarn heb ei bwrw lle nad oes unrhyw gollfarn gywerth yn y byd sifil a hefyd lle gallai sifiliad fod wedi cael ei drin yn wahanol ar gyfer yr un drosedd.

## Ymrwymiadau Adroddiad 2012

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU i sicrhau bod trefniadau arbennig yn cael eu gwneud yn effeithiol o Wanwyn 2013 er mwyn caniatáu ymgartrefu i bersonél Tramor a Chymanwlad y Lluoedd ar y diwrnod y byddant yn gadael y Lluoedd Arfog, neu drannoeth.

Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod canllawiau newydd ar gael i swyddogion achos sy'n ystyried ceisiadau am ymgartrefu a dinasyddio i egluro i swyddogion achos ac ymgeiswyr sut bydd collfarnau milwrol yn effeithio ar gais.

# 7 CYN-AELODAU O'R LLUOEDD ARFOG



## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

Nodwyd nifer o faterion pwysig i Gyn-aelodau'r Lluoedd y llynedd, gan gynnwys newidiadau mewn pensiynau; rheoli'r rhyngwyneb rhwng cynlluniau digolledu a darparu gofal cymdeithasol, Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol; gwelliannau mewn gofal iechyd meddwl i gyn-aelodau'r Lluoedd, gan gynnwys datblygu Gwasanaeth Gwybodaeth Cyn-aelodau'r Lluoedd; a chyflwyno cerdyn disgownt i Gyn-aelodau'r Lluoedd.  Nodwyd gennym hefyd y gwaith parhaus ar dai a'r angen i sicrhau bod cyn-aelodau'n cael cymorth pan fydd ei angen.

## Yr hyn a wnaethom i leihau anfantais a rhoi ystyriaeth arbennig fel sy'n briodol

Am fod polisïau allweddol wedi'u datblygu eleni, rydym wedi gwneud nifer o drefniadau arbennig, a alluogwyd gan waith Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfamod y Lluoedd Arfog, i sicrhau bod Cyn-aelodau clwyfedig, anafedig neu sâl o'r Lluoedd, a hynny o ganlyniad i wasanaeth, yn osgoi anfantais wrth gael at fudd-daliadau, lle bydd hyn yn briodol. Bydd **iawndal** a dalir dan y Cynllun Pensiynau Rhyfel a Chynllun Digolledu'r Lluoedd Arfog yn cael ei hepgor o'r asesiad ariannol am Gredyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.  O fis Hydref 2012, mae incwm parhaus o Gynllun Digolledu'r Lluoedd Arfog (sy'n cael ei alw'n Daliad Incwm Gwarantedig) wedi'i hepgor o'r asesiad ariannol am ofal cymdeithasol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol.  Mae trefniadau hefyd yn cael eu gwneud i sicrhau nad yw personél presennol a blaenorol y Lluoedd a anafwyd

yn ddifrifol sydd gyda Chynllun Digolledu'r Lluoedd Arfog yn dioddef niwed ariannol o ganlyniad i gyflwyno Taliadau Annibyniaeth Bersonol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Ebrill 2013. Bydd hwn yn cael ei alw'n Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Bu gwella cymorth i **iechyd meddwl** cyn-aelodau'n faes gwaith allweddol hefyd. Trwy fenter Dr Murrison, trefnwyd bod deng Rhwydwaith Lluoedd Arfog y GIG yn cael £150K yr un gan yr Adran Iechyd yn Lloegr er mwyn gwella gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-aelodau'r lluoedd yn eu hardaloedd. Er nad yw'r gwasanaethau hyn yn llwyr weithredol ym mhob ardal, maent eisoes wedi rhoi cyfrifoldebau am iechyd meddwl cyn-aelodau'r lluoedd i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ychwanegol, gan wneud mwy nag argymhelliad Dr Murrison o 30, a disgwylir recriwtio rhagor. Mewn pum ardal, sefydlwyd Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog mewn partneriaeth drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gontract gyda Combat Stress. Fan arall, mewn tair ardal, rhoddwyd gwasanaeth cyfeirio ar waith i Gael yn Haws at Wasanaethau Therapi Seicolegol, gan gydweithio eto â Combat Stress. Hefyd, mae Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Gofal Iechyd Swydd Stafford a Swydd Amwythig wedi sefydlu Rhwydwaith Iechyd Meddwl Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, sy'n dod ynghyd â chlinigwyr y GIG, elusennau'r Lluoedd ac eraill i nodi arfer da ac ystyried y camau nesaf. Un o'r canlyniadau allweddol a ddisgwylir o'r Rhwydwaith hwn fydd archwiliad o effeithiolrwydd mentrau Fighting Fit Dr Murrison.

Mae cynlluniau'n aeddfedu ar gyfer **Gwasanaeth Gwybodaeth Cyn-aelodau'r Lluoedd**, sy'n fodd o ymgysylltu â Chyn-aelodau'r Lluoedd 12 mis ar ôl eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog. Bydd y cysylltiad hwn â Chyn-aelodau'n cynnwys holiadur am faterion iechyd yn ogystal â chyngor ar yr ystod o wasanaethau sydd ar gael yn lleol a sut i gael cymorth am faterion iechyd sy'n gysylltiedig â bod yn y Lluoedd.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn parhau i ariannu darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol am ryw £1.2M am y tair blynedd nesaf ac yn ystyried pa ddatblygiadau pellach y gellir eu gwneud i wella canlyniadau i Gyn-aelodau y mae angen gofal, triniaeth a chymorth arbenigol arnynt. Mae hefyd yn dal i ariannu gwasanaeth Pwynt Cyntaf Cyn-aelodau'r Lluoedd am £200K ar gyfer 2012-13. Canolfan gynghori a chyfeirio yw Pwynt Cyntaf Cyn-aelodau'r Lluoedd a gynlluniwyd i helpu cyn-aelodau a'u teuluoedd os oes angen arweiniad a chymorth ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod pontio i fywyd sifil. Bydd Llywodraeth yr Alban hefyd yn archwilio gyda Bwrdd Iechyd GIG Lothian a Byrddau Iechyd eraill sut gellid estyn y gwasanaeth i ardaloedd eraill o'r Alban.

Yng Nghymru, mae Gwasanaeth Iechyd a Lles Cyn-filwyr Cymru Gyfan yn cynnig yn lleol mwy o ofal arbenigol iawn i gleifion allanol, ac mae'n helpu i gyfeirio Cyn-aelodau o'r Lluoedd a'u teuluoedd at gymorth arall y gall fod ei hangen arnynt. Mae'r fenter yn sefydlu llwybr gofal unedig sy'n ymuno'r sectorau statudol ac anstatudol. Mae'n cynnig therapyddion sy'n arbenigo yn iechyd meddwl Cyn-aelodau'r Lluoedd i ddarparu asesiad, triniaeth addas ac atgyfeirio neu gyfeirio. Mae'r dewisiadau triniaeth yn cynnwys comisiynu gwasanaethau Combat Stress, sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth i ddarparu nifer o grwpiau cymorth cymunedol a arweinir gan nyrsys. Gall cyn-aelodau'r Lluoedd hefyd gael at wasanaethau iechyd meddwl prif ffrwd, fel Gwasanaeth Straen wedi Trawma'r GIG. Mae Cymru wedi datblygu modiwl e-ddysgu i staff gofal iechyd sylfaenol er mwyn hybu ymwybyddiaeth am PTSD. Ceir Hyrwyddwyr Cyn-aelodau'r Lluoedd a Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol hefyd yn eiriolwyr ar gyfer anghenion gofal iechyd y grŵp hwn yn eu hardaloedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu llwybr i ofalu am Gyn-filwyr â phroblemau camddefnyddio sylweddau, gyda'r nod o sicrhau cyfnod pontio di-dor o'r atgyfeirio i gwblhau'r driniaeth. Mae hyn i fod i gael ei weithredu erbyn mis Mawrth 2013.

Yn fwy cyffredinol ar iechyd, ail-gadarnhaodd Is-bwyllgor y Cabinet y dylai Cyn-aelodau o'r Lluoedd sy'n cael at wasanaethau'r GIG yn Lloegr gael triniaeth â blaenoriaeth am gyflyrau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth, yn amodol ar anghenion clinigol eraill. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn rhoi'r un flaenoriaeth i Gyn-aelodau'r Lluoedd. Mae ffurflenni cofrestru Meddyg Teulu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn annog cyn-aelodau'r Lluoedd i ddatgan eu statws wrth gofrestru gyda meddygfa, gan roi cyfle i drafod anghenion iechyd Cyn-aelodau'r Lluoedd. Mae Llywodraeth yr Alban newydd gwblhau cyfnod cyntaf astudiaeth dwy flynedd o gofnodion iechyd dienw i archwilio sut mae iechyd Cyn-aelodau'n cymharu ag iechyd poblogaeth gyffredinol

yr Alban o ran cyfraddau clefyd y galon. Bwriedir estyn yr astudiaeth hon dros y misoedd i ddod i archwilio canlyniadau ar gyfer mathau eraill o ddiagnosis.

O adroddiad blynyddol y Rhwydwaith Cyfunol Digartrefedd a Gwybodaeth o'r Stryd i Gartref ar gyfer 2011-12 sy'n cofnodi nifer y rhai sy'n cysgu ar y stryd a welwyd yn Llundain, gwyddom fod y rheini a honnodd fod â chefndir yn y Lluoedd Arfog yn 4% o'r holl boblogaeth sy'n cysgu ar y stryd yn Llundain. Mae'r ganran hon yn isel, o ystyried bod Cyn-aelodau'r Lluoedd yn 8% o'r boblogaeth yn gyffredinol, ond rydym yn cydnabod y gallai fod yn is. Mae felly'n galonogol y bydd rheoliadau diwygiedig ar ddyrannu **tai** cymdeithasol yn sicrhau y bydd Awdurdodau Lleol bob amser yn rhoi blaenoriaeth uchel i aelodau blaenorol neu aelodau cyfredol o'r Lluoedd Arfog os oes angen iddynt symud oherwydd anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd a gafwyd o ganlyniad i'w gwasanaeth ac os oes angen tŷ ar frys arnynt.

Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol hefyd yn gweithio gydag asiantaethau arbenigol, gan gynnwys sefydliadau digartrefedd gwirfoddol ac Asiantaeth Personél a Chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith Cyn-aelodau, na fyddant fel arfer yn ddigartref tan nifer o flynyddoedd ar ôl iddynt adael y Lluoedd Arfog. Mae Llywodraeth yr Alban yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Cyn-aelodau Lluoedd Arfog yr Alban i ddarparu £2.3M o Grant Cymdeithas Tai er mwyn iddi adeiladu cyfleuster yn Glasgow sy'n cynnwys 50 o unedau tai gydag allgymorth ar gael i gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog. Rhagwelir y bydd cartrefi ar gael i'w meddiannu tua diwedd 2013. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu gwefan mewn partneriaeth â Cymorth, y sefydliad digartrefedd a chymorth tai, yn adnodd i bobl sy'n gweithio gyda chyn-aelodau digartref o'r Lluoedd Arfog. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ag awdurdodau lleol ar Bapur Gwyn Tai sy'n cynnwys cynigion i gryfhau dulliau atal digartrefedd ac a fydd yn gweithio gyda chymdeithasau Cyn-aelodau'r Lluoedd i gefnogi rhoi'r cynigion hynny ar waith.

Neilltuodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol £1.7M eleni i addasu cartrefi er mwyn i gyn-bersonél y Lluoedd Arfog sy'n dychwelyd o ddyletswydd weithgar ag anafiadau difrifol fyw'n annibynnol gartref ag urddas a pharch. Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r rheoliadau grantiau adnewyddu tai i ddiystyru pensiynau rhyfel a thaliadau iawndal y Lluoedd Arfog yn y prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Gall awdurdodau lleol dargedu adnoddau yn addas i anghenion lleol. Mae hyn yn helpu cyn- bersonél anabl y Lluoedd Arfog i aros yn eu cartrefi eu hunain yn gyffyrddus ac yn ddiogel.

Wrth i Gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog gael eu hintegreiddio mewn cymunedau ledled y DU, sef rhyw un o bob deg o'r boblogaeth oedolion, mae'n bwysig cydnabod bod awdurdodau lleol wedi mynd ymlaen â llawer iawn o fesurau i ymdrin â'r meysydd lle gallai Cyn-aelodau fod dan anfantais neu lle mae ystyriaeth arbennig yn briodol. Yn Hampshire er enghraifft, mae cymorth i Gyn-aelodau'r Lluoedd yn agwedd bwysig ar waith y Cyfamod Cymunedol. Sefydlwyd partneriaethau rhwng Cyngor Sir Hampshire, SSAFA, Asiantaeth Personél a Chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, mudiadau sector gwirfoddol sifil a'r Lleng Brydeinig Frenhinol i wella'r cydweithio a'r canlyniadau i gyn-aelodau o bob oedran. Yng ngogledd-orllewin Lloegr, mae'r elusen Live At-Ease wedi sicrhau cymorth i gyn- bersonél y Lluoedd a'u teuluoedd o ran tai, hyfforddiant a chyflogaeth, rheoli arian a dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Yn Stockton, mae'r Cyngor yn manteisio ar fforymau cyflogaeth i helpu i gyfleu'r sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr sydd gan bersonél y Lluoedd Arfog a hyrwyddo cyflogi cyn- bersonél y Lluoedd.

Mewn adroddiad annibynnol gan The Howard League, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011, daethpwyd i'r casgliad bod cyn- bersonél y Lluoedd Arfog yn llai tebygol o fod yn y carchar na sifiliaid. Mae mwyafrif y personél sy'n gadael y Lluoedd Arfog bob blwyddyn yn pontio'n llwyddiannus i fywyd sifil ac mae cymorth ar gael i unrhyw rai a allai gael anawsterau arbennig yn pontio. Yn ôl cadeirydd yr ymchwiliad, Syr John Nutting QC, mewn gwirionedd mae'r rhan fwyaf o gyn-aelodau'r Lluoedd yn ymgartrefu eto'n ddiffwdan yn y gymuned ond, gyda rhai, mae problemau'n codi'n nes ymlaen yn eu bywydau sy'n gallu arwain at droseddu. Dywed fod y pethau sy'n gwneud i gyn-aelodau o'r Lluoedd droseddu fel petaent yn debyg iawn i resymau'r rhan fwyaf o ddynion sydd yn y carchar.

Dyfarnwyd y contract newydd ar gyfer y **Cynllun Disgownt Amddiffyn** ledled y DU ym mis Mehefin ac

aeth yn fyw ym mis Hydref 2012. Yn rhan o'r cynllun, mae cardiau aelodaeth yn cael eu cynnwys am y tro cyntaf, gan gynnwys cardiau i Gyn-aelodau'r Lluoedd. Bydd y cardiau hyn yn galluogi Cyn-aelodau'r Lluoedd ac aelodau eraill y cynllun i nodi eu hunain i ddarparwyr gwasanaeth a hawlio disgowntiau a gynigir dan y cynllun. Disgwylir y bydd y cardiau ar gael o ddiwedd 2012.

Roedd **Diwrnod y Lluoedd Arfog** yn llwyddiant ysgubol eto pan gafodd ei gynnal ddydd Sadwrn 30 Mehefin 2012. A Diwrnod y Lluoedd Arfog yn ei bedwaredd flwyddyn bellach, mae'n gyfle i'r cyhoedd ddangos eu cefnogaeth a'u gwerthfawrogiad i bawb sy'n gwasanaethu ac sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi.

## Lle mae effeithiau gwasanaeth yn dal i osod personél y Lluoedd dan anfantais neu lle mae gofyn ystyriaeth arbennig bellach

Ers 2010-11, mae  r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) wedi cadw  n ôl tuag £1.7M o gyllideb flynyddol y Grant Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn darparu addasiadau i gyn-bersonél anabl y Lluoedd. Hyd yma, dywed yr Adran nad oes llawer iawn wedi manteisio ar y cyllid hwn, a rhyw £225,000 y flwyddyn yn cael ei hawlio gan awdurdodau lleol yn 2010-11 a 2011-12. I raddau helaeth, y rheswm dros y diffyg manteisio hwn fu'r ffaith nad yw awdurdodau lleol yn gwybod yn iawn faint o gyn- bersonél anabl y Lluoedd sy'n byw yn eu hardaloedd. I ymladd hyn, mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi gofyn i Foundations – y corff cenedlaethol ar gyfer asiantaethau gwella cartrefi – weithio gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac awdurdodau lleol i hybu ymwybyddiaeth am yr arian a neilltuir i ddarparu addasiadau i gyn- bersonél y Lluoedd ac i gasglu gwybodaeth am nifer a dosbarthiad cyn- bersonél anabl y Lluoedd yn eu rhanbarthau. Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr yr holl awdurdodau lleol; ac mae Foundations wedi hysbysebu bod y cyllid hwn ar gael yn ei weithdai Grant Cyfleusterau i'r Anabl rhanbarthol. Gobeithiwn y bydd hyn yn annog mwy i fanteisio ar y cyllid yn y misoedd i ddod.

Y llynedd, nodwyd gennym y ddarpariaeth llety â chymorth i gyn- bersonél y Lluoedd sy'n cael amseroedd caled. Er mwyn deall a ydy'r trefniadau hyn yn ddigon, mae Is-bwyllgor y Cabinet wedi gofyn am dystiolaeth gan y sector elusennol gyda'r bwriad o adolygu'r ddarpariaeth os bydd y dystiolaeth yn awgrymu bod angen gwneud hynny.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn ystyried sut i wella'r modd y cofnodir statws Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ar gofnodion Meddygon Teulu, lle bydd y Cyn-aelod yn dymuno felly. Bydd hyn yn sicrhau bod meddygon teulu mewn gwell sefyllfa i adnabod cyflyrau cysylltiedig â bod yn y Lluoedd.

Yng Nghymru, ar ôl adroddiad Tachwedd 2011 am Anghenion Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, ystyria Llywodraeth Cymru y dylai ymchwil pellach yng Nghymru gynnwys gwerthusiad o ymyriadau newydd, ac ymchwil ansoddol i'r rhesymau dros beidio â cheisio cymorth.

## Ymrwymiadau Adroddiad 2012

Gan ddibynnu ar y dystiolaeth a ddarperir, bydd y Llywodraeth yn adolygu'r angen am lety hanner ffordd i gyn- bersonél y Lluoedd.

# TABL O YMRWYMIADAU PRESENNOL

Yn y tabl hwn, rhestrir yr ymrwymiadau a wnaed yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog: Heddiw ac Yfory a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011 na chawsant eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2011 a'r ymrwymiadau ychwanegol hynny a wnaed yn yr adroddiad blynyddol interim a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011.

**Allwedd i statws cynnydd**

| | |
|---|---|
| Cwblhawyd ers Rhagfyr 2011 | |
| I'w gwblhau cyn adroddiad blynyddol 2013 | |
| I'w gwblhau ar ôl adroddiad blynyddol 2013 | |

**Telerau ac Amodau Gwasanaeth**

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Codiadau cyflog blynyddol i'r rhengoedd isaf tra bydd cyflogau'r sector cyhoeddus wedi'u rhewi | y DU | |
| Cynnwys y Lluoedd Arfog yn Adolygiad Cyflogau Teg Hutton | y DU | |
| Datblygu Model Cyflogaeth Newydd | y DU | |

**Gofal iechyd**

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Cynnwys mwy o ffocws ar iechyd meddwl mewn archwiliadau meddygol wrth ryddhau ac archwiliadau meddygol ar wasanaeth | y DU | |
| Prosiect Llety Meddygol Canolbarth Lloegr | y DU | |
| Triniaeth IVF i gyn-aelodau'r Lluoedd sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol | LLOEGR | |
| Diwygio GIG Lloegr – cynlluniau'n ystyried teuluoedd y Lluoedd | LLOEGR | |
| Lansio Gwasanaeth Gwybodaeth Cyn-aelodau'r Lluoedd | y DU | |
| Gweithredu'r Adroddiad Gwerthuso Treialon Iechyd Meddwl | LLOEGR | |
| Mae Llywodraeth yr Alban yn ystyried posibilrwydd estyn gwasanaethau allgymorth cymunedol i ardaloedd yn yr Alban y tu hwnt i Ayr | YR ALBAN | |
| Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod gyda Deoniaeth Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd a Lles i Gyn-aelodau'r Lluoedd ynghylch hyfforddi staff iechyd am anghenion iechyd Cyn-aelodau'r Lluoedd | CYMRU | |

**Addysg**

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Ehangu cyfleoedd hyfforddiant i bobl dan 18 | CYMRU a LLOEGR | |
| Gwelliannau yn rhaglen addysg y Fyddin: sefydlu cronfa datblygiad personol sengl | y DU | |
| Gwelliannau yn rhaglen addysg y Fyddin: cymwysterau'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol | y DU | |
| Gwelliannau i raglen addysg y Fyddin: cysoni â mentrau Llywodraeth sy'n dod i'r amlwg | y DU | |
| Gwelliannau yn rhaglen addysg y Fyddin: uwch filwyr i ennill cymwysterau addysgu | y DU | |
| Datblygu strategaeth newydd i fynd i'r afael ag effaith symudedd ar addysg plant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog | y DU | |
| Sicrhau darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig ddi-dor | y DU | |
| Caniatáu i hyfforddiant yn ysgolion Addysg Plant y Lluoedd Arfog dramor gyfrif tuag at Statws Addysgu Cymwysedig i bartneriaid y Lluoedd | LLOEGR | |
| Paru'r cymwysterau sydd gan bersonél Tramor a Chymanwlad y Lluoedd â chymwysterau cywerth y DU a gydnabyddir | y DU | |

**Tai**

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Datblygu dull amgen o ddarparu llety i bersonél y Lluoedd a'u teuluoedd | y DU | |
| Rhaglen Contract Ystadau'r Genhedlaeth Nesaf (NGEC) | y DU | |
| Cymorth parhaus i Gynllun Perchentyaeth y Lluoedd Arfog | y DU | |
| Hybu ymwybyddiaeth am gynlluniau perchentyaeth cost isel y Llywodraeth | CYMRU, LLOEGR, YR ALBAN | |
| Gwelliannau yng Ngofal Cwsmeriaid y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn | y DU | |
| Rhoi "blaenoriaeth ychwanegol" i dai cymdeithasol i'r rheini y mae angen tai ar frys arnynt pan fyddant yn gadael y Lluoedd Arfog. | LLOEGR | |
| Bod personél y Lluoedd sy'n gorfod symud o'r naill ganolfan i'r llall yn cadw eu hawliau cymhwyso i dai cymdeithasol | LLOEGR | |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth yr Alban yn ystyried a fyddai rhoi mwy o hyblygrwydd a chyfrifoldeb i awdurdodau lleol bennu eu dull eu hunain o fodloni angen yn helpu landlordiaid cymdeithasol i fynd i'r afael ag anghenion tai cyn- bersonél y Lluoedd a sicrhau nad ydynt dan anfantais | YR ALBAN | |

### Budd-daliadau a Threth

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Ystyried anghenion Cyn-aelodau'r Lluoedd wrth ddatblygu'r Credyd Cynhwysol | y DU | |
| Rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ar ddarparu disgowntiau yn y dreth gyngor | LLOEGR | |
| Datrys materion cael at fudd-daliadau i ddibynyddion personél Tramor a Chymanwlad sydd ar wasanaeth | y DU | |

### Cyfrifoldeb Gofal

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Ystyried ceisiadau am ganiatâd i aros yn y DU gan ddibynyddion Tramor a Chymanwlad mewn perthynas â thrais domestig fesul achos | y DU | |

### Ymfyddino

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Ymgynghori â'r Lluoedd unigol i archwilio sut mae datrys y broblem o gefnogi unigolion ar secondiad ac is-elfennau uned sy'n cael eu byddino ar ymgyrchoedd tramor | y DU | |

### Bywyd Teuluol

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Cydbwyso'r pwysau ar bersonél y Lluoedd a'u teuluoedd drwy Fodel Cyflogaeth Newydd | y DU | |
| Gwella cludadwyedd gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol i wella cyflogadwyedd teuluoedd y Lluoedd Arfog | CYMRU, LLOEGR A'R ALBAN | |
| Gwaredu gofynion preswylfa ar gyfer Bathodynnau Glas i bersonél anabl y Lluoedd a'u teuluoedd sy'n cael eu hanfon dramor | LLOEGR | |
| Asesiadau Digonedd Gofal Plant | y DU | |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygiad o faterion cludiant cyhoeddus sy'n effeithio ar deuluoedd y Lluoedd sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell | LLOEGR | |
| Dewisiadau gyrfa hyblyg yn y Sector Cyhoeddus | LLOEGR | |
| Cymorth Sector Preifat: Peilot ar gefnogi cyflogaeth gwŷr a gwragedd | LLOEGR | |
| Sicrhau bod gwŷr a gwragedd personél y Lluoedd yn gallu hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar ôl iddynt roi heibio'u swydd yn wirfoddol i fynd dramor gyda'u partner ar wasanaeth | y DU | |

### Gwasanaethau a Chynhyrchion Masnachol

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol | Statws |
|---|---|---|
| Gwneud Swyddfa Bost Lluoedd Prydain (BFPO) yn god post sy'n cael ei gydnabod yn y DU | Yng nghyfeiriadau Swyddfa Bost Lluoedd Prydain | |
| Gweithio gyda'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu ar fenthyca i bersonél y Lluoedd | Yn y DU | |

### Pontio

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Gwella cymorth adsefydlu i'r Rhai sy'n Gadael y Lluoedd yn Gynnar | y DU | |
| Lansio cynllun Troops to Teachers | LLOEGR | |
| Denu'r Rhai sy'n Gadael y Lluoedd Arfog i'r Lluoedd Wrth Gefn Gwirfoddol: Astudiaeth Lluoedd Wrth Gefn y Dyfodol 2020 | y DU | |
| Gweithio gydag ymddiriedolaeth Forces in Mind i gefnogi cyn-aelodau'r Lluoedd a'u teuluoedd | y DU | |
| Ystyried trefn eithrio yn hytrach na dewis rhoi ar gyfer cyswllt ag elusennau'r Lluoedd Arfog | y DU | |
| Mynd ymlaen ag ymchwil i gyfnod pontio'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog | y DU | |

### Cymorth ar ôl Gwasanaeth

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Rhoi newidiadau ar waith i bensiynau'r Lluoedd gan adlewyrchu'r rôl unigryw a gyflawnir gan bersonél y Lluoedd | y DU | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwell porthol ar-lein i Gyn-aelodau'r Lluoedd | y DU | |
| Taliadau Digolledu Cynllun Digolledu'r Lluoedd Arfog a chyswllt â budd-daliadau eraill | y DU | |

### Cydnabyddiaeth

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Rheolau sy'n llywodraethu dyfarnu medalau | y DU | |

### Cyfranogiad fel Dinasyddion

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Gwella gallu personél y Lluoedd i bleidleisio | y DU | |
| Bydd prawf Bywyd yn y DU ar gael dramor | y DU | |
| Dinasyddion Tramor a Chymanwlad – Amser a dreulir mewn gwasanaeth y tu allan i'r DU | y DU | |
| Adolygiad Asiantaeth Ffiniau'r DU o ffioedd i Ddibynyddion y Lluoedd Arfog | y DU | |
| Byrhau amser y siwrnai i ymgartrefu i Aelodau o'r Lluoedd Arfog Wrth Gefn | y DU | |
| Datrys y broblem nad yw gwŷr a gwragedd tramor dinasyddion Prydain sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn gallu cyflwyno cais o dramor i ymgartrefu yn y DU | y DU | |
| Datrys problem y prawf iaith Saesneg i holl ddibynyddion y Lluoedd Arfog y mae angen teitheb arnynt | y DU | |

### Newidiadau mewn Amddiffyn

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Rheoli'r dychwelyd o'r Almaen i'r Deyrnas Unedig | y DU | |

### Atebolrwydd

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Rhaglen Ymgyfarwyddo Ombwdsmyn | y DU | |

**Y Cyfamod a'r Gymdeithas Ehangach**

| Ymrwymiad | Mae'n berthnasol yn | Statws |
|---|---|---|
| Cerdyn i Gyn-aelodau'r Lluoedd – er mwyn cael breintiau a disgowntiau masnachol | y DU | |
| Lansio Cynllun Cymeradwyo Rheolwr y Staff Amddiffyn | y DU | |
| Gweithio gydag Elusennau'r Lluoedd i nodi'r ffordd orau y gallant ddefnyddio eu hadnoddau | y DU | |
| Rhannu cyfleusterau'r Lluoedd gyda sifiliaid | y DU | |
| Annog rhan yn y Gemau Olympaidd | y DU | |
| Cysylltiadau rhwng Lluoedd Wrth Gefn a Chymdeithasau Cadlanciau a grwpiau ieuenctid – cynnal adolygiad o Ymgysylltu ag Ieuenctid | y DU | |

© Crown Copyright 11/12
Published by the Ministry of Defence UK
This document is available at www.mod.uk

Designed by DMC Secretariat Graphics
Tel: 020 7218 6045
Ref: DMC00544 V2 12/13